


ECO'r Wyddfa

Cyfnod Bwrw Pleidlais

Mae hi'n gyfnod prysur i'r blychau pleidleisio! Yn y rhifyn hwn cawn hanes Beca Brown, etholwyd yn gynghorydd dros ward Llanrug yn ddiweddar, yn ogystal â gwybodaeth am bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.



Yn y rhifyn hwn:

18

- Cyfweliad â phennaeth newydd Amgueddfa Cymru **tud 6**
- Hanes Band Pres Llanrug **tud 16**
- Bronwen ar FFIT Cymru **tud 18**
- Tips garddio'r gwanwyn **tud 25**
- Chwilota **tud 28**

a mwy!



6



25



Elin Enfys

Chwilio am Elin Enfys

Ydych chi'n gallu dod o hyd i Elin Enfys? Chwiliwch am yr arth fach ddireidus yn cuddio 8 gwaith rhwng y tudalennau!



SWYDDOGION A GOHEBWYR

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

Golygydd Chwaraeon
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Golygydd yr Ifanc
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

Ffotograffwr
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

Trefnydd Ariannol
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Gwerthiant Post
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Bwndelu
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

Dylunydd
Elgan Griffiths
post@elganguffiths.com

GOHEBWYR PENTREFI

Bethel:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Brynrefail a Cwm-y-Glo:
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

Caeathro:
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Deiniolen:
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

Dinorwig:
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

Llanberis:
Eifion Roberts
Swyn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

Llanrug:
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

Nant Peris:
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com

Penisarwaun:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Waunfawr:
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

Panel Golygyddol

Mae yna dîm o olygyddion yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Eco, sef Beca Brown, Gwenllian Carr, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Mared Roberts a Marged Rhys.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
£5 - Mrs Meira Rowlands, 17 Rhydfadog, Deiniolen
£10 - Ffrindiau Clwb Hafan Elan

Dyddiadau i'w cofio...

Rhifyn	Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis)	Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis)
Mehefin	14 Mai	28 Mai
Gorffennaf	11 Mehefin	25 Mehefin



Yn ystod y misoedd aeth heibio...

- Glo. Y Toriaid mewn cyfng-gyngor ynglŷn â'r bwriad i roi caniatâd cynllunio i agor pwll glo newydd yn Cumbria. Y Llywodraeth ar y cychwyn yn mynnu mai mater i Gyngor Cumbria oedd penderfynu o blaid neu yn erbyn, a Peilat Jenrick yn golchi ei ddwylo o'r ddadl. Bellach, yn dilyn protestiadau gan amgylcheddwyr daeth tro pedol, a phenderfynwyd cynnal ymchwiliad cyhoeddus.
- Antikythera. Dyfais fecanyddol sy'n dyddio dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl, ac sy'n cael ei gyfrif fel y cyfrifiadur cyntaf erioed. Cafodd ei ddarganfod yn 1901 mewn llong-ddrylliad ar ynys o'r un enw yng Ngwlad Groeg, a dim ond traean ohono sy'n dal ar ôl. Credir iddo gael ei ddefnyddio i ragfynegi safleoedd yr haul, y lleuad a phlanedau eraill. Roedd rhan o'r peirianwaith eisoes wedi ei ddatrys, ond bellach mae gwyddonwyr wedi datrys holl batrwm gweithio y cyfrifiadur cyntaf.
- Esgidiau. Beth sydd mewn enw? Mae Peter FOOT, swyddog ariannol cwmni SHOE Zone wedi ymddeol, a chafodd Terry BOOT ei benodi yn ei le.
- Sbwriel. Lloeren wedi ei dyfeisio fydd yn cael ei lansio i'r gofod i gasglu'r sbwriel sy'n chwyrlio o gwmpas ein bydysawd. Ond beth am gychwyn wrth ein traed bois?
- Methane. Y nwy sy'n rhannol gyfrifol am gynhesu byd-eang – a llawer ohono'n cael ei gynhyrchu gan wartheg a'i ollwng allan o'u penolau. Darganfyddwyd bod bwydo gwartheg gyda gwymon yn lleihau lefel y nwy. Felly pan gaiff cyfyngiadau y pandemig eu llacio a hawl gennym i deithio ymhellach na lleol, peidiwch a dychryn o weld gyrroedd o wartheg yn pori ar lan y môr.
- Addurno. Dangosodd arolwg fod mwy o arian wedi ei wario yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar addurno ein cartrefi, a hynny oherwydd bod gwario ar wyliau dramor wedi gostwng yn sylweddol. Ond mae Rhif 10 Stryd Downing wedi mynd i eithafion, a gwario £2.6 miliwn ar ystafell i gynnal cynhadleddau i'r wasg. Pris drud iawn i'w dalu am yr hawl i ddweud celwyddau.
- Pryfed Cop. Yn dilyn llifogydd dinistriol yn ardal Sydney, Awstralia, daeth rhybuddion am bryfed cop gwenwynig yn dianc rhag y dyfroedd ac yn cyrchu maestrefi'r ddinas.
- Ôl-dâl. Gweithiwr garej yn Peachtree City, Georgia, America, wedi gorfod mynd i'r llysoedd i hawlio ôl-dâl gan ei gyn-gyflogwr – ac fe'i cafodd; gwerth £667 mewn arian mân (dros 90,000 o ddarnau), wedi eu gollwng o gefn lori ar y llwybr at ei ddrws ffrynt.
- Oes y Cerrig. Arf carreg wedi ei ddarganfod ar un o'r ynysoedd oddi ar arfordir Penfro, a hynny gan gwningen yn chwilio am gartref newydd. Daeth mwy o arfau i'r amlwg wedi archwiliad, ac yn ôl arbenigwr o Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn eu mysg mae darn o wrn claddu yn dyddio'n ôl dros 3,700 mlynedd. Dyma'r dystiolaeth gyntaf fod pobl wedi byw ar yr ynysoedd mor gynnar.
- Tŷ ar y tywod. Tomed anferth o dywod wedi ei chodi yng ngwarchodfa natur Mersham, Surrey er mwyn denu gwenoliaid y tywod i nythu yno unwaith eto; a hynny am y tro cyntaf ers chwarter canrif.
- Bynsan. Ar Ddydd Gwener y Groglith, 24ain Mawrth 1815, cafodd George Taylor a'i wraig eu merch gyntaf. Rhoddodd fynsan a chroes arni mewn câs gwydr i gofio'r achlysur hapus. Fe'i cafwyd mewn croglofft tŷ ar Ynys Wyth yn ddiweddar, ac mae'r perchennog yn chwilio am gartref iddi mewn amgueddfa.
- Plaid Wleidyddol. Mae'r Northern Independence Party wedi ei sefydlu gyda'r bwriad o dorri'n rhydd oddi wrth Loegr a chreu gwlad newydd o'r enw Northumbria. Maent yn sefyll is-etholiad Hartlepool ar 6ed Mai gyda'r slogan "Look Forward, Look North – it's about bloody time".
- Afanc. Mae dau afanc wedi eu rhyddhau yng Ngwarchodfa Natur Dyfi – y rhai cyntaf yng Nghymru ers canrifoedd.
- Golff. Chwaraewyr golff gorau'r byd yn ymgynnull yn Augusta i gystadlu yn Nhwrnameint y Meistri. Mae bron pob un o'r golffwyr yn wyn eu croen, a hynny mewn dinas ble mae 65% o'i phoblogaeth o dras Affricanaidd.
- Cathod. Roedd hawlio yswiriant am gostau meddygol i gathod wedi costio £148 miliwn yn ystod y llynedd. Ymhlith y costau talwyd allan £5,000 am 'drwsio' pawen un gath, a £3,700 am ail-osod asgwrn coes wedi torri i gath arall.

Dafydd Whiteside Thomas

Llythyrau

Wrth i ni gasglu straeon y rhifyn hwn o *Eco'r Wyddfa* ynghyd, mae 'na ysgafndod braf wedi taro'r fro a'r wlad – rhyddhad ffarwelio â gaeaf hir iawn dan glo a chael croesawu'r gwanwyn o'r diwedd. Fe gawson ni ein gwobrwyo â Phasg heulog braf (cyn i'r eira ddychwelyd!), cael gweld anwyliaid a chael mentro tu hwnt i'r ardal unwaith eto.

Mae mwy a mwy wedi cael brechiad yn erbyn Covid-19 ac yn ddiolchgar iawn o hynny, ac mae gwallt llawer ohonon ni wedi ei dorri o'r diwedd hefyd! Mae siopau wedi agor unwaith eto, busnesau'r ardal yn paratoui at ddyfodiad yr ymwelwyr, a'r awdurdodau wedi creu system barcio a chludo newydd i gadw pawb yn saff. Gobeithio wir y caiff cwmnïau lleol gyfnod llwyrchus a gobeithio hefyd y bydd yr ymwelwyr yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu ein cymunedau.

Fel mwyniant y gwanwyn, rydyn ni'n siŵr y bydd y rhifyn hwn o'r Eco yn eich llonni; mae yna bobol yn codi calon ym mhob pentref – o Elis bach yn Nant Peris i griw newydd gweithgar ym Methel sy'n ymgyrchu i greu llwybrau diogel i gerddwyr. Diolch yn fawr i holl ohebwy, colofnwyr a chyfranwyr *Eco'r Wyddfa* am rannu eich straeon. Mae croeso i unrhyw un gysylltu â chriw'r Eco os oes ganddoch chi syniad am stori: ecorwyddfa@gmail.com

Criw Golygyddol *Eco'r Wyddfa*

Dosbarthu'r Eco

Am y tro, mae'r Eco yn parhau i gael ei werthu drwy siopau lleol yn unig, a diolch iddynt. Yng nghyfnod Covid-19 diogelwch ein dosbarthwyr a chi y darllenwyr sydd bwysicaf wrth gwrs, ac felly dros yr wythnosau nesaf byddwn yn trafod a dod i gytundeb ar drefniadau dosbarthu ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r criwiau o wirfoddolwyr sydd fel arfer yn dosbarthu'r Eco ar draws yr ardal, ac yn diolch i bawb am eu hamynedd wrth i ni geisio ail-sefydlu 'hen drefn newydd'.

Ymateb i lythyr Gwilym Bowen Rhys am 'Hen Ffon fy Nain'.

Yn dilyn cyhoeddi llythyr Gwilym yn rhifyn Ebrill o'r Eco yn holi am fwy o hanes Thomas David Thomas (Glan Padarn) neu am hanes y ffon ei hun, daeth y canlynol i'r fei.

Diolch i Gwilym Hughes, pysgotwr brwd o ardal Caernarfon am rannu'r erthygl canlynol, ddaeth yn wreiddiol gan ŵr o'r enw Eifion Hughes o Fôn. Roedd Mary Jones yn hen hen nain i Gwilym Hughes, ac mae'r ffon yn ddiogel y Sir Fôn mae'n debyg.

Ganed Thomas Davies Thomas yn Fachwen yn 1848, a bu farw yn ddeugain oed. Mi briododd â merch Tafarn y Black Horse, Clwt y Bont, Ebeneser (neu Deiniolen fel mae yn cael ei alw ers dechrau'r ganrif). Roedd ganddo ddau o blant ond bu farw un yn ifanc iawn, a bu farw ei wraig yn ieuainc hefyd. Mi briododd gyda chwaer ei wraig ac aethant i gadw tŷ tafarn yn Pwll y Fanogl ar lan y Fenai. Mae Glan Padarn wedi ei gladdu ym Mynwent Llan Dinorwig.

Fe gyhoeddodd ddwy gyfrol - Caniadau (Hughes a'i Fab) pan oedd yn ifanc iawn ac Odlau Padarn (H Evans, Bala.) pan oedd yn ddeg ar hugain oed. Ymysg ei gerddi mae: Can y Fam yw Phlentyn, Fy Annwyl Walia Wen, Merch Y Capten, Bradwriaeth y Don, Y Bachgen Ffarweliodd a'i Wlad, Bugail Hafod y Cwm.

Rwyf yn dyfynnu yr hanes yma o erthyglau gan Mr Issac Lloyd (Glan Rhyddallt) a fu yn ysgrifennu yn rheolaidd yn yr Herald Gymraeg, roedd yr hanes yma ganddo ym mis Mai 1931. Fel hyn mae o'n dweud :-

"Byddai Glan Padarn y bardd yn mynd i'r Waen Hywel, Pontrhythallt i gyfarfod â cherddorion oedd yn byw yno, ac yno 'roedd Mary Jones yn byw gyda'i merch a'i mab nghyfraith Mr a Mrs Joseph Pritchard."

Doedd hi ddim yn Nain i'r bardd ond yn Nain i bawb. Am ffon yr hen wraig yma ysgrifennodd Glan Padarn y gân. Byddai'r hen wraig yn rhodio bob amser trwy gymorth ei ffon fechan, "union fel y saeth".

Wrth ei gweld felly, addawodd y bardd ysgrifennu cân iddi. Roedd y Mary Jones yma yn un o fy nheulu, ac mae yr hen ffon wedi ei chadw'n saff, a dyma hi. Mi welwch ei bod yn "union fel y saeth", ac yn un fechan.

Mi fyddai fy Nain yn dweud fel y byddai Glan Padarn yn dod â Harmoniw m bychan gyda fo i'r Waen Hywel. Fel llawer o'r hen bobl credai Mary Jones mai offeryn y Diafol oedd yr Harmoniw, a phan ddeuai y bardd yno, byddai'r hen wraig yn dianc allan y munud hwnnw.

Am y Capel y byddai'n mynd, sef Capel y Glasgoed sydd dros y bryn o'r Waen Hywel. Fel mae'r gân yn ddweud :-

"Trwy gymorth hon hi droedda gynt i'r Capel dros y bryn".

Eifion Hughes, 27 Nant Bychan, Moelfre, Ynys Môn

Annwyl ddarllenwyr yr Eco,

Helo! Nia Haf dwi. Dwi'n gweithio i Frân Wen, cwmni theatr sy'n cynnig cyfleoedd celfyddydol a chymdeithasol i bobl ifanc ledled Gogledd Orllewin Cymru (a thu hwnt!).

'Da ni ar hyn o bryd yn y broses o godi arian tuag at ein cartref newydd yng nghanol dinas Bangor. Bydd Nyth, sydd wedi ei leoli ar dir yr hen Eglwys Santes Fair, yn hwb cyffrous, yn cynnig profiadau a chyfleoedd i'n pobl ifanc a'n cymuned. Bydd Nyth yn galluogi Frân Wen i gyrraedd mwy o gymunedau, gweithio gyda mwy o artistiaid, a chyrraedd mwy o bobl ifanc.

Achos, nid cartref newydd i Frân Wen yn unig fydd Nyth! Mae pobl ifanc yn ganolog i'r cwmni, ac mae eu lleisiau nhw yn treiddio trwy bob elfen o'r gwaith - o'r gweithgareddau cymunedol, prosiectau amrywiol, a'r holl gynrychiadau. Bydd Nyth yn ein galluogi i gario 'mlaen hefo'r gwaith yma o uno gwaith y gymuned, artistiaid, a phobl ifanc.

Er mwyn sicrhau bod ein gweledigaeth o gynnyg yr adnodd yma i'n cymunedau



yn cael ei wireddu, mae angen i ni godi £30,000 er mwyn i Nyth gael ei orffen. Rydym yn dibynnu ar bobl sy'n awyddus i weld ein gweithgarwch yn ffynnu i'n helpu i gyrraedd ein targed. Mae ein drysau ni wastad yn agored, felly os 'da chi'n nabod person ifanc fasa'n licio bod yn rhan o deulu Frân Wen, gallai eich cyfraniad chi ein galluogi ni i'w cyrraedd nhw.

Os ydych yn awyddus i'n cefnogi, gallwch wneud hynny trwy fynd ar y we i www.franwen.com/Nyth30k, neu trwy ddanfon neges destun i 70085 gyda'r neges NYTH30K a swm eich cyfraniad (e.e. bydd neges yn dweud 'NYTH30K 10' yn cyfrannu £10), neu gallwch gyfrannu trwy ein ffonio ni ar 01248 715048.

Yn gywir,
Nia Haf

Annwyl Olygydd,

Diolch am roi yr erthygl yn sôn am ein her 4 x 4 x 48 yn rhifyn Ebrill o *Eco'r Wyddfa*. Gyda llawer o ddiolch i bawb a gyfrannodd, fe wnaethom lwyddo i gasglu £1,300 i Gronfa Gafael Llaw, cronfa i gefnogi plant o phobl ifanc Môn a Gwynedd sy'n dioddef o gancr.

Yn gywir
Pedr Jones, Thomas Collins, Aled Williams a Cai Morgan.

Annwyl Olygydd,

Diddorol, fel pob amser, yw darllen gwaith Glenda Carr ar enwau lleoedd, ond yn rhifyn Ebrill o'r Eco mae hi'n trafod enw sydd o ddiddordeb arbennig i mi, sef 'Braich Effri'. Fodd bynnag, mae yn esbonio mai llygriad yw hwn o 'Bach Riffri', ac yn wir dyna'r union ffurf yr oeddwn i a'm teulu o'r fferm nesaf yn ei ddefnyddio.

Cofiaf fy nhad yn dweud nad oedd neb yn gwybod pwy oedd 'Riffri'. Trueni bod yr hen enw gwreiddiol hwn wedi ei ddisodli erbyn hyn. Ond beth sy'n peri gofid arall i mi yw'r ffaith bod enw fy nghartref innau, sef Ynys Llecharion (neu ar lafar Ynys Cheurnyn), hefyd wedi ei newid i 'Fferam Llecharion'. Yn gyntaf, nid yw 'fferam' yn air sy'n cael ei ddefnyddio yn y rhan hon o Gymru, a ph'r un bynnag, nid yw'r fferm yn bod mwyach gan i'r tir gael ei rannu rhwng y ffermydd o bopty pan werthwyd Ystad y Faenol yn y chwedegau. Yn ail, ac yn fwy truenus, yw bod y gair 'Ynys' wedi ei golli. Mae'r enw hwn, sydd yn gyffredin ers canrifoedd yn yr ardal ac mewn plwyfi eraill, yn golygu llain o dir ger afon (neu fôr) ac o'r un gwraidd a'r Gwyddelig 'innis'.

Does ond gobeithio yn fawr y bydd cynllun newydd Cymdeithas yr Iaith, 'Diogelwn', yn rhoi terfyn ar ymgeision pobl i ddiddymu trysorfa o'r hen enwau gwreiddiol ar dai a ffermydd.

Yn gywir iawn,
Sarah Kelly.

Pigion Bro Wyddfa 360

Rhan o erthygl “Croesawu Babi Mewn i Fyd Cofid” gan Annest Williams

Mae Covid-19 wedi cael effaith ar bob elfen o fywyd, gan gynnwys y siwrne o fod yn feichiog. Covid. Gair pum llythyren doedd neb yn gyfarwydd ag o’ chydig dros flwyddyn yn ôl. Gair sydd bellach yn rheoli’r mwyafrif o’n bywydau.

Mae ffeindio allan fod chi’n feichiog yng nghanol pandemig yn ‘rollercoaster’ o emosiynau. Gwisgo masgiau ar gyfer sganiau ac apwyntiadau, gorfod rhoi’r newyddion anferth i deulu dros y ffôn, a gorfod prynu popeth o’r we gan fod neb yn cael mynd i’r siopa. Hyn i gyd, cyn cychwyn sôn am y ffaith fod chi’n gyfrifol o drio tyfu plentyn tu mewn i chi tra mae’r byd yn disgyn yn ddarnau!

Dwi’n teimlo’n gwbl genfigennus tuag at famau sydd wedi croesawu plant i mewn i’r byd cyn Covid, a dwi’n teimlo cenfigen tuag at y genethod sydd am eni ar ôl i fywyd fynd yn ôl i ryw fath o



normal. Dydy fy mhrofiad o fod yn fam am y tro cyntaf ddim am fod yn debyg i beth ddychmygais, ac mae hynny’n brifo.

Yn ôl ym mis Awst pan welais y canlyniad positif, teimlais gyffro llwyr fod fi a fy mhartner am gael person bach sydd yn hanner ni’n dau. Ond yn sydyn iawn, cafodd y teimlad yma ei gysgodi gan bryderon. “Sut fedra i fod yn

hapus am y newyddion pan mae ’na gymaint o bobl yn mynd drwy bethau mor anodd ar y funud? Sut ydw i fod i stopio fy mhlentyn rhag cael y firws? Be os fydd o neu hi’n methu cyfarfod ei neiniau a theidiau am fisoedd ar ôl iddo gyrraedd?” Meddyliau dydy dynes ddim i fod i’w cael ar ôl darganfod newyddion mor arbennig. Yn wahanol i rai cyplau, mi



Bro Wyddfa 360

oedden ni’n ffodus iawn y cafodd Danny ddod i bob sgan. Dwi mor ddiolchgar fod o wedi gallu rhannu’r profiad o weld ein plentyn am y tro cyntaf, ond mi ydw i wastad yn cofio pa mor unig oedd gorfod disgwyl yn y dderbynfa ar ben fy hun cyn cael fy ngalw i mewn. Mae disgwyl i weld dy blentyn am y tro cyntaf yn amser mor ofnus, a’r unig beth o’n i angen oedd iddo fod yn gafael fy llaw drws nesaf i mi.

Gallwch ddarllen gweddill hanes Annest ar wefan www.browyddfa.360.cymru neu ddilyn blog Annest “Y Fam Sydd Ddim yn Glam” www.notsoglammmam.com
Llongyfarchiadau i Annest a Danny ar enedigaeth Meilir Wyn ar 15fed Ebrill.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

●●● 01286 673535 ●●●

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

ECO’r Wyddfa

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?

Cysylltwch â’n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP

Which?
Trusted trader

BOSCH Service
Car Service
For everything your car needs.

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol

www.AVWBosch.co.uk – 01286 673559
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD

Cynghorydd newydd i Lanrug

Mae'n ystrydeb bellach i wleidydd ddweud ei bod hi'n fraint, yn anrhydedd ac yn bleser i gael ei ethol – ond does yna ddim geiriau gwell na mwy addas i ddisgrifio sut ro'n i'n teimlo wrth dderbyn y newyddion fy mod i wedi cael fy newis yn gynghorydd dros Lanrug. Profiad chwerw-felys oedd o hefyd wrth gwrs gan inni golli'r diweddwr Charles Wyn Jones y llynedd – un a roddodd flynyddoedd o wasanaeth i'r ardal hon.

Gwta fis sydd ers imi ymgymryd â'r swydd ac mi ddechreuodd y gwaith o fewn oriau imi gael fy ethol – mae Llanrug yn bentref prysur a bywiog ac mae'n braf bod pobl y ward mor barod i rannu eu pryderon a'u gobeithion am y gymuned arbennig sydd gennym ni yma.

Yn fy mis cyntaf fel cynghorydd rydw i wedi delio gyda cheisiadau cynllunio niferus; wedi derbyn cwynion (lu!) am fawr ci a baw ceffyl; wedi trafod pryderon trigolion am yr heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu; wedi gwneud cyfweiliad i deledu America ac wrth gwrs wedi derbyn hyfforddiant manwl ar agweddau gwahanol y swydd. Mae fy nghyfrifoldebau fel cynghorydd cymuned yn parhau wrth gwrs ac un o'r rheiny ydi'r cynllun bwyd FareShare sydd gennym yn y pentref, sy'n dosbarthu bwyd dros ben o

archfarchnadoedd i'r rhai sydd ei angen. Ond pleser mwya'r swydd ydi'r ymwneud â phobol Llanrug, a chlywed yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw.

Siarad efo pobol, gwrando ar bobol a rhoi llais i bobol ydi hanfod fy ngwaith i wedi bod ers chwarter canrif. Mi ges i fy swydd gyntaf efo'r Western Mail cyn mynd o'r fan honno i Uned Faterion Cyfoes ITV Cymru, ac ymlaen wedyn i fod yn gynhyrchydd rhaglenni ffeithiol i sawl cwmni teledu. Rhoi llais i'r rhai heb lais ac amlygu anghyfiawnder sydd wedi fy ngyrru erioed.

Bellach, rydw i'n gweithio i gwmni dysgu Cymraeg ar-lein, SaySomethinginWelsh, ac mae gweld y diddordeb cynyddol sydd yna mewn dysgu Cymraeg - yn enwedig yn ystod y cyfnod clo - wedi bod yn destun llawenydd mawr. Mae dysgwyr o bob rhan o'r byd wrth eu boddau yn clywed am Lanrug - pentref Cymreiciaf y bydysawd! - a finnau wrth fy modd yn brolio'r ffaith, wrth gwrs.

Mae gen i gyfnod cyffrous o 'mlaen yn dod i arfer â'r rôl newydd sydd gen i, ac rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at y sgysiau lu sydd i ddod wrth imi gael cyfle i gyfarfod neu i ohebu gyda mwy a mwy o bobl pentref Llanrug.



Etholiad Senedd Cymru – 6ed Mai, 2021

Cynhelir Etholiad Senedd Cymru ddydd Iau, 6ed Mai 2021. Eleni, caiff pobl ifanc a fydd yn 16 mlwydd oed ym mis Mai bleidleisio am y tro cyntaf.

Dyma gwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml ynghyd ag atebion iddynt:

Ar gyfer beth neu bwy ydw i'n pleidleisio?

Byddwch yn pleidleisio er mwyn dewis eich cynrychiolwyr i Senedd Cymru. Bydd gan bawb ddwy bleidlais. Mae'r bleidlais gyntaf ar gyfer dewis Aelod Senedd i gynrychioli Etholaeth Arfon a'r ail bleidlais ar gyfer dewis plaid wleidyddol i gynrychioli Rhanbarth Gogledd Cymru. Byddwch hefyd yn pleidleisio er mwyn ethol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Lle fydda i'n pleidleisio?

- Yn eich gorsaf bleidleisio leol. Ond er mwyn cael pleidleisio, roedd rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd erbyn 19eg Ebrill 2021 er mwyn cael eich cynnwys ar y gofrestr etholiadol i fedru pleidleisio. Erbyn hyn, dylai pawb sydd wedi cofrestru fod wedi derbyn cerdyn gwyn drwy'r post i nodi ble a phryd i bleidleisio. Wrth fynd i'r Orsaf Bleidleisio ar ddydd yr Etholiad bydd angen i chi:
- wisgo mwgwd (os nad ydych wedi eich eithrio)
- mynd â'ch beiro neu bensel eich hun i'r orsaf (ond bydd pensiliau glân ar gael yno os byddwch wedi anghofio dod ag un eich hun)
- defnyddio glanweithydd dwylo ar y ffordd i mewn ac allan
- cadw at y canllawiau pellhau cymdeithasol.

Pryd mae'r Gorsafoedd Pleidleisio ar agor?

Bydd y Gorsafoedd Pleidleisio ar agor rhwng 7:00am a 10:00pm, ddydd Iau 6ed Mai 2021.

Beth allaf ei wneud os nad wyf yn gallu mynd i'r Orsaf Bleidleisio?

Os gwnaethoch gais am bleidlais bost erbyn 20fed Ebrill 2021 dylech dderbyn drwy'r post gerdyn pinc a fydd yn dweud wrthyf sut i frwr'ch pleidlais drwy'r post.

Pryd fydd y papurau pleidleisio drwy'r post yn cyrraedd?

Daw eich pleidlais bost, sy'n cynnwys eich papurau pleidleisio a datganiad pleidleisio, drwy'r post i'ch cyfeiriad cartref. Ffoniwch swyddfa'r Swyddog Canlyniadau ar 01766 771000 os nad ydych wedi derbyn eich pleidlais bost erbyn dydd Iau, 29ain Ebrill 2021.

Erbyn pryd rwyf angen anfon fy mhleidlais drwy'r post?

Dylech ei chwblhau, ynghyd â'r datganiad pleidleisio drwy'r post, ar unwaith. Rhaid i Swyddfa'r Swyddog Canlyniadau dderbyn eich pleidlais bost erbyn 10:00pm ddydd Iau, 6ed Mai 2021.

Help! Beth allai wneud – rwyf wedi colli fy mhleidlais bost?

Ffoniwch y llinell gymorth – 01766 771000 – ar unwaith. Dim ond cyn 5PM ddydd Iau, 6ed Mai 2021 y bydd modd cyhoeddi pleidlais bost arall yn ei lle.

Dydw i ddim yn gallu mynd i bleidleisio i'r Orsaf leol. Beth alla'i wneud?

Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (mae hyn yn golygu y gall rhywun arall bleidleisio ar eich rhan). Rhaid cwblhau eich ceisiadau fel eu bod yn cyrraedd Swyddfa'r Swyddog Canlyniadau cyn 5PM ddydd Mawrth, 27ain Ebrill 2021. Mae'n rhaid i'r person a ddewiswch i bleidleisio ar eich rhan fod wedi cofrestru i bleidleisio hefyd. Os ydych yn penodi dirprwy, gallwch bleidleisio os ydych yn dymuno, ond dim ond os nad yw eich dirprwy eisoes wedi pleidleisio ar eich rhan, ac nad oes ganddo ef neu hi bleidlais bost ar eich rhan.

Beth os oes rhywbeth annisgwyl yn digwydd a dydw i ddim yn gallu mynd i bleidleisio drosof fy hun?

Os gwelwch ar ôl 5:00pm ar 27ain Ebrill 2021 na fyddwch yn medru mynd i'r Orsaf Bleidleisio ar ddydd yr Etholiad oherwydd:

- argyfwng meddygol neu
- resymau gwaith

Gallwch wneud cais i bleidleisio trwy ddirprwy. Rhaid anfon ffurflenni cais i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau wedi eu llenwi cyn 5:00pm ddydd Iau, 6ed Mai 2021. Ffoniwch y llinell gymorth am gymorth.

Heb weld eich cwestiwn yn y rhestr yma?

Os agor o wybodaeth neu ffurflenni, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH neu fffoniwch 01766771000 neu e-bostiwch etholiad@gwynedd.llyw.cymru

TUDALEN YR IFANC

Cyfweliad â Phennaeth Newydd Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Elen Roberts

Dyma gyfle i chi ddysgu mwy am Elen Roberts, a fydd yn bennaeth ar Amgueddfa Lechi Cymru am y flwyddyn nesaf.

Sut ddechreuodd eich gyrfa chi a be arweiniodd chi i'r swydd gyffrous yma?

Wnes i ddechrau fel athrawes Saesneg yn Ysgol David Hughes yn Ynys Môn ac yna ymlaen i Ysgol Syr Thomas Jones. Roeddwn i'n athrawes am wyth mlynedd, wedyn nesh i benderfynu newid cyfeiriad, a gweld cyfle i weithio yng Nghanolfan Iaith Nant Gwytheyrn fel Swyddog Addysg; gesh i dair blynedd a hanner hynod gyffrous a hapus yno.

Wedyn daeth yr hysbys am Swyddog Addysg yn yr Amgueddfa Lechi a roedd o'n teimlo fel yr adeg cywir i symud – tydi cyfleoedd fel'na ddim yn dod i fyny'n aml iawn yn y byd amgueddfaol, yn yr ardal yma'n enwedig. Felly wnes i neidio ar y cyfle a bod digon ffodus i gael y swydd – mi fydd hi'n bymtheg mlynedd diwedd eleni ers i mi fod yno, felly mae amser yn hedfan!

Mi wnaeth y rôl newid ychydig yn 2012 – Rheolwr Addysg, Cyfranogiad a Dehongli ydw i wedi bod ers sawl blwyddyn bellach. Mae'r dylestwyddau yn ehangach a dwi'n gweithio dipyn mwy ar draws Amgueddfa Cymru. Yn dilyn ymddeoliad Dafydd fuo 'na dipyn o grafu pen ynglŷn ag a ddylwn i fynd amdani ai peidio, achos roeddwn i wir yn mwynhau'r swydd addysg, ond hefyd o bosib yn barod am her newydd.

Beth oeddech chi eisiau ei wneud fel person ifanc?

Dwi'n cofio pan oeddwn ni'n fach ro'n i'n sâl am sbel hir efor'r pâr ac roedd Dad wedi cael damwain felly roedd y ddau ohonon ni adra a Dad yn gorfod chwilio am rywbeth i ddifyrru hogan bach

bump oed a f'ynta'n ddall. Bob dydd rhyw ben roedden ni'n 'chwarae ysgol'. Roedd Dad yn gneud lleisiau i bob un plentyn yn y dosbarth a fi oedd yr athrawes, efo cofrestr a bob dim. Felly o'r cychwyn cyntaf, ma gen i ofn fy mod i dipyn bach yn bossy, ac mi oedd hi reit amlwg 'mod i am fod yn athrawes ar ryw bwynt!

Sut mae pobl ifanc yr ardal yn ymgysylltu efo'u treftadaeth yn eich barn chi?

Dwi'n meddwl bod rhai pobl yn ymgysylltu andros o lot efo'u treftadaeth; mae rhai yn gwneud trwy'r ysgol wrth gwrs ac mae rhai yn dal ymlaen efo'r diddordeb yna wrth dyfu i fyny. Ond dwi yn meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu efo'u treftadaeth a dwi'n meddwl y bydd yna fwy o hynny'n digwydd rwan yn enwedig efo'r enwebiad Safle Treftadaeth y Byd (UNESCO). Mae yna lawer o gyfleoedd wedi bod dros y ddwy flynedd dwyth a i bobl ifanc ymgysylltu hefo'r enwebiad a chael dweud ei barn a chael lleisio be' maen nhw eisiau ei weld yn digwydd yn eu hardaloedd.

Yn cyd-fynd efo'r enwebiad UNESCO, 'dan ni'n gweithio mewn partneriaeth ar broiect cyffrous ar y funud sef Wrth Dy Draed, lle mae cyfle i bobl ifanc recordio lleisiau amrywiol o'u hardal nhw ynglŷn â hunaniaeth a threftadaeth yr ardal honno, fydd wedyn yn eu tro gobeithio yn cyfrannu at gyfres o raglenni ar Radio Cymru ac at broiect creadigol gydag artistiaid lleol.

Roeddwn ni mor falch o allu gweithio mewn partneriaeth efo Cwmni Frân Wen ddwy



flynedd yn ôl, lle ddaeth criw o bobl ifanc bob dydd i'r Amgueddfa i sgriptio, i ddawnsio a pherfformio – roedd o'n teimlo fel eu bod wedi perchnogi'r Amgueddfa. Wnaethon nhw jyst ddod â gymaint o fywyd i'r lle a'u lleisiau nhw yn dod â hen adeilad yn fyw rwsut. Gobeithio bydd 'na fwy o hynna i ddod yn y dyfodol.

Beth ydi cynlluniau'r Amgueddfa Lechi at y cyfnod nesaf?

Wel y blaenoriaeth rwan ydi cael pawb yn ôl yn saff, gallu croesawu ein staff yn ôl yn saff, gallu croesawu ein hymwelwyr yn ôl – achos dyna'n amlwg da ni 'di golli yn ystod y flwyddyn ddwytha yma. Yn amlwg buon ni ar agor am gyfnod, ond mae llawer o'n staff ni wedi bod yn gweithio o adra neu'n gorfod bod adra oherwydd cyflyrau iechyd a dan ni isio gweld sut fedrwn ni ddod â nhw'n ôl. Ella na fydd o'n edrych union run fath yn y dyfodol, ella bydd rhai yn gweithio o adra o hyd. Dwi'n meddwl bod pob sefydliad yn mynd trwy'r broses o wirioneddol edrych sut mae'r dyfodol yn edrych i'w staff ac i'r gweithle yn ei gyfarwydd.

Fel roeddwn i'n deud, dan ni'n mawr obeithio bydd yr enwebiad am Safle Treftadaeth y Byd yn llwyddiannus – dan ni'n disgwyl cyhoeddiad yn y misoedd nesa' ma. Ac os felly mi fyddan ni'n cael dathlu hynny yr haf yma, sy'n gyffrous iawn.

Ond dan ni hefyd ar ddechrau siwrna reit gyffrous yn yr

Amgueddfa Lechi; jyst cyn i ni fynd i'r lockdown cyntaf roedden ni wedi penodi cwmni i ddechrau sbio ar gynllunio ar gyfer aildatblygu ac ar fin cychwyn ymgysylltu efo pobol yr ardal am be fydden nhw'n licio ei weld yn digwydd yn yr Amgueddfa Lechi, pa fath o adnodd cymunedol allwn ni fod, sut allwn ni gynnwys lleisiau pobl ifanc a lleisiau'r gymuned wrth symud ymlaen. Gobeithio gallwn ni ail-afael ynddi yn y misoedd nesa!

Dan ni heb gael buddsoddiad sylweddol yn yr Amgueddfa Lechi ers ugain mlynedd rwan, felly mae'n amser i ni ddechrau edrych eto ar sut fedrwn ni fuddsoddi ar gyfer y dyfodol a sicrhau byddwn ni yna i'n cymunedau yn ogystal ag i'r ymwelwyr y byddwn ni'n dweud stori'r diwydiant llechi wrthynt.

Fel rhan o'r Safle Treftadaeth Byd, mi fyddwn ni'n un o'r prif 'hybiau' ar gyfer dweud hanes y diwydiant llechi ar draws Gwynedd, nid jyst Dinorwig. Ac felly gobeithio mai fama fydd man cychwyn yr ymwelwyr a byddan ni'n codi blys arnyn nhw i ddilyn y stori drwy fynd i weld mannau eraill sy'n rhan o'r enwebiad.

Fel merch mewn rôl arweiniol, ydych chi'n meddwl fod bod yn ferch wedi cael effaith ar eich gyrfa?

Dwi erioed wedi diffinio fy hun fel merch yn y gweithle, mewn ffordd, oherwydd ers pan o'n i'n ifanc iawn wnaeth neb ddweud 'fedri di ddim gneud hynna am

dy fod di'n ferch'. Ella mai fi sy erioed 'di herio hynna efo fy newisiadau i o bosib! Ond gesh i fy magu ar aelwyd lle oedd dim ots o gwbl be o'n i isio'i neud ond fy mod i'n trio fy ngorau ac yn hapus a 'mod i'n anelu at beth bynnag o'n i isio'i neud. Doedd o bron ddim ar y *radar* i fi bod yna hualau – bellach, wrth gwrs dwi'n gwbl ymwybodol bod yna hualau ar ferched ym mhob math o feysydd. Ond o ran fy newis i o ran gyrfa, 'dio erioed wedi bod yn rhwystr i fi i gyrraedd unrhyw le dwi isio.

Wedi dweud hynna, pe tasai'r cyfle yma (swydd Pennaeth Amgueddfa Lechi) wedi codi pum mlynedd yn ôl, pan oedd fy ngenod i lot fengach, ella faswn i ddim wedi mynd amdano fo. A dwi'n meddwl ella mai dyna lle ma'r sefydliadau – dwi ddim jyst yn siarad am yr Amgueddfa Lechi rwan, ond yn gyffredinol – angen bod llawer mwy hyblyg fel bod magu plant ddim yn stopio pobl rhag bod mewn rôl arweiniol. Mae hwnna'n rhywbeth sy'n dal yn broblem a mae wedi dod yn amlwg iawn yn y pandemig dydi, bod gofal plant yn disgyn ar y fam yn amlach na pheidio.

Ond dwi'n lwcus iawn – mae fy ngŵr a finna'n rhannu cyfrifoldebau a mae o'n gwneud mwy na'i siâr o goginio a gwaith tŷ reit aml! Mewn ffordd unwaith eto dwi'n teimlo 'mod i wedi cael llwybr hawdd oherwydd bod yna ddim byd yn fy nal i nôl a dwi wastad 'di cael cefnogaeth i wneud beth bynnag dwi isio (o fewn rheswm!!)

Ond dwi'n meddwl bod rhaid rhoi cyfleoedd i ferched yn yr Amgueddfa ac mewn lle sy'n draddodiadol yn le gwaith dynion, mae'n bwysig ein bod ni'n cael cymysgedd iach ac amrywiaeth (o ran oedran hefyd) acw.

Dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig jyst bod efo'r hyder i drio a pheidio bod gormod o ofn methu. Ond hefyd cofio fod gen ti gyfrifoldebau eraill a chael y balans yna – mae hynna'n wir i ddynion hefyd. Os dach chi mewn rôl arweiniol ddylia hynna ddim cymryd drosodd, mae'n bwysig cael y cydbwysedd yna rhwng bywyd adra a bywyd gwaith – cael y gorau o'r ddau fyd gobeithio!

gan Gwernan Brooks

Llyfrgelloedd ac Archifdai wedi ail-agor

Yn dilyn cyhoeddiad am lacio cyfyngiadau Covid-19, mae Llyfrgelloedd ac Archifdai Gwynedd bellach ar agor i'r cyhoedd trwy drefn apwyntiad ymlaen llaw.

Er mwyn cael mynediad i adeilad llyfrgell neu archifdy bydd angen cysylltu o flaen llaw er mwyn i staff gynnig apwyntiad i chi. Bydd staff y llyfrgell yn trefnu slot 45 munud i chi ddefnyddio cyfrifiadur neu slot 15-20 munud ar gyfer dewis llyfrau.

Os ydych am fynd i ymchwilio yn yr archifdy bydd angen diwrnod neu fwy o rybudd fel bod modd estyn y dogfennau a sicrhau fod y dogfennau hynny ar gael. Gellir archebu deunydd drwy bori drwy'r catalog ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru - os ydych yn ansicr pa ddogfennau yr ydych eu hangen, cysylltwch â'r archifdy i holi.

Er mwyn diogelwch ac i gadw pellter cymdeithasol, bydd apwyntiadau mewn llyfrgell i ddefnyddio cyfrifiaduron ac i ddewis llyfrau yn cael eu cadw ar wahân. Bydd rhaid cysylltu gyda'r llyfrgell i drefnu slot cyfrifiadur hyd yn oed os ydych eisiau defnyddio eich gliniadur eich hun er mwyn gwneud gwaith.

Er mwyn diogelwch staff a chwsmeriaid, bydd angen i bob ymwelydd ddefnyddio'r diheintydd dwylo



wrth ddod i mewn i'r adeilad a bydd gofyn i drigolion fod yn fodlon rhannu eu manylion cyswllt fel rhan o ofynion Olrhain Cysylltiadau, fel amod i ddod i mewn i'r adeilad a defnyddio'r gwasanaeth Llyfrgell.

Er bod rhai cyfyngiadau diogelwch yn parhau, mae'r llyfrgelloedd yn gallu cynnig yr holl wasanaethau canlynol -

- dewis llyfrau neu ddefnyddio cyfrifiaduron drwy apwyntiad
- gwasanaeth clicio a chasglu
- gallwch ofyn am becyn llyfrau wedi'u dewis i chi gan staff y llyfrgell
- opsiwn cludo i'r cartref ar gyfer unrhyw un, am ba bynnag reswm, sy'n methu ag ymweld â'u llyfrgell i gasglu eitemau
- drwy ymaelodi â Llyfrgelloedd Gwynedd gallwch

fenthg e-lyfrau ac e-lyfrau llafar yn ogystal ag e-gylchgronau, yn Gymraeg a Saesneg, a hynny yn rhad ac am ddim.

Cofiwch, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn parhau i beidio â chodi dirwyon ac yn adnewyddu llyfrau yn awtomatig am y tro, felly nid oes angen i neb boeni

am ddychwelyd llyfrau yn hwyr neu o fewn amser penodol!

Mae manylion cyswllt ac oriau agor y Llyfrgelloedd ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell neu ffoniwch 01766 771000.

Er mwyn trefnu apwyntiad i fynd i Archifdy Caernarfon ffoniwch 01286 679095 neu e-bostiwch archifau@gwynedd.llyw.cymru

Un funud fach ... Crist y Pasg



Wythnos wedi'r Pasg daeth cyfle i orffen fy siopa 'Dolig. Yr un dwytha, nid y nesa! Ar ganol siopa oeddwn i'r pnawn Sadwrn y cyhoeddwyd y byddai'r Cyfnod Clo yn cychwyn y noson honno. Bedwar mis yn ddiweddarach mae'r siopau'n ail agor, a dyma gyfle felly i brynu'r anrhegion na lwyddwyd i'w cael cyn y Cyfnod Clo. Rwy'n edrych ymlaen at gael mynd i siop lyfrau. Ymysg y cyfrolau mwyaf poblogaidd a geir mewn lle felly mae cofiannau a hunangofiannau sy'n adrodd stori bywyd ystod eang o gymeriadau o bob math o gefndir a galwedigaeth.

Y mae i bedair efengyl y Testament Newydd elfennau o gofiant gan eu bod yn cofnodi geni, magwra, gwaith a dysgeidiaeth Iesu Grist. Ond mae un gwahaniaeth mawr rhyngddynt a'r cyfrolau sy'n britho silffoedd siopau llyfrau. Anghofiwch am y tro'r hunangofiannau a'r cofiannau i bobl sy'n dal yn fyw: does dim disgwyl i'r rheiny grybwyll marwolaeth gwrthrych y gyfrol. Ond o'r gweddill, ychydig sy'n dweud llawer am farwolaeth y gwrthrych. Cawn wybod pryd a lle a sut y bu farw, ond fawr mwy na hynny fel arfer. Mor wahanol yr efengylau sy'n rhoi sylw manwl i farwolaeth Iesu Grist. Rywsut, mae cysgod ei farwolaeth dros yr holl hanes, ac mae rhwng chwarter a thraean y

llyfrau hyn yn adrodd am ddigwyddiadau wythnos olaf ei fywyd a'i farwolaeth ar y groes.

Doedd yr efengylwyr ddim yn brin o bethau i ddweud amdano. Fel dywed Ioan: 'Y mae llawer o bethau eraill a wnaeth Iesu. Petai bob un o'r rhain yn cael ei gofnodi, ni fyddai'r byd, i'm tyb i, yn ddigon mawr i ddal y llyfrau fyddai'n cael eu hysgrifennu' (Ioan 21:25). Dewis dweud llawer am yr wythnos olaf a'i farwolaeth a wnaethon nhw am eu bod yn gwybod mai dyna oedd bwysicaf. Cawsom gyfle'r Pasg hwn eto i gofio a chyhoeddi a hyd yn oed ddathlu'r hyn a ddigwyddodd ar Galfaria. Wrth wneud hynny cawsom ein hatgoffa drachefn am gyfrinach a rhyfeddod y ffaith fod y Ffydd Gristnogol wedi ei seilio ar ddigwyddiadau real a hanesyddol: marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist.

Y digwyddiadau hyn sy'n ganolog i'r Pasg ac y maent o'r herwydd yn ganolog i'r Ffydd ac i bob Cristion: nid i'n dehongliad o'r Ffydd nac i'n dealltwriaeth ohoni, ond i'r Ffydd Gristnogol ei hun. Heb y groes a'r bedd gwag, heb farwolaeth Iesu Grist a'i atgyfodiad, mae'r Ffydd Gristnogol yn peidio â bod. Os nad yw'r ddau beth hyn yn y canol, neges arall a ffydd arall a chrefydd arall sydd gennym gan fod Cristnogaeth wedi ei seilio ar y digwyddiadau hyn. Ar farwolaeth ac atgyfodiad Iesu, sylwch, ac nid ar y pethau hyn fel darluniau neu symbolau i gyfleu egwyddorion a delfrydau, pa mor ddrychafol bynnag.

Neges y Pasg a neges y Beibl yw bod Iesu Grist wedi byw, marw, atgyfodi ac esgyn i'r nefoedd. O beidio â chredu iddo wneud hyn oll yr ydym yn gwadu Crist y Beibl ac yn gwneud i ni ein hunain Grist arall nad yw'n ddim ond ffrwyth ein dychymyg.

John Pritchard

Cofiwch Dryweryn – Cofiwch Kenya

Wythnos Cymorth
Cristnogol 10-16 Mai 2021

Mae i godi argae er mwyn cronni dŵr gysylltiadau poenus i ni yma yng Nghymru. Nid mater o hanes ydyw chwaith; mae'n gallu brifo o hyd. Mae'r dywediad 'Cofiwch Dryweryn' yn parhau i gorddi teimladau negyddol ynom.

Pam? Am inni wybod fod gweithred anghyfiawn wedi ei chyflawni yn erbyn trigolion Cwm Celyn. Am fod corfforaeth fawr wedi sathru ar hawliau, dyheadau a theimladau pentrefwyr. Am fod dymuniad cenedl gyfan wedi ei hanwybyddu.

Mewn rhannau eraill o'r byd, fodd bynnag, mae codi argae er mwyn cronni dŵr yn weithred o gyfiawnder. A'r weithred gyfiawn honno fydd stori ganolog Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Yn Kenya, mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar y tywydd - fel y mae trwy'r byd, wrth gwrs. Ond mewn gwledydd tlawd, mae'r effeithiau yn llawer gwaeth. Arferai'r tywydd fod yn rhagweladwy, oedd yn caniatáu i'r ffermwr hau a medi yn dilyn patrwm cenedlaethau. Bellach, mae patrwm y tywydd wedi newid yn fawr. Ceir sychder difrifol ac yna gyfnod o lawogydd trwm sy'n arwain at lifogydd.

Mae ffermio mewn sefyllfa o'r fath bron yn amhosibl ac mae pobl yn marw o newyn o'r herwydd.

Trwy bartner lleol mae Cymorth



Cristnogol yn helpu i godi argaeau. Golyga hyn fod posibl cronni dŵr y gellid ei ddefnyddio ar adegau sych. Sef yr union reswm pam y codwyd argaeau yng Nghymru wrth gwrs. Pam felly fod codi argae mewn pentref yn Kenya yn wahanol?

Codi argae gyda chaniatâd y gymuned leol y mae partner Cymorth Cristnogol. Gwneud hynny gyda'r gymuned leol, wrth i'r pentrefwyr eu hunain helpu yn

y gwaith. Ac efallai yn bwysicach na dim, codi'r argae er budd y gymuned leol a wneir. Y nhw sydd berchen yr argae; y nhw sydd berchen y dŵr.

Oherwydd hyn, gweithred gyfiawn yw codi argae yn Kenya.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (10-16 Mai) bydd eglwysi ar hyd a lled Cymru yn brysur yn codi arian tuag at brosiectau tebyg. Prosiectau fydd yn rhoi help llaw

i bobl dlota'r byd wrth iddynt ymdrechu i godi eu hunain allan o dlodi.

Beth am ymuno yn y gweithgarwch? Cysylltwch â'ch eglwys leol i weld be sy'n digwydd yno neu ewch draw i wefan Cymorth Cristnogol am fwy o wybodaeth.

<https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week>

Ail-afael yn y Gymraeg i blant bach

Rydym yn falch bod sesiynau Ti a Fi Am Dro wedi ail-gychwyn ers canol mis Ebrill. Cyfle i rieni a phlant bach dan 4 oed gymdeithasu yn yr awyr agored. Bydd y nifer yn cael ei gyfyngu i 10 oedolyn yn ôl rheolau Covid-19. Bydd cyfle i wrando ar stori, canu ambell i gân a mynd am dro mewn awyrgylch gyfeillgar. Cadwch lygaid ar ein safle Facebook <https://www.facebook.com/TiaFiGwyneddMon/> am ragor o fanylion. Mae'r cyfan am ddim a bydd y sesiynau yn cael eu cynnal yn wythnosol mewn ardaloedd amrywiol.

Ydach chi'n nabod rhywun sydd yn dymuno dysgu Cymraeg sylfaenol? Bydd sesiynau Clwb Cwtsh yn ail-gychwyn yn ystod wythnos 3ydd o Fai a hynny yn rhithiol. Digon o hwyl a chyfle i ddysgu iaith magu plant a llu o hwiangerddi mewn awyrgylch gyfeillgar. Mae'r sesiynau yn addas ar gyfer rhieni, perthnasau, pobl sydd yn gweithio hefo plant bach...ac unrhyw un sydd yn dymuno dysgu rhywfaint o Gymraeg. Maent am ddim ac yn rhedeg dros gyfnod o 8 wythnos. Am ragor o fanylion ewch i safle Facebook <https://www.facebook.com/ClwbCwtsh/> neu cysylltwch ar e-bost clwbcwtsh@meithrin.cymru

Her y Ddraig



Ganol fis Mawrth ymddangosodd baner y Ddraig Goch yn y gysgodfan ar gopa Moel Eilio. Bu yno am rai dyddiau – ac yna, diflannodd. Roedd ei diflaniad yn cyd-fynd â datganiad Llywodraeth Llundain y bydd yn orfodol cyhwfan baner Jac yr Undeb ar adeiladau swyddogol o'r haf ymlaen. Mae'n siwr fod y Ddraig wedi hedfan i ffwrdd i wrthsefyll y frech Brydeinig.

Cyhoeddi Rhestr Testunau Eisteddfod Amgen

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi cyhoeddi'r Rhestr Testunau ar gyfer Eisteddfod AmGen, a gynhelir ddechrau mis Awst eleni, felly ewch ati ar frys i gynllunio!

Gyda'r Eisteddfod wedi'i gohirio yng Ngheredigion eto eleni yn sgil Covid-19, roedd y trefnwyr yn awyddus iawn i greu rhestr testunau ychydig yn wahanol i'r arfer er mwyn i bobl gael cyfle i gystadlu yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r rhestr testunau'n cynnwys dros 80 o gystadlaethau amrywiol, sy'n cwmpasu pob elfen o'r celfyddydau, yn gystadlaethau llwyfan ac yn gystadlaethau cyfansoddi, felly mae digon o ddewis ar gyfer pawb sydd ag unrhyw ddiddordeb i gymryd rhan.

Meddai Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod, "Ry'n ni'n falch iawn o gyhoeddi ein Rhestr Testunau ar gyfer Eisteddfod AmGen heddiw. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i bawb ac mae cymaint ohonom ni wedi gweld eisiau'r cyfle i gystadlu, fel unigolion ac fel grwpiau a phartion, felly rwy'n gobeithio y bydd y rhestr yma'n llwyddo i ddenu cynulleidfao eang iawn.

"Ry'n ni'n ddiolchgar i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith i dynnu'r rhestr ynghyd. Mae wedi bod yn dipyn o gamp dod â phopeth at ei gilydd mewn cyfnod cymharol fyr a phawb yn parhau i weithio o gartref. Ac rwy'n gobeithio y bydd y rhestr yn apelio – mae 'na ambell gystadlaeth wahanol a newydd yn y rhestr eleni, ynghyd â thestunau mwy cyfarwydd sy'n sicr o ddenu diddordeb.

"Fe fyddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion a gwybodaeth am wythnos yr Eisteddfod ei hun dros y misoedd nesaf, ac yn y cyfamser, mae'r neges yn glir – ewch ati i gystadlu a mwynhewch!"

Cystadlaethau newydd

Gan mai Eisteddfod AmGen yw hon eto eleni, mae'n gyfle i arbrofi gydag ambell gystadlaeth newydd. Am y tro cyntaf, mae dwy gystadlaeth gerddoriaeth electroneg wedi'u cynnwys yn y rhestr, sef cystadlaethau ar

gyfer perfformio gwaith electroneg a chystadlaethau cyfansoddi darn o waith.

Cystadlaethau arall sy'n sicr o ddenu diddordeb yw un sy'n cael ei threfnu ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ysgrifennu pennod gyntaf nofel ar gyfer dysgwyr lefel Canolradd, ac mae hon yn un o lu o gystadlaethau cyffrous ar gyfer dysgwyr ar bob lefel, gan gynnwys cystadlaethau Dysgwr y Flwyddyn ei hun.

Mae modd cael golwg ar yr holl gystadlaethau drwy fynd i'r adran gystadlaethau ar ein gwefan.

Y Lle Celf

Mae cynlluniau cyffrous ar droed ar gyfer y Lle Celf eleni. Efallai nad oes modd i ni gynnal arddangosfa arferol, ond fe fydd gennym ni arddangosfa rithwir arbennig

iawn, fydd yn datblygu'r elfennau a grëwyd ar gyfer prosiect Epona y llynedd. Gan weithio gyda chwmni 4Pi, bydd dwy arddangosfa'n cael eu creu, un yn arddangos 25 o weithiau gan artistiaid o dan 25 oed a'r llall yn arddangos 25 o weithiau gan artistiaid dros 25 oed. Mae'r manylion a'r ffurflen gais i gyd ar ein gwefan.

Dyddiad cau

Gan ein bod yn dal i fyw mewn cyfnod o gyfyngiadau, bydd rhaid i bawb gofrestru ar-lein eleni, gyda fideos yn cymryd lle ein rhagbrofion arferol y tro hwn. Bydd digon o gyfarwyddiadau ar ein gwefan i'ch helpu chi ar hyd y daith. Dyddiad cau'r cystadlaethau llwyfan yw 17:00, **dydd Llun 17eg Mai** a 17:00 ar **ddydd Mawrth 1af Mehefin** yw'r dyddiad cau ar gyfer y cystadlaethau cyfansoddi.

Am ragor o wybodaeth am yr holl gystadlaethau ac i gofrestru, ewch i www.eisteddfod.cymru/cystadlaethau

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS



DYLAN GRIFFITH

Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal

Busnes Teuluol

Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

Gwaith Coffaol LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898



GERAINT OWEN CARPEDI



Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Symudol - 07712779475

**CARPEDI
TEILS
VINYLS**

DEWIS MAWR
O BATRYMAU



BYSUS RHIWLAS BYSUS BACH A MAWR

ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Ysgol Brynrefail

Dychwelyd i'r ysgol!

Ar ôl cyfnod hir o un wythnos ar ddeg cawsom gyfle cyn gwyliau'r Pasg i ail agor i'n disgyblion i gyd am bythefnos. Roedd hyn yn siawns arbennig i groesawu pawb yn eu tro yn ôl i'r ysgol. Wedi cyfnod mor hir o dderbyn addysg ar-lein a gwersi dros y we roedd hi'n dipyn o her i'r disgyblion a staff i ddod yn ôl i drefn arferol dydd i ddydd yr ysgol a dysgu wyneb yn wyneb unwaith eto. Cyfaddefodd sawl disgybl ei bod yn dipyn o sialens codi a chael eu hunain yn barod i ddysgu erbyn chwarter i naw yn y bore – newid go sylweddol i batrwm eu diwrnod yn ystod y cyfnod clo!

Bu Blwyddyn 11, 12 ac 13 gyda ni yn yr ysgol am y pythefnos cyfan, Blwyddyn 10 am dros wythnos a hanner a mynychodd Blynnyddoedd 7, 8 a 9 am ddau ddiwrnod yr un. Yn dilyn y cyfnod yma o setlo'n ôl i mewn dan gyfyngiadau Covid-19 bydd pob blwyddyn yn dychwelyd i'r ysgol yn barhaol yn dilyn y Pasg, yn barod am dymor prysur a di-dor o addysg. Mae disgyblion Blynnyddoedd 10 – 13 a'r holl staff yn gallu profi eu hunain am Covid-19 ddwywaith yr wythnos bellach. Yn ychwanegol at y mesur diogelwch yma, mae'r disgyblion i gyd yn gwisgo mwgwd yn y dosbarth erbyn hyn, yn ogystal ag o gwmpas yr adeilad. Pob dymuniad da i bawb dros y tymor nesaf!


Cefnogi'r Ymgyrch yn Erbyn Trais tuag at Ferched

Ar gais arbennig disgyblion Blwyddyn 12 fe wnaethom glustnodi dydd Gwener, 26ain Mawrth yn Ddiwrnod Gwisgo Glas yn yr ysgol. Bwriad gwneud hyn oedd dangos cefnogaeth i'r ymgyrch yn erbyn trais tuag at ferched. Roedd sawl aelod o'r chweched dosbarth wedi mynegi'r awydd i ni fel ysgol, i wneud rhywbeth i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch yma ac er mwyn dangos ein bod ni, yn Ysgol Brynrefail yn cymryd hawliau merched yn hollol o ddifrif – yr hawl i'w trin yn deg, gyda pharch ac yn gyfartal. Aeth cyfraniad y disgyblion o £1 am wisgo glas at Cymorth i Ferched Cymru. Casglwyd dros £400 i'r achos da yma. Diolch yn fawr i'r holl staff a'r disgyblion am gefnogi ac i'r disgyblion hyn brwdfrydig am drefnu!

Un o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn ennill cystadleuaeth i ddysgwyr Seren Gwynedd a Môn

Mae Llywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn bellach wedi sefydlu Cynllun Seren ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog ysgolion Cymru. Bwriad y cynllun yn y pen draw yw magu sgiliau a hunan hyder ein disgyblion disgleiriaf, er mwyn iddynt ddewis mynediad i brifysgolion gorau Cymru a Phrydain ar ddiwedd eu cyrsiau Safon Uwch.

Eleni yn sgil cyfyngiadau Covid-19 mae sawl digwyddiad ar-lein wedi ei drefnu ar gyfer y disgyblion. Un o'r rheiny oedd digwyddiad ym mis Mawrth yn trafod sawl pwnc gan gynnwys Newid Hinsawdd ar gyfer disgyblion Seren blynnyddoedd 8, 9, 10 ac 11 ysgolion Gwynedd a Môn.



Yn dilyn y cyflwyniadau gosodwyd cystadleuaeth ysgrifennu erthygl am Newid Hinsawdd ar gyfer y dysgwyr. Ar ddechrau tymor yr haf cawsom y newyddion bod un o'n disgyblion ni wedi dod yn fuddugol yn y gystadleuaeth hon. Llongyfarchiadau mawr i Ifan Aled Evans, Blwyddyn 8 ar ei lwyddiant rhagorol. Mae wedi dod â chlod arbennig i Ysgol Brynrefail, gan mai ef a disgyblion o Ysgol Friars ac Ysgol Bodedern a ddaeth i'r brig trwy holl ysgolion Gwynedd a Môn. Ardderchog Ifan a llongyfarchiadau arbennig i ti!



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Yr Eco ar wasgar

Gobeithio eich bod chi fel ein darllenwyr yn mwynhau'r straeon a hanesion lleol sydd yn Eco'r Wyddfa. Ond fel arbrawf hoffwn ymestyn yr hanesion o fro'r Eco i holl wledydd y byd!

Yn ystod y misoedd nesaf gobeithiaf fedru rhannu hanesion trigolion bro Eco'r Wyddfa sydd erbyn hyn yn byw mewn gwledydd eraill ar draws y byd.

Rwyf eisoes yn ymwybodol o frodorion sydd yn byw yn Norwy, De Affrica, Awstralia a Seland Newydd nad ydw i wedi cysylltu efo nhw eto) ond yn awyddus iawn i ymestyn hyn ymhellach. Tybed felly allwch chi helpu trwy holi ffrind(iau) neu aelod (au) o'r teulu os fydden nhw'n fodlon i rannu dipyn o'u profiadau efo fi - fel mod innau yn fy nhro yn gallu rhannu hynny efo'n darllenwyr.

Gallwch gysylltu trwy ffonio fi ar 07825 586658 neu ar e-bost Eco'r Wyddfa gan roi enw a manylion cyswllt y brodor ar wasgar. Edrach ymlaen at glywed ganddoch.

Nesta Elliott



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG



Cwt y Clo

Fis Mai 2020, a phawb yng nghanol y Cyfnod Clo cyntaf, faint ohonoch chi oedd yn falch iawn o gael “mynd am dro i nôl wyau” i fferm Plas Tirion, Llanrug? Roedd gan bawb yr hawl i fynd allan am dro unwaith y diwrnod yn doedd, felly roedd cyplysu'r ymarfer corff dyddiol efo prynu cynnyrch lleol blasus yn gyfuniad perffaith (ac yn ffordd i ddifyrru'r plant!).

Rhag ofn nad ydych chi'n gyfarwydd â hi, mae fferm Plas Tirion ar y lôn sy'n arwain allan o sgwâr Llanrug tuag at Waunfawr, gyda'r Eglwys a'r fynwent ar draws y cae i'r dde o'r lôn. Yng ngheg y fynedfa i'r fferm mae cwt bychan glas a'i lond o wyau ar werth. Mae'r drefn yn syml - talwch eich arian yn yr hen flwch postio drws nesa i'r cwt a chymrwch eich wyau. Mae ffydd yn cael ei roi ynoch chi i dalu'r pres cywir ac i gymryd yr wyau yr ydych wedi talu amdanynt yn unig!

Aeth yr Eco i holi Huw Mackinnon am hanes ieir Plas Tirion.

O ble ddaeth y syniad i osod y cwt felly?

Fe wnaethon ni ddechrau cadw ieir ar ddiwedd 2018, a bellach mae gennym ni 32,000 o ieir acw. Maen nhw'n ieir sy'n cael crwydro'n rhydd, dyna pam bod yr wyau'n 'free range', ond wrth gwrs mae ganddyn nhw siediau mawr er mwyn clwydo a dodwy. Fel arfer, mae'r ieir yn dodwy tua 200,000 o wyau'r wythnos!

Mae hynny'n nifer anhygoel, i ble mae'r holl wyau'n mynd?

Mae ganddom ni gytundeb efo cwmni o Norfolk, ac maen nhw'n dod yma ddwywaith yr wythnos i gasglu'r wyau, gan alw mewn dwy fferm arall yng ngogledd Cymru hefyd ar eu ffordd. Mae'r wyau wedyn yn mynd i gael eu gwerthu ymlaen i gwmnïau mawr fel Tesco, Sainsbury's, McDonald's ac Amazon. Mae'r rhan fwyaf o wyau Plas Tirion felly'n cael eu gwerthu yn ne Lloegr.

Sut felly mae'r Cyfnod Clo, a'r flwyddyn ddiwethaf, wedi effeithio ar eich busnes?

Mi fuom ni'n lwcus iawn o fedru cario 'mlaen i werthu a bod yr ieir, diolch byth, wedi cario 'mlaen i ddodwy. Roedd gynnon ni syniad o gael cwt er mwyn gwerthu wyau yn uniongyrchol ein hunain ers talwm, ond mae gwaith fferm mor brysur wrth gwrs ac roedd yna wastad rhyw waith arall angen ei wneud. Yna mi ddaeth y Cyfnod Clo cyntaf ac mi roddodd hwnnw y cic i ni sortio'r cwt, felly mae o yn ei le ers 'chydig dros flwyddyn bellach.

Mi ydan ni'n falch iawn o fedru gwerthu ein wyau i bobl leol. Mae pobl, dwi'n meddwl, yn gwerthfawrogi gwybod o ble mae eu bwyd nhw'n dod, ac mi fedran nhw weld cartra'r ieir yn glir wrth sefyll o flaen y cwt. Mae'r 'milltiroedd bwyd' gyn fyrred a fedran nhw fod!

Mi oeddem ni'n falch iawn hefyd o fedru helpu'r ymgyrch leol i gyfrannu wyau at becynnau bwyd i'r rhai hynny oedd eu hangen dros y flwyddyn ddwytha.





Oes yna heriau wedi bod dros y flwyddyn a fu?

Un broblem annisgwyl gawsom ni 'chydig o fisoedd ar ôl cychwyn gwerthu drwy'r cwt oedd bod yna brinder drwy'r wlad gyfan o gardbord! Doedden ni'n methu cael gafael ar focsys wyau cardbord, ac felly am gyfnod byr bu'n rhaid i ni droi at ddefnyddio rhai plastig. Doeddem ni na'n cwsmeriaid yn rhy hapus efo'r newid, ond diolch byth fe ddaeth pethau yn ôl i rhyw fath o drefn ac mi rydan ni'n prynu bocsys cardbord 'pulp' bellach. Mae

ein cwsmeriaid yn helpu llawer o ran ail-gylchu hefyd drwy ail ddefnyddio eu bocsys eu hunain.

Ydi'r cwt wyau yma i aros?

Ydi wir! Mae yna bethau 'da ni wedi eu dysgu dros y flwyddyn ddwytha, ac mi ydan ni wedi gosod camerau diogelwch a blwch postio cadarn i ddal y prês. 'Da ni'n falch bod y syniad wedi gweithio ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth pawb sy'n dod draw i brynu. Os ydi'r galw yn parhau, mi wnawn ni gadw'r cwt i fynd, felly diolch yn fawr.



Zail Mawrth 2021

Tristwch mawr i ni fel Cyngor Cymuned yr wythnos hon oedd derbyn newyddion am golli Aled Green. Talodd Richard LL Jones air o deyrnged iddo. Yng ngeiriau Richard: 'Un wedi ei fagu i ymladd yn galed yn yr ystyr i fagu teulu, a gwneud y gorau dros bobl yr ardal i wella ei gymuned'.

Er cof am y Cyng. Aled Green, Penisarwaun

Geiriau sawl cyfnod gerwin - a gawsom yn gyson, gysefin mewn araith, min y werin - aelod y graith, Aled Green.

Rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf at Judith, Meurig, Dilwyn a'r teulu oll yn eu colled. A diolch am wasanaeth Aled a fu'n Aelod ffyddlon o'r Cyngor am flynyddoedd maith.

Cofnodion Cyfarfod Zail Chwefror 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Priffyrdd - Derbyniwyd ymateb gan yr Adran ynglŷn â dŵr sy'n sefyll yn y pantiau ar y lôn o Groeslon Tŷ Mawr i Fethel. Bydd arolygiad yn cael ei wneud ar y ffordd yn dilyn glaw trwm, ac yna bydd gwaith dilynol yn cael i wneud i waredu'r peryg ar y ffordd.

Gohebiaethau a Materion Eraill

Mynydd Gwefru

Trist iawn oedd derbyn llythyr yn adrodd na fydd y Mynydd Gwefru yn ail agor, ac y bydd rhaid o bosibl ei ddymchwel oherwydd rhesymau diogelwch. Wrth gwrs, yn wreiddiol, canolfan ar gyfer y pentrefi lleol oedd yr adeilad i fod. Mae cyfarfodydd wedi eu trefnu ynglŷn â'r bwriad am ddyfodol y safle, ac mae'n rhaid cofio hyn pan fydd y trafodaethau yma'n cael eu cynnal.

Incredible Edible Rhiwlas

Diolch i'r Cyngorydd Elwyn Jones am anfon bwriad y grŵp yma ymlaen. Yn anffodus, nid ydynt wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned o gwbl. Eu bwriad yw plannu coed o gwmpas y parc chwarae. O edrych, mae ganddynt sawl syniad i wella harddwch a phlannu coed cynhenid, ond roedd y Cyngor Cymuned yn bryderus ynglŷn â phwy fydd yn cynnal a chadw hyn i gyd. Fodd bynnag, mae'r caniatâd i blannu coed cynhenid ar ochor Caeau Gleision wedi ei roi gan Gyngor Gwynedd. Cyfeiriwyd at fainc sydd wedi malu yn y cae chwarae, ond nid y Cyngor Cymuned sydd berchen honno.

Stryd Tabernacl, Deiniolen

Yn dilyn cael llenwi tyllau yn y ffordd yma, mae sawl cwyn wedi cyrraedd ynglŷn â goryrru ar y ffordd yn dilyn y gwelliannau. Penderfynwyd gyrru llythyr i godi ymwybyddiaeth o hyn i'r Adran Briffyrdd yng Nghyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio

C21/0085/18/LL - Maes Carafanau Tros y Waun

Ail ddylunio lleiniau carafanau teithiol presennol, creu 5 llain carafán deithiol ychwanegol a lleoli 8 carafán statig i ddisodli lleiniau carafanau teithiol

C21/0149/18/DT - Cae Corniog Penisarwaun

Cais ar gyfer codi estyniad un llawr ochor ac estyniad deulawr yng nghefn yr eiddo

C21/0112/18/LL - Glan y Gors, Deiniolen

Cais ar gyfer dymchwel adeilad allanol presennol a chodi adeilad amaethyddol

C21/0093/18/AC - Tir Gyferbyn â hen bost Clwt y Bont

Cais ar gyfer rhyddhau amodau (3) llechi, (4) Gorffeniad Allanol, (5) Cynllun Dulliau Adeiladu, (6) Archwiliad desg Asesu Risg Llygredd a (11) Cynllun Draenio

C21/0121/18/DT - 3 Rhos Lan, Bethel

Dymchwel modurdy ac ystafell iwtiliti presennol a chodi estyniad deulawr newydd yn eu lle.

C21/0162/18/DT - Arfor, 5 Rhos Bethel

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochor ac estyniad un llawr to gwastad i gefn yr eiddo

Llwybrau

Derbyniwyd llythyr ymhellach ynglŷn â'r broblem giât rhwng

Tŷ Mawr a Hafod y Fraich. Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi cael gwybodaeth bellach o'r Cyngor Sir eto. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu eto yn gofyn oes datblygiadau ynglŷn â'r llwybrau uchod. Trafodwyd bwriad ar gyfer gwella'r llwybrau, a phenderfynwyd mai syniad da fyddai gwahodd dau o'r adran yng Nghyngor Gwynedd i gyfarfod y Cyngor i drafod y ffordd ymlaen gyda hyn ar ddechrau'r Gwanwyn fel hyn.

O gwmpas y Bwrdd

Garej Beran

Mae mwy o geir yno ar werth eto. Y clerch i edrych ar faint o geir sydd i fod ar werth yno.

Bethel, Biniau Baw Cŵn

Er bod sawl bin, mwy neu lai bod un ar bob llwybr ym Methel, maent yn tueddu i lenwi yn sydyn. Tybed pa mor aml mae'r biniau yn cael eu gwagio yma. Clerc i gysylltu.

Dinorwig

Cwyn bod cŵn yn rhydd ar lwybrau a phlant a phobl ar yr un llwybr. Adegau, nad yw'r teuluoedd yn gallu parhau gan ei bod yn rhy beryglus, a'r perchnogion ddim am roi'r ci ar dennyn. Hefyd, mae cŵn yn cael eu gadael yn rhydd i grwydro caeau, ar dir ffermwyr. Wrth gwrs, nid oes hawl ganddynt i fod yno. Mae hyn wedi cael ei amlygu ar y newyddion yn ddiweddar. Tybed ydi'n fater sydd yn digwydd, a sut mae ei datrys?

Ffordd gefn o Fethel i Felin

Mae adran ger y Culvert yno lle mae yno dipyn o ddŵr yn codi, sydd yn beryglus ar y lôn. Tybed oes modd cysylltu â'r Adran Priffyrdd i edrych i mewn i'r broblem.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
www.ffmpegia.com
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy



E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202



CEIR CYMIRU
Diolch am gefnogaeth ein cwsmeriaid yn Eryri dros **25** mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

16eg Chwefror 2021

Y Fynwent

Adroddwyd fod aelodau lleol o'r Eglwys wedi ymgymryd â'r gwaith o docio coed a thacluso'r fynwent a'n bod yn parhau i ddisgwyl i'r asesiad risg gael ei wneud ar y fynwent oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Adroddwyd hefyd fod y gwaith o fewnbynny'r data i'r system yn sylweddol a bydd angen cymorth i wneud hyn. Adroddwyd fod Cadeirydd y Cyngor a Chadeirydd Pwyllgor y Fynwent wedi gweld y system ar gyfrifiadur. Penderfynwyd trefnu sesiwn ar gyfer aelodau Pwyllgor y Fynwent i weld y system yn gweithio

Pwyllgor Cyllid

Adolygwyd y gwariant cyfredol ar gyfer y flwyddyn ynghyd â'r gwariant tebygol hyd ddiwedd Mawrth.

Y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

Adroddwyd fod aelodau o'r Pwyllgor wedi cyfarfod i drafod lleoliad yr offer ar gyfer Campfa Cwm-y-Glo a bod yr offer i fod i gyrraedd cyn diwedd Chwefror os bydd y tywydd yn caniatáu. Adroddwyd ymhellach fod y Pwyllgor yn bwriadu cysylltu â'r gymuned parthed problemau baw cŵn a diffyg biniau mewn rhai mannau. Nodwyd fod cyfarfod yn cael ei drefnu gydag un o reolwyr Cyngor Gwynedd i drafod opsiynau sydd yn agored i'r Cyngor Cymuned. Nodwyd fod y Swyddog Gorfodaeth yn ymweld â Llanrug o dro i dro ac atgoffir unrhyw un sy'n gweld

rhywun ddim yn codi baw eu ci i adrodd am y digwyddiad wrth Gyngor Gwynedd.

Adroddwyd fod rhai o aelodau'r Pwyllgor wedi cerdded y pentref yn dewis ble byddai'n addas i osod addurniadau Nadolig. Penderfynwyd cymeradwyo'r gwaith o osod y strwythurau ar y lampiau ac anfon y rhestr ymlaen at Gyngor Gwynedd fel y gellir gwneud y gwaith cyn gynted â phosib

Cynllun Fairshare

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, fod y cynllun wedi ei sefydlu a'i fod yn rhedeg yn dda gyda'r bwyd yn cyrraedd Bangor, a byddai ef yn ei gludo i hen ysgol Cwm-y-Glo ar gyfer ei ddosbarthu.

Polisi Iechyd a Diogelwch

Penderfynwyd derbyn y polisi.

Adroddiad gan y Cyng Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd

Cynllun Prynu Tai

Cabinet y Cyngor wedi cytuno i fuddsoddi £15.4m i brynu oddeutu 100 o dai i'w gosod i drigolion Gwynedd ar rent fforddiadwy. Y Cyngor i wneud y pryniant ac unrhyw welliannau i gael y tai yn barod i'w gosod. Mae posibilrwydd o gael partneriaeth efo'r Cymdeithasau Tai i'w rheoli ar ôl iddynt gael eu gosod.

Cynllun y Cyngor 2018-2023: Adolygiad 2021-22

Strategaeth Ddigidol Ysgolion: Sicrhau fod y gwasanaeth digidol yn deg ar draws y sir fel bod pob disgybl yn cael cyfle teg.

Ail strwythuro Adran Gwarchod y Cyhoedd: Wedi dod yn amlwg yn ystod cyfnod Covid-19 fod yr adran yma wedi bod yn ganolog i ymateb y Cyngor, a'r staff wedi cael eu tynnu i ffordd o'u gwaith arferol i ymateb i'r pandemig. Yn dyfodol bydd rhaid bod yn barod i wneud y gwaith dydd i ddydd a chario ymlaen hefo'r gwaith profi ac olrhain.

Eitemau yn mynd i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth Cyllideb 2021-22

Cafwyd Setliad eithaf gan Lywodraeth Cymru sef 3.4% sydd ychydig yn llai na'r cyfartaledd o 3.6% ar draws Cymru. Mae angen i Wynedd godi'r dreth o 3% i dalu am gostau ychwanegol anorfod, ond yr argymhelliad gerbron y Cabinet yw i godi'r dreth i 3.7% er mwyn talu am gostau eraill a fyddai'n golygu toriad mewn gwasanaeth petai'r dreth ddim yn codi i 3.7%. Mae hyn yn cyd fynd, mwy neu lai, efo cyngorau eraill y Gogledd. Am y tro cyntaf ers dros 10 mlynedd tydi'r cyngor ddim yn bwriadu gwneud arbedion ychwanegol eleni.

Effaith Covid-19

Mae'r Cyngor yn hawlio costau ar ffurf grant gan Llywodraeth Cymru

Premiwm Treth Cyngor ar ail-gartrefi ac eiddo gwag hir dymor

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi 50% ychwanegol ar ail gartrefi, ond fe ofynnodd y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr i'r Cabinet gysidro codi'r dreth hyd at 100%. Mae'r

Cyngor wedi ymgynghori ar y mater, ac fel buasai rhywun yn disgwyl, roedd perchnogion ail gartrefi yn erbyn y codiad, a'r bobol gynhenid o blaid.

Yn Lleol

Gor yrru ar allt Ceunant

Erbyn hyn, mewn trafodaeth gyda'r Awdurdod am y lle gorau i ail-leoli'r arwydd 30mya sydd ar hyn o bryd ar y gornel hanner ffordd i lawr yr allt.

Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug

Adroddwyd fod gwariant yr Ysgol ar gyfer y flwyddyn nesaf a chynlluniau ar gyfer y dyfodol wedi eu trafod mewn cyfarfod diweddar.

Mynegodd y Cynghorydd Cemlyn Jones ei ddymuniad i sefyll i lawr fel cynrychiolydd y Cyngor ar y Bwrdd Llywodraethwyr. Gofynnwyd os oedd unrhyw un yn fodlon cymryd ei le. Etholwyd y Cynghorydd Beca Brown fel cynrychiolydd y Cyngor.

Ceisiadau am gymorth ariannol

Penderfynwyd rhoi cyfraniadau ariannol fel a ganlyn

Clwb Pêl droed Llanrug Unedig - £1,000

Radio Ysbyty Gwynedd - £250

Cais Cynllunio

Penderfynwyd cefnogi'r cais i roi estyniad i'r to er mwyn creu ffenestr gromen yn Swyn Yr Awel, Ffordd Yr Orsaf, Llanrug.

Llwybr aml bwrpas Llanrug

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Dafydd Whiteside Thomas ynglŷn â'r ymgynghoriad gan Gyngor Gwynedd am y llwybr aml bwrpas Lôn Las, sydd yn rhedeg o Lanberis gyda'r bwriad o'i ymestyn i Gaernarfon. Derbyniwyd copi o lythyr roedd Mr Whiteside Thomas wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd a chafwyd cefndir hanes y llwybr ganddo a'r gwahanol anawsterau a pheryglon fyddai'n wynebu cerddwyr a beicwyr wrth ddefnyddio'r llwybr arfaethedig.

Diolchwyd i Mr Thomas am ei gyfraniad ac am ddwyn hyn i sylw'r Cyngor a phenderfynwyd anfon sylwadau at Gyngor Gwynedd.

TAIR CROES I'R BLAID!

6 MAI 2021

O BLAID

CYMRU

Etholaeth

Rhanbarth

Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Plaid Cymru Party of Wales

Hyrwyddwyd gan Mr M Phillips ar ran Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor, Llys Anson, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

SAMARIAID

Linell ffôn Gymraeg

116123
neu
0808 164 0123

Ar gael bob nos rhwng
7 pm ac 11 pm

Ysgol Gynradd Llanrug

Croeso nôl i'r Adran Iau! Pawb wrth eu boddau i gael bod yng nghwmni eu ffrindiau a'u hathrawon.



Derbyn Llyfrau

Diolch i Balas Print am y rhoddion caredig o lyfrau i bawb o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.



Trwynau Coch

Bu holl blant yr ysgol yn brysur gyda gweithgareddau ar gyfer codi arian i'r Diwrnod Trwynau Coch. Diolch i chi gyd, yn blant, rhieni a ffrindiau'r ysgol am eich cyfraniadau hael.



Cystadlu

Llongyfarchiadau mawr i Owain am ddod yn ail ar y sacsoffon yn Eisteddfod Rhithwir Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn. Wedi mwynhau gwrando ar dy berfformiad ar y sianel YouTube. Da iawn chdi!



Pasg Hapus

Y plant i gyd wedi derbyn wy siocled ar ddiwedd y tymor a dyma Ddosbarth Yr Wyddfa'n mwynhau'r helfa wyau yn yr haul.



Yr Heriau Od!

Bu Blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau'r sioe 'Yr Heriau Od'. Diolch i Tudur, Anni a Megan am ein diddanu! Wedi mwynhau mas draw.

Cynllun Efe a Phasg QR

Braf yw medru adrodd bod gwaith yr elusen Gristnogol Cynllun Efe wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf er gwaethaf yr holl gyfyngiadau a fu arnom oherwydd Covid-19 a'r Cloi Mewn. Yn amlwg, mae'r rhan fwyaf o'r diolch am hynny i Susan Williams, Ceunant, ein gweithiwr plant, ieuenctid a theuluoedd.

Erbyn hyn, mae Cynllun Efe wedi cynnal gweithiwr i

wasanaethu capeli, eglwysi, ysgolion a chymunedau'r ardal hon ers deuddeg mlynedd a hanner. Y weledigaeth o'r cychwyn fu cyflwyno'r Efengyl i Fro'r Eco, a gwerthfawrogn bob cyfle a gafwyd i wneud hynny.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn heriol i Gynllun Efe fel i bob mudiad ac elusen arall. Yr oeddem yn sylweddoli, yn gynnar wedi'r Cyfnid Clo flwyddyn yn ôl, na fyddai modd i ni wneud ein

gwaith arferol. Roedd yr ysgolion a'r capeli a'r eglwysi wedi cau ac nid oedd modd cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus nac unrhyw un o'n gweithgareddau arferol. Hyd yn oed wedi i'r ysgolion ail agor, nid oedd yn bosibl i Susan fynd o ysgol i ysgol yn ôl ei harfer. Mae'r sefyllfa honno'n parhau o hyd, ac nid yw'n debygol y bydd modd cynnal unrhyw weithgareddau ar gyfer plant ac ieuenctid yn ein capeli a'n heglwysi am rai misoedd eto.

Ond nid yw hynny wedi golygu

bod Cynllun efe wedi bod yn segur gan fod y gwaith wedi parhau, a hynny'n bennaf ar-lein. Mae Cynllun Efe wedi darparu Ysgol Sul ar gyfer plant y fro bob Sul trwy gyfrwng Zoom, ac mae'n braf iawn gweld plant o sawl pentref ac Ysgol Sul yn ymuno â ni erbyn hyn. Mae croeso cynnes i unrhyw blentyn oed ysgol gynradd ymuno â ni trwy gyfrwng Zoom am 11.15 o'r gloch ar fore Sul. Anfonwch e-bost at John Pritchard, Llanberis john.cilfynydd@btinternet.com i gael y cod Zoom ar gyfer yr Ysgol Sul.

Hafan Elan - Diolchiadau

Dymuna trigolion a ffrindiau Clwb Hafan Elan ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd yn ystod y Cyfnod Clo. Diolch i – Cyngor Cymuned Llanrug; Warden Cymdeithas Tai Adra; gwirfoddolwyr a threfnwyr Hafan Elan; Mr Arnold Roberts a Mr Gwynhaf Huws; Age Cymru Gwynedd a Môn, Bontnewydd; Clwb Ieuencid Llanrug; Mr Jonathan Davies a Mr Gavin Jones; Pali, Y Storfa (Spar); Cigydd Wavell (Bryn a'i staff); Siop Sglodion Tegfan; Arvonias; Fferm Plas Tirion; Morrisons Caernarfon; Cegin Fach Emma; Caffi Llwy De. Gwerthfawrogwn eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Capel y Rhos

Mae'n braf iawn cael cyhoeddi fod gwasanaethau'r Sul wedi ail ddechrau ar ôl y Cyfnod Clo. Cynhelir oedfa am 10 y bore bob yn ail Sul o dan arweiniad y gweinidog y Parch. Marcus Wyn Robinson. Felly, dyma'r oedfaon am fis Mai a Mehefin:

2il Mai – gweinyddir y Cymun

16eg Mai – Oedfa

6ed Mehefin a 20fed Mehefin – Oedfa

Byddwn yn siŵr o hysbysu'r aelodau a chyfeillion os bydd newid pellach yn y trefniadau.

Diolch o galon i'r rhai hynny sydd wedi bod yn cyfrannu tuag at y Banc Bwyd yng Nghaernarfon, maent yn hynod ddiolchgar yno.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Helen Parry, Ceunant, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio'n wir ei bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Profedigaethau

Bu farw Mr Arfon Roberts, Gwêl Fynydd gynt, mewn cartref preswyl yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Marian ei wraig a'r plant a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Meddwl amdanoch.

Ar ôl gwaeledd byr bu farw Richard Ellis, 53 Bro Rhyddallt, ar 21ain Mawrth. Cydymdeimlwn yn arw â Jackie a Geraint a'i wŷr Sion, a'i frawd John. Cymeriad hoffus oedd wedi byw yn ei filltir sgwâr ar hyd ei oes. Bydd colled fawr i'r teulu a'i ffrindiau i gyd.

Yn 87 mlwydd oed bu farw Grace Wynne Jones yng nghartref Cerrig yr Afon, Felinheli. Roedd yn briod â'r diweddar John Michael (cerrig beddi) ac yn fam annwyl i Sion ac Elsbeth, Sioned a Paul, Gwyn Antur a Jamilia ac yn nain annwyl, barchus a charedig. Yn ferch i'r diweddar Ifor Rhos Ddu a Nel bach Lôn Glai, oedd yn adnabyddus iawn yn lleol. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at y plant a'i brodyr a'i chwiorydd a'r teulu oll.

Yn sydyn a thawel bu farw Gwynfor Humphreys, Stad Minffordd ar y 6ed Ebrill. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Mair, ei ferched Delyth ac Awen, ei wyresau Ana ac Enlli a'r teulu i gyd.

Clwb Cant Plaid Cymru

Enillwyr mis Ebrill:

1. Carys Jones, Penisarwaun.
2. Gwynhaf Huws, Llanrug.



Diolchiadau

Yn dilyn marwolaeth Jacqueline Pugh yn 50 ar 12fed o Fawrth, fe ddymuna y teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth am fisoedd yn arwain at y diwedd. Cafwyd cymaint o alwadau personol, teulu a ffrindiau yn galw i gefnogi'r teulu a fu mor arbennig yn eu gofal ohoni. Derbyniwyd swm mawr o arian er cof a fydd yn cael ei rannu rhwng ymchwil i Motor Neuron Disease a Meddygfa Waunfawr.

Roedd yn amlwg pa mor boblogaidd oedd Jacqueline, ac yn annwyl i'w phentref a'i chymdeithas. Roedd cymaint a chant o bobl ar ochr y ffyrdd pan gludwyd hi i'r Amlogfa, ac yn y fynwent y diwrnod canlynol.

Cawn anfon ein cydymdeimlad i'r teulu, sef ei mab Carl, Rhydwen ei mam, Dilys Hughes ei nain, ei chwiorydd Caryl, Carys a Gwenlli ac Alyn ei brawd, a'r teulu oll. Colled enfawr i chi.



Er Cof – Gwyneth Johnson (nee Hughes)

Yn dawel yn Ysbyty Torrington, Dyfnaint bu farw Gwyneth Johnson (nee Hughes) ar 20fed Mawrth 2021. Priod annwyl Dave, mam gariadus Alexandria a Grant, chwaer hoffus Betty, Glyn, Janet a'r diweddar Alun a Wil John.

Fe'i ganed yn 18 Rhos Rug, Llanrug yn 1945 yn ferch i Robin a Kate Hughes. Gadawodd ei chartref yn ddwy ar bymtheg oed i ymuno gyda'r heddlu yn Birmingham, lle treuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfa fel heddwas. Dilyn ôl troed ei brawd hŷn, Alun, wnaeth Gwyneth wrth fynd i Birmingham. Pan gyrhaeddodd Birmingham mynnodd Alun ei bod yn gweithio yn siop Boots yng nghanol y ddinas am chwe mis er mwyn gwella ei Saesneg! Aeth i fyw i'r Alban ar ôl ymddeol o'r heddlu a gweithiodd fel swyddog diogelwch i Marks & Spencer yn ninas Aberdeen, cyn ymddeol i Ddyfnaint (dywedodd ei bod wedi methu'r haul).

Er ymadael o'i chartref yn ifanc roedd Llanrug a'i thrigolion yn agos iawn i'w chalon. Cynhaliwyd angladd preifat yn amlogfa Torrington yn ddiweddar.

Unwaith y mis, yn lle'r Ysgol Sul, rydym yn ymuno a Chapel Caersalem, Caernarfon i gynnal 'Llan Llanast' trwy gyfrwng Zoom. Ymgais yw 'Llan Llanast' i alluogi plant a theuluoedd i addoli trwy weithgareddau crefft a phryd bwyd bychan a chân a gweddi. Trwy ryw faint o addasu ar y patrwm arferol llwyddwyd i wneud hyn oll trwy Zoom.

Gwelodd Cynllun Efe gyfle i gyfrannu at waith Cristnogol yn ehangach trwy dderbyn gwahoddiad i Susan fod yn rhan o dîm a fu'n paratoi pecynnau

gwaith wythnosol i blant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwaith hwnnw wedi bod yn llwyddiant mawr, ac anfonir y pecynnau hynny at blant ym mhob rhan o Gymru a thu hwnt. Yn absenoldeb ysgolion Sul a chlybiau plant yn y capeli a'r eglwysi maent wedi bod o help i deuluoedd i ddarparu 'ysgol Sul gartref' i'w plant.

Ni fu'n bosibl cynnal gweithgareddau torfol hyd yn oed yn yr awyr agored. Roeddem wedi bwriadu cael helpa drysor 'Chwilio am y Nadolig' y Sul cyn

y Nadolig ond bu raid gohirio hwnnw ar y funud olaf oherwydd y Cyfnod Clo a ddaeth i rym y diwrnod cynt. Nid oedd pethau wedi gwella erbyn y Pasg, ac felly ni fu'n bosibl cynnal 'Chwilio am y Pasg' chwaith. Ond fe benderfynwyd rhoi cyfle i deuluoedd unigol gymryd rhan yn y gweithgarwch hwnnw. Helpa drysor digidol trwy gyfrwng Codau QR oedd 'Chwilio am y Pasg', a gosodwyd y codau QR o amgylch Cae Ddôl yn Llanberis er mwyn i deuluoedd chwilio amdanynt a defnyddio eu ffôn

symudol i ddarllen y codau QR er mwyn gweld stori'r Pasg ar y ffôn. Gobeithio bod pawb a fu'n chwilio am y codau wedi dod o hyd iddyn nhw ac wedi mwynhau dilyn stori'r Pasg mewn ffordd wahanol.

Diolch yn fawr i Susan am ei gwaith yn paratoi'r cyfan.

Bydd Cynllun Efe yn parhau â'i waith, sut bynnag y bydd modd i ni wneud hynny. Gobeithio'n fawr, erbyn yr helpa drysor nesaf, y bydd modd i ni gynnal y gweithgaredd hwnnw efo'n gilydd, yn un criw mawr.

Seindorf Arian Llanrug



Y band hwn, yn ôl pob sôn, yw band hynaf Cymru.
Fe'i sefydlwyd yn 1834, sef Seindorf Arian Llanrug.



Ers talwm

Byddai chwarelwyr yr ardal yn cyfrannu ceiniog o'u cyflog wythnosol i ariannu'r Band. Cyfrannodd Stad y Faenol gyrn i Fand Llanrug ym 1895, ond adeg y Streic ym 1901 fe gymron nhw'r cyn yn ôl am ryw chwe mis!

Cwt Band

Cynhelir ymarferion y Band yn Glan Moelyn. Ers talwm cwt sinc oedd yr adeilad, a gariwyd ar dractor o Fethel am £100! Bu'r band yn ymarfer yno am dros hanner can mlynedd – ond roedd yn oer yn y gaeaf (doedd y gwresogyddion trydan yn y to ddim yn cynhesu traed yr aelodau) ac roedd dŵr yn dod drwy'r to ac ymhen hir a hwyr darganfuwyd nad oedd sylfaen iddo. Yn 2008 – 2009 cafwyd grant i adeiladu cwt newydd ac iddo wres canolog, storfa i'r offerynnau a chegin er mwyn cael paned rhwng ymarfer, a llwyddwyd i greu maes parcio wrth ei ymyl. Cofiwch, roedd rhai o'r trigolion oedd yn byw y tu ôl i'r cwt yn hiraethu am glywed sŵn y Band yn ymarfer ar ôl adeiladu'r Cwt Band newydd. Y gobaith erbyn hyn yw y bydd modd defnyddio'r maes parcio i ymarfer yn yr awyr agored erbyn mis Mai neu Fehefin, a rhydd hyn siawns i'r cymdogion glywed sŵn soniarus y Band pres unwaith yn rhagor.

Teyrngarwch

Un o'r aelodau a fu yn y Band hiraf yw Alan Dulyn Owen. Cyn ymuno â Band Llanrug roedd yn aelod o Fand Pres Dyffryn Nantlle, ond pan symudodd i fyw i Gaernarfon cafodd gais i ymuno â Band Llanrug ac mae wedi bod yn

aelod ers Rhagfyr 1970. Mae'n chwarae'r *E flat bass*, ond yn ystod ei gyfnod yn y Band mae wedi chwarae amrywiaeth eang o offerynnau pres yn ôl y gofyn.

Mae'r Band wedi newid llawer yn ystod cyfnod Alan fel aelod. Hogiau lleol fyddai ynddo ar y dechrau, a bu dylanwad y teulu Jones yn fawr bryd hynny, gyda saith neu wyth o frodyr, chwiorydd, cefndryd a chyfnitherod yn cadw'r Band i fynd, a'u rhieni cyn hynny. Y diweddar Meurig Parry oedd yr arweinydd, ac fe'i dilynwyd o gan Edward Needham o

Fiwmares yn 1971 (yn wreiddiol o Fanceinion). Arweiniodd ef y Band i gystadlu am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor ym 1971, yn chwarae'r *Snowdon Fantasy*, gydag Alan yn chwarae'r *baritone*; ond trydydd allan o bedwar oeddau nhw yn eu cystadleuaeth gyntaf. Diddorol nodi mai yn yr ysgol gynradd ym Maesgeirchen y cynhaliwyd y cystadlaethau

dosbarthiadau is, hynny yw yr 2ail, 3ydd a 4ydd adrannau. Yn y 3ydd dosbarth oedd Llanrug. Erbyn hyn mae'r Band yn *Section 1!*

Yng nghanol y saithdegau daeth Frank Boylin o Hen Golwyn (eto'n hanu'n wreiddiol o Fanceinion) i arwain y Band, gan aros wrth y llyw am un mlynedd ar hugain. Bu'r Band yn y cyfnod hwn yn teithio dipyn ac yn ennill sawl cystadleuaeth, ac ymgymerodd Alan â'r gwaith o fod yn Ysgrifennydd Cystadlaethau (Comp. Sec. ar lafar gwlad), sef trefnu cludiant a chael ychwaneg o chwaraewyr i helpu fel bo'r galw i chwyddo'r rhengoedd; swydd y mae'n parhau i'w gwneud hyd heddiw.

Erbyn 1991, daeth Paul Hughes (cyn-aelod)

yn arweinydd ifanc am ryw naw mlynedd. Cafwyd cyfle i fynd i'r Albert Hall yn Llundain i'r *British Championships* yn 2000 a bu'r Band yn chwarae yno dair gwaith i gyd er na lwyddodd i gyrraedd y brig.

Gavin Saynor fu'r arweinydd wedyn am ryw bedair i bum mlynedd gan arwain y Band a fu'n llwyddiannus yn y *Welsh Championship* yn Abertawe ddwy flynedd yn olynol (2003 a 2004). Bu hefyd yn arwain y band yn y *British Championships* yn Dundee yn 2003! Dyddiau da!

Gŵr o'r Swistir, Thomas Wyss ddaeth i lenwi esgidiau Gavin, ond yna bu cyfnod tawelach. Roedd llawer o'r bobl ifanc yn mynd i'r coleg neu'r brifysgol ac mewn pentref bach fel Llanrug mae colli pump neu chwech o aelodau'n gadael bwlch sy'n anodd ei lenwi, yn enwedig os nad ydynt yn dychwelyd adref ond yn aros yng Nghaerdydd neu ymhellach.

Heddiw

Graham Williams yw'r Cadeirydd ers oddeutu dwy flynedd bellach ac mae wrthi'n brysur yn paratoi ceisiadau grant, gwella cyfleusterau, trefnu ymarferion a pherfformiadau (cyn i Covid-19 daro), a threfnu'r gwaith cynnal yn ôl y galw. Mae'r Band yn cynnig canolbwynt creadigol i'r pentref a'r dalgylch ac yn rhoi cyfle i bobl gymdeithasu, datblygu a dysgu sgiliau. Erbyn hyn mae Band Hŷn a Band Iau gydag ystod oedran o saith oed i saithdeg pump! Aled Williams yw'r Ysgrifennydd ac mae ganddo gysylltiad efo'r Band ers pan fu'n aelod o'r Band Iau.

Ieuenctid

Mae Bethan Evans yn hen gyfarwydd â byd y bandiau, gan fod ei thaid, ei thad a'i frodyr





a’i chwaer a hi ei hun a’i chwaer wedi bod yn chwarae mewn bandiau. Bu ei thaid a’i thad yn arwain band enwog Biwmares ers blynyddoedd lawer. Bu Bethan ei hun yn arwain Band Iau Biwmares yn llwyddiannus, ond erbyn hyn mae wedi camu i’r tir mawr i arwain Band Iau Llanrug. Os ydach chi’n meddwl beth yw rôl merch mewn bandiau pres erbyn heddiw, dyma ddywed Bethan: “... a deud y gwir does dim gwahaniaeth bellach rhwng dynion a merched yn y bandiau. Dwi a’ m chwaer wedi bod yn aelodau o sawl band dros y blynyddoedd ac mae pawb yn gyfartal.”

Megis cychwyn mae’r Band Iau (plant a phobl ifanc o’r ysgol gynradd hyd at Flwyddyn 9 sy’n aelodau, cyn iddynt drosglwyddo i’r Band Hŷn). Yn ogystal â hi mae Dyfrig Owen, Ellie Owen, Aled Williams a Graham Williams hefyd yn cynorthwyo – diddorol nodi bod y pedwar olaf yn gyn-aelodau o Fand Llanrug tra bod y pump ohonynt wedi bod yn aelodau o Fand Gwynedd a Môn ac felly’n awyddus i roi’r un cyfle i blant a phobl ifanc ag a gawsant hwy. Eu nod yw creu sesiynau ymarfer sy’n hwyl! Mae Bethan yn ceisio dewis darnau cerddorol y bydd y plant yn mwynhau eu chwarae, yn hytrach na’r darnau pres traddodiadol. Ar ôl ymarfer bydd hi’n aml yn gwobrwyo gyda da-da neu deisen fach cyn troi am adref a chael cyfle i ddweud wrth eu rhieni eu bod wedi cael chwarae miwsig ‘Batman’ y diwrnod hwnnw. I’r un perwyl, nid yw ar hyn o bryd yn awyddus i fynd i gystadlu efo’r plant gan ei bod yn credu bod digon o bwysau ar ein plant a phobl ifanc. Cofiwch chi, i’r dyfodol, os yw pawb yn dal i gael hwyl efallai bydd modd mynd am y Drenewydd i gystadleuaeth martsio ... amser a ddengys.

Oherwydd i Bethan ddechrau eu harwain ym mis Ionawr 2020, sef dau fis cyn y cloi mawr, dydy hi ddim wedi bod yn bosib cynnal ymarferion yn y Cwt Band ers misoedd. Llwyddodd y Cadeirydd fodd bynnag i sicrhau grant gan Tŷ Cerdd i

ddarparu 12 o sesiynau (zoom) ar-lein yn ystod Ebrill, Mai a Mehefin (sydd yn rhad ac am ddim). Bydd y sesiynau’n canolbwyntio ar egwyddorion sylfaenol i blant a llwyddwyd i gael tiwtoriaid offerynnau pres lleol i arwain y sesiynau megis Bari Gwilliam, Gwyn Owen, Siôn Rhys a Gavin Saynor a fu’n aelodau o Fand Llanrug yn y gorffennol. Cyfle gwych i blant a phobl ifanc lleol gael gwersi gan feistri’r offerynnau pres! Cofiwch hefyd bod modd i unrhyw blentyn sy’n awyddus i ymuno â’r Band Iau gael benthyg offeryn yn y lle cyntaf.

Ar ddiwedd y dydd gyda’r criw ifanc newydd yn ceisio ail-sefydlu Band Llanrug, dyfodol y band yw’r plant a’r bobl ifanc yma.

I’r dyfodol

Er gwaethaf yr anawsterau mae’r Band wedi dal ati ac wedi ceisio ail-godi a chryfhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod Covid-19 wedi bod yn anhawster pellach. Ar hyn o bryd, mae tua 20 yn mynychu’r Band Iau a tua 16 yn aelodau o’r Band Hŷn. Gyda llawer o waith gan griw bach o wirfoddolwyr, mae’r Band yn parhau, a phan godir y cyfyngiadau Covid-19 mawr obeithio bydd y band yn mynd o nerth i nerth. Cofiwch nid felly y bu hi ymysg bandiau lleol eraill. Mae Band Pres Nantlle yn parhau i fynd yn ei flaen ond yn wynebu’r un problemau â Llanrug o ran pobl ifanc yn gadael, a’r boblogaeth fyddai o fewn oed bod mewn band, yn lleihau. Mae Band Llanberis bellach wedi rhoi’r ffidil yn y to a rhoddwyd yr offerynnau i Fand Llanrug, ac o bryd i’w gilydd bydd cyn-aelodau Llanberis yn helpu allan i gael digon o chwaraewyr yn Llanrug. Bydd Band Llanrug yn eu tro yn chwarae yng Ngharnifal Llanberis, yn Ras yr Wyddfa ac yn diddanu ymwelwyr yn y Stesion o bryd i’w gilydd.

Chwith meddwl bod band fel un Llanrug wedi bod mor agos o ddilyn yr un trywydd â Band Llanberis a hwythau wedi cynhyrchu gymaint o offerynwyr o safon uchel iawn. Dyma rai ohonynt:

Mae rhai a fu â chysylltiad agos â Band Llanrug bellach wedi symud i Norwy (ble mae parch mawr a brwdfrydedd yng ngwaith bandiau pres). Mae Paul Hughes, a fu’n aelod ers yn blentyn, yno’n gweithio ers rhyw saith neu wyth mlynedd ac mae Gwyn Evans, er yn enwog am ei waith efo Band Biwmares, hefyd wedi symud yno. Bu yntau’n chwarae ym Mand Llanrug o bryd i’w gilydd dros y blynyddoedd i helpu allan.

Dyddiau difyr

Atgofion gan Alan o stopio am beint ar y ffordd adref o gystadleuaeth, ond y fo a’r hogiau iau yn cael bag o tsips i fwyta tu allan i’r bws!

Wrth iddo fynd yn hŷn yn cael y job o hel ambell un, oedd wedi cael ryw ddiferyn yn ormod, yn ôl i’r bws, yn rhinwedd ei swydd fel plismon!

Teithio i Luxembourg yn 1978, gan fod Beata Brookes, ASE Clwyd bryd hynny wedi cael nawdd i’r Band fynd yno i chwarae. Trefnwyd i’r Band fynd i’r Embassy i gael te pnawn. Yn anffodus, roedd hi’n niwl dopyn ac aeth gyrrwr y bws ar goll ac roeddent awr yn hwyr ... Yr *ambassador* wrth y drws yn edrych yn flin ar ei wats a’r bechgyn yn edrych yn hurt ar y brechdanau a’r teisennau bach pitw o’u blaenau ... Atgofion melys ...

Post Covid-19

Bydd y Band yn edrych ymlaen at groesawu’r aelodau presennol yn ôl i’r rhengoedd i’r Band Iau a’r Band Hŷn ac yn hynod hapus o groesawu aelodau newydd sydd am gymdeithasu a chwarae offeryn pres cyn gynted ag y byddant yn cael y golau gwyrdd i fedru ymgynnull i ymarfer.

Bu swydd y Trysorydd yn wag ond mae rhywun bellach yn barod i ymgymryd a’r swydd bwysig hon. Byddai’r band fodd bynnag yn croesawu unrhyw un a fyddai’n awyddus i ymuno a’r Band Hŷn neu’r Band Iau.

Maent hefyd yn chwilio am rywun fyddai’n hoffi arwain y Band Hŷn. Cysylltwch efo Alan Dulyn Owen ar 01248 680389 neu 07747 678991 os oes gennych ddiddordeb mewn arwain y Band Hŷn.

Diolch yn fawr i Graham Williams, Alan Dulyn Owen a Bethan Evans am eu cymorth wrth ysgrifennu hanes Seindorf Arian Llanrug, a chydabyddir y cymorth a gafwyd o gyfrol Geraint Jones, ‘Cyrn y Diafol’.

Nesta Elliott

Aelodau Llanrug	Aelodau o Fandiau mawr
Derek Jones	Band Wingate, Manceinion
Paul Hughes	Grimethorpe Colliery Band
Dewi Griffiths	Yorkshire Building Society Band a Band Pres Tredegar (prif gornetydd)
Iwan Rhys Williams	Park & Dare Band (Rhondda), Cory Band, Band Tredegar.
Siôn Rhys Jones	Band Tredegar, Cory Band
Owain Llestyn	Fairey Band, Cory Band



Bronwen ar FFIT Cymru

Dychwelodd y gyfres iechyd a thrawsnewid, FFIT Cymru i'r sgrin ym mis Ebrill i roi 'chydig o hwb i ni droi dalen newydd. Fel y cyfresi blaenorol, mae'r rhaglen yn dilyn pum aelod o'r cyhoedd – neu 'arweinwyr' – wrth iddyn nhw fynd ar daith anhygoel i wella'u hiechyd, eu ffitrwydd, eu lles a'u hapusrwydd. Maen nhw'n dilyn arweiniad a chynghor gan dri arbenigwr y gyfres; yr hyfforddwr personol Rae Carpenter, y dietegydd Sioned Quirke a'r seicolegydd Dr Ioan Rees.

Yr arweinydd ieuengaf yw Bronwen Price, Tŷ'r Ysgol, Bethel. Mae Bronwen, sy'n 26, yn feddyg dan hyfforddiant yn adran ddamweiniau Ysbyty Arrow Park ar Lannau Merswy. Aeth Eco'r Wyddfa i'w holi ar ddechrau'r cynllun i glywed am ei phrofiad hyd yn hyn;

Pam gwneud cais FFIT Cymru?

Rydwi wedi cael trwbwl efo fy mhwyasa' am amser maith, ond wedi gweld gwahaniaeth mawr yn fy mhwyasa' yn y ystod lockdown cynta y flwyddyn diwetha'. O'n i'n ffeindio fy mod i wedi mynd yn llai ffit a doedd dim o fy nillad, dim hyd yn oed fy mras, yn ffitio rhagor. Ro'n i'n gwybod fy mod i angen newid rhywbeth. Dwi'n gobeithio gwneith y profiad roi gwersi gwerthfawr i fi am y ffordd orau i gael y cydbwysedd o fwyd da, symud a theimlo'n hapus yn fy nghroen fy hun. A hefyd rhoi'r gallu i mi gynnig cymorth i fy nghleifion yn y dyfodol.

Rho ddarlun i ni o dy amserlen FFIT Cymru?

Mae yna ymarfer i'w wneud bob dydd,



ymwrthiant a rhedeg sofffa i 5k bob yn ail ddiwrnod, ma' rhain i gyd yn rhyw hanner awr o hyd ond yn ddigon o waith calad! Mae digon o ryseitiau bwyd ar y wefan i ni fwya sy'n rhoi digon o ddewis ac amrywiaeth bwyd. Dwi heb sylwi eto 'mod i ond yn bwyta 1400 o galoriau y dydd! 'Da ni hefyd yn cael tasg bob pythefnos sy'n syrpreis i ni tan



"da ni'n troi fyny, sy'n beth reit hwyl. A bore cynnar bob dydd Sul i bwysu am 7am weld lle 'da ni arni, ac yn gyfle da i ddal fyny efo'r pump arweinydd arall (er ein bod ni mewn cyswllt bob dydd dros Whatsapp!).

Hoff ymarfer corff o'r cynllun ffitrwydd?

Dwi wastad ofn y rhedeg dipyn bach, ond yn teimlo'n grêt ar ôl gorffen. Felly am y buzz dwi'n ei gael ar ôl ei wneud o, y rhedeg ydi'r ffefryn.

Dwi rili wedi mwynhau rhedeg un ai ar y Foryd yng Nghaernarfon neu o Ben Llyn ym Mrynrefail i Lanberis. Mae'r ddau yn fflat ond efo golygfeydd anhygoel sy'n gwneud unrhyw ymarfer yn llawer mwy pleserus!

Hoff bryd bwyd o'r cynllun bwyta?

Mae'r lasagne aubergine mor flasus! Mae o'n gwneud i 6 porsiwn hefyd, felly mae o'n trîr am dridiau!

Beth yw'r cynghor hoffet ti ei roi i'n darllenwyr?

Cawsom ni *pep talk* gwerthfawr gan Rhys Patchell yn ein tasg gyntaf, sef i gadw ati i roi un troed o flaen y llall. Dwi 'di bod yn meddwl am hynny lot yn yr ymarferion ond hefyd o ddydd i ddydd pan dwi 'di digalonni neu'n ffeindio hi'n anodd – os dwi jest yn gwneud y pryd nesa, neu yn dal ati hefo ymarfer heddiw, fydda i 'di llwyddo mewn wythnos arall cyn 'mod i'n sylwi!

Pob hwyl i Bronwen gyda'r her ac edrychwn ymlaen at glywed sut aeth hi! Mae modd i chi ddilyn yr union yr un cynlluniau ffitrwydd a bwyta a'r arweinwyr drwy fynd i [s4c.cymru/ffitcymru](https://www.s4c.cymru/ffitcymru)



BETHEL A SEION

Gwerthfawrogi

Dymuna Hefin a Morfudd Thomas a'r teulu ddiolch am y lliaws negeseuon a chardiau cydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth mam Hefin ar y Fam Ynys y mis diwethaf.

Cydymdeimlo

Fel ardal, rydym yn cydymdeimlo â theulu estynedig y ddiweddar Grace Wynne Jones. Un o hen deulu'r Lôn Glai oedd Grace, cyn symud i fyw i Fethel. Roedd ei gŵr John Michael yn organydd graenus yn y Cysegr am sawl blwyddyn. Bu farw yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon, ble cafodd ofal arbennig.

Capel y Cysegr

Yn dilyn cyfarfod o'r Swyddogion yn ddiweddar penderfynwyd ail-gychwyn cynnal oedfaon ar y Sulgwyn, pan fydd y Gweinidog yn gwasanaethu. Rhwng y Sulgwyn a'r Sul olaf ym mis Hydref pan fydd y Gweinidog yn ymddeol, rhagwelir mai ond ar 'Suliau'r Gweinidog' y cynhelir oedfaon. Mae oedfaon yng Nghapel Saron wedi ail-gychwyn ers Sul y Pasg.

Croeso Adref

Braf cyhoeddi fod Gwyneth, Llain yr Ardd wedi cael dychwelyd adref. Bu'n fisoedd anodd iddi hi a'r teulu gyda chynodau yn Ysbyty Gwynedd ac ysbytai Dolgellau ac Eryri. Fel ardal, rydym yn dymuno gwellhad cyflawn i chwi Gwyneth.

DWAD ADRA'

I Gwyneth daeth y gwanwyn – a daw'r Pasg wedi'r poen a'r dychryn.

O'i harbed, balch o'i derbyn yma'n ôl mae Ieuan Wyn.

RLLJ

Iechyd Da

Cyhoeddwyd mai Bronwen Price, Tŷ'r Ysgol fydd un o'r rhai fydd yn ceisio elwa o fod yn 'gystadleuydd' yn y gyfres Ffit Cymru ar S4C eleni. Edrychwn ymlaen at ddilyn ei thaith wythnosol. Yn enedigol o Fethel mae Bronwen, sy'n 26 oed bellach, yn feddyg dan hyfforddiant yn adran ddamweiniau Ysbyty Arrow Park ar Lannau Merswy. Y diwrnod y bûm i'n ei holi roedd gŵr camera'r cwmni teledu wedi cyrraedd i ffilmio Bronwen ar gychwyn un o'r amryw radiadau sy'n rhan o'i hymdrech.

Ceisio Llwybr

Ar wahoddiad y Cynghorydd Siôn Jones cafwyd trafodaeth drwy gyfrwng Zoom i wyntyllu'r gobaith o gael llwybr cerdded a beicio yn cysylltu Bethel a Llanrug. Fe godwyd y bwriad gwreiddiol o sefydlu'r llwybr tua 20 mlynedd yn ôl. Bu cryn boeni am gulni'r ffordd bresennol yng nghyswllt trafnidiaeth fodern. Dros gyfnod y clo gwelwyd cryn gynnydd yn y beicio a cherdded ar y ffordd yma, nid yn unig o ran elfennau hamdden ond hefyd y cynnydd o ran nifer y bobl o Fethel sy'n mynd i siopa yn Llanrug ers cau Post Bethel. O gofio pwyslais Llywodraeth Cymru ar bolisiau Gwyrdd a Ffitrwydd



teimlwyd y buasai llwybr 'newydd' yn ateb nifer o'r gofynion yn enwedig yng nghyswllt plant Bethel sy'n teithio'n ddyddiol i Ysgol Brynrefail. Gan na ellir culhau'r ffordd bresennol mewn unrhyw fodd bu raid ceisio llwybr penodol. Soniwyd fel un opsiwn am yr hen reilffordd chwarel. Mae cryn or-dyfiant arni,

collwyd erbyn hyn Bont Rheilffordd Crawia, ac mae'r hen drac bellach yn mynd yn agos i rai tai annedd. Hefyd mae ambell adeilad arall yn agos iawn i'r hen drac. Roedd un o berchnogion y tai annedd yn bresennol, ac roedd ef yn bendant o'r farn na fuasai unrhyw un o'r tîrfeiddianwyr yn barod i ildio tir. Hefyd buasai rhaid trafod gyda'r

Gymdeithas Bysgota, a hefyd wynebu y buasai rhaid croesi'r afon mewn rhyw fan. Y mae deiseb ac arni'n agos i 700 o enwau eisoes yn yr ardal yn cefnogi'r cais am llwybr beicio a cherdded. Yn yr un cyfarfod, cyfeirwyd hefyd at gadw mewn golwg y posibilrwydd rywbryd o gysylltu Erw Bian a Gors Bach trwy ymestyn y palmant a chwblhau felly gylch cerdded a beicio. Ar ddiwedd y cyfarfod, ffurfiwyd pwyllgor trafod i gynnal momentwm ac i gysylltu â'r Cyngor Sir. Os oes gennych farn ar y mater cysylltwch ag unrhyw aelod. Gellir gweld y llythyr a ddanfonwyd isod. Ar derfyn y cyfarfod, dewiswyd y tri canlynol fel personau cyswllt: Siôn Jones (Cadeirydd), Dr Llinos Spencer (Ysgrifennydd) a Steven Jones (Is-gadeirydd). Cysylltwch â nhw os ydych am gyfrannu syniadau. **Richard Ll Jones**

29ain Mawrth 2021 Parthed: Llwybr Aml-bwrpas Bethel – Llanrug

Ffurfiwyd pwyllgor cymunedol newydd ar 23ain Mawrth 2021 o'r enw Pwyllgor Teithio Llesol Bethel sy'n cynnwys aelodau o Fethel a Llanrug. Nod y pwyllgor yw i ymchwilio yn bellach i'r cyfleoedd sydd yn bosib er mwyn cysylltu pentref Bethel gyda phentref Llanrug, gyda llwybr aml-bwrpas. Rydym yn eithriadol o falch o weld datblygiad y llwybr aml-bwrpas o Fethel i Gaernarfon wedi cychwyn oherwydd bod llwybr o'r math yma yn creu cyfleoedd newydd i bobl deithio yn ddiogel i'w gwaith ac yn rhoi cyfle newydd i bobl gerdded a beicio am resymau iechyd, lles a hamdden. Mae trigolion cymuned Bethel a'r cylch yn gyffrous o weld y cynllun hwn yn gorffen, yn enwedig wrth ystyried y flwyddyn diwethaf o deimlo yn ynysig o fewn cyfnodau clo yn ein cymuned. Hwn fydd y llwybr cyntaf o'i fath i gysylltu Bethel gyda chymuned arall. Yn anffodus iawn, ar hyn o bryd nid oes modd i gysylltu gyda Caernarfon, Felinheli, Llanrug na Bangor mewn modd diogel. Does ddim

llwybr pwrpasol, i ffwrdd o'r traffig i gysylltu ein cymunedau, ac mae oedolion, pobl ifanc a phlant yn parhau i gerdded a beicio ar y lonydd cul, sydd yn hynod o beryglus, ac mae'r risg o ddamwain difrifol neu farwolaeth yn uchel iawn. Mae yna nifer o gysylltiadau posib o Fethel, ac un o'r llwybrau mae'r gymuned wedi ei nodi fel blaenoriaeth yw cysylltu Bethel gyda Llanrug. Mae sawl rheswm dros hyn: 1. Mae'r ffordd bresennol o Fethel i Lanrug yn cael ei ddefnyddio fwy fwy yn ddyddiol gan drigolion bob oed o Fethel, er mwyn cyrraedd yr ysgol neu un o'r siopau yn Llanrug. Mae'r lon gul, troellog yn hynod beryglus ar gyfer cerdded neu feicio oherwydd does dim pafin/palmant, a dim llawer iawn o lefydd pasio diogel. 2. Mae Siop Bethel wedi cau ers Chwefror 2020, ac nid oes siop arall yn y pentref. Mae nifer o bobl nawr yn teithio i Lanrug ar gyfer defnyddio siopau bwyd, a siop trin gwallt ayyb. 3. Mae sawl opsiwn posib i gysylltu Bethel gyda Llanrug mewn modd diogel, naill a'i gwneud addasiadau i'r ffordd fawr bresennol neu edrych ar opsiynau ger yr hen reilffordd neu cyfuniad o'r ddau, neu opsiwn arall.

4. Mae deiseb i gysylltu Bethel a Llanrug, gafodd ei ddechrau gan Steven Jones, wedi cyrraedd dros 700 o enwau hyd yn hyn. Mae hyn yn dangos bod cryn dipyn o gefnogaeth er mwyn cyflawni llwybr aml-bwrpas Bethel-Llanrug. Penderfyniad y pwyllgor newydd oedd gwneud cais i Gyngor Gwynedd er mwyn datblygu cynllun yn cynnwys dyluniadau er mwyn cysylltu y ddau gymuned drwy lwybr aml-bwrpas. Felly, rydym yn gofyn yn garedig i Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd i edrych i mewn i'r posibilrwydd o gomisiynu y gwaith cychwynnol a gwneud y broses WelTag. Rydym yn mawr obeithio bod hyn yn dderbyniol ac yn bosib er mwyn hybu iechyd a lles trigolion yr ardal ac er mwyn hybu economi'r ardal. Byddwn yn gwerthfawrogi eich sylw i'r mater hyn ac edrychwn ymlaen i glywed gennych am y camau nesaf. Diolch yn fawr

Yr eiddoch yn gywir
Siôn Jones (Cadeirydd), Dr Llinos Haf Spencer (Ysgrifennydd) a Steven Jones (Is-gadeirydd)
Ar ran Pwyllgor Teithio Llesol Bethel

Yn y rhaglen gyntaf, cawsom gip olwg ar fanylder y paratoi er lles pob ymgeisydd. Rhoddwyd iddynt brofion trwyadl i fesur braster yn y corff a chyflwr yr organau megis y galon a'r ysgyfaint. Diddorol oedd gweld y gymhariaeth rhwng oedran y cystadleuydd ac 'oedran' cyflwr yr organau. Bydd pob ymgeisydd dan ofal tri arbenigwr – un yn ymwneud â phatrymau a chynnwys prydu, un arall yn cynllunio'r cwrs ffitrwydd fel rhedeg ac ymarferion eraill, ac yna seicolegydd. Mae hyn i gyd yn bwysig er mwyn cynnal parodrwydd a chyflwr meddwl i wynebu'r her. Diddorol oedd gwrando hefyd ar resymau'r pump dros wynebu'r her. Diddorol fydd dilyn y pump yn mynd i 'ryfel' gan geisio concro eu 'brwydrau' corfforol ac emosiynol personol. Mae'n siwr y bydd llawer ohonoch, fel finnau,

yn gobeithio pigo ambell i dip llesol, iach. Yn ddiarnheuol, er i ni ymfalchïo yn y cerdded estynedig, mae'n siwr fod y bisgedi a'r cacennau wedi bod rhy agos at law yn ystod y cyfnod hwn o glo. **Sŵn Cicio o'r Diwedd** Cafwyd tywydd braf dros wythnos gyntaf gwyliau'r ysgol. Wedi llacio ar y rheolau i'r ieuenctid braf oedd clywed sŵn cicio pêl draw ar cae top a chae swings. Gobeithio na fydd hi'n rhy hir nes bydd chwaraeon oedolion yn ail-ddechrau. **Mor Agos i'r Mil** Llongyfarchiadau i Menna Dauncey ar ei gwobrwyo ar raglen Heno yn ddiweddar. Daeth ei henw o'r het i gael cyfle i elwa o droelli olwyn Ffansi Ffortiwn.

Dylanwad Bydd sawl agwedd ac effaith y ffordd osgoi newydd yn ddi-os yn amlygu ei hun ar gymuned Bethel mewn dim o dro. Bydd y pentref yn fangre boblogaidd i sawl datblygwr. Yn agos at rwydwaith drafnidiaeth, yn gyfleus i Fangor, Caernarfon a threfi'r glannau a'r gorllewin o ran 'teithio i waith'. Yn ffodus o gael dwy ysgol o safon i'r plant – cynradd ac uwchradd. Beth yw barn y gymuned yma am y datblygiadau? Un dylanwad amlwg yn ddiweddar yw'r cynnydd mewn trafnidiaeth ar y lôn gefn heibio i Benrhos ac ymlaen i Gaernarfon drwy Griffiths Crossing. Ymysg y drafnidiaeth mae sawl lori fawr y mae'r lôn yn amlwg yn anaddas ar eu cyfer. Ydy hi'n bosibl llenwi'r sedd wag ar y Cyngor Cymuned dros ward Bethel? Bydd angen llais cryf i'n cynrychioli dros y misoedd sydd i ddod. I drosi adnod hysbys, "Y mae yma fil. Pa le mae yr un?"

Diolchiadau

Dymuna Mrs Meira Rowlands, 17 Rhydfadog, ddiolch yn fawr iawn am y llu cardiau, y galwadau ffôn, y blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am gofio amdani. Braf dweud ei bod wedi gwella yn dilyn anffawd ac wedi cael dychwelyd i'w chartref. Gofal biau hi rwan Meira!

GRIFFITH - John Meirion (John Fron)

Dymuna Gwen, Iolo, Alun Siân a'r teulu, Fron, Deiniolen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli, priod, tad, taid, hen daid a brawd annwyl. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn a'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd at elusennau lleol, er cof am John. Diolch i'r Gwasanaethau Argyfwng, Cwmni Gwilym Jones, Caernarfon, Meddygfa Deiniolen a'r Nyrsys Cymunedol am eu cymorth a'u gofal. Diolch arbennig i'r Parch J. Gareth Parry, Penmaenmawr am ei gyfeillgarwch a'i wasanaeth urddasol a theimladwy ar lan y bedd. Hefyd gwerthfawrogydd yn fawr

gefnogaeth arbennig a threfniadau trylwyr y ymgymeryddwys Roberts & Owen, Penygroes.

Neges gan y Cyngorydd

Dymuna'r Cyngorydd Elfed Wyn Williams ddiolch i Glwb Mynydd Sir Gaerloyw, sydd yn berchen ar adeilad yng Ngallt y Foel, am roi £500 i glwb ieuenctid Deiniolen yn ddiweddar. Gair o ddiolch hefyd i'r unigolion yn ward Deiniolen sydd yn dal i godi sbwriel o gwmpas yr ardal.

Cefnywaun ac Ebeneser

Hyd yma, nid ydym wedi ail ddechrau ein hoedfaon yn Nhŷ Elidir. Mae wedi bod yn amhosibl gwneud hynny hyd yma oherwydd y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol. Cawn weld sut bydd pethau'n datblygu dros yr wythnosau nesaf. Gobeithio'n fawr y bydd modd i ni ail ddechrau cynnal ein hoedfaon mor fuan â phosibl. Mae Gronyn, ein taflen wythnosol, yn dal i gael ei chyhoeddi bob Sul, a cheir ynddi fraslun o oedfa ynghyd â'r neges a'r newyddion arferol. Mae gennym, ar y cyd ag eglwysi eraill Gofalaeth Fro'r Llechen Las, oedfa ffôn am 10:00am ac oedfa Zoom am 5:00pm bob Sul. Mae croeso cynnes

i unrhyw un ymuno â ni yn yr oedfaon hyn os nad oes gennych oedfa arall i fynd iddi. Mae'r Gweinidog hefyd yn arwain oedfaon ar sianel Youtube Capel Tanycoed, Llanrug yn rheolaidd. Dyma sut i ymuno â'r oedfaon hyn:

Oedfa Ffôn am 10:00am: Ffoniwch 0333 0164 757. Yna pan ofynnir am y 'Conference Room Number', deialwch 54265432 a phwyso'r botwm # ar ei ôl. Yna pan ofynnir am y 'PIN' deialwch 1210 a phwyso'r botwm # ar ei ôl.

Oedfa'r Ofalaeth am 5:00pm: Anfonwch ebost at y Gweinidog, John Pritchard i gael y cod neu'r ddolen i'r oedfa Zoom ar john.cilfynydd@btinternet.com

Oedfaon Youtube: Ewch i sianel Youtube 'Capel Tanycoed' unrhyw bryd i gael yr oedfa a ddarperir gan Gapel Tanycoed, Llanrug. Mae'r Gweinidog yn arwain yr oedfa hon bob pythefnos o leiaf. Mae holl oedfaon y flwyddyn ddiwethaf i'w gweld yno.

Os ydych eisiau rhagor o fanylion am yr oedfaon hyn, ffoniwch y Gweinidog ar 01286 872390.

Ymgyrch Heriol Malcolm

Dros y deuddeng mlynedd diwethaf ers colli ei wraig Yvonne, bu Malcolm Pitts o Lanrug yn nofio 15 milltir a beicio 80 milltir yn ystod mis Mehefin er mwyn codi arian er cof tuag at Uned Gofal Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd. Roedd yn hynod siomedig o fethu cyflawni'r gamp y llynedd oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Yn anffodus, mae'r pyllau nofio yn parhau ar gau, ond roedd Malcolm yn benderfynol o gwblhau rhyw fath o sialens er mwyn cyfrannu at yr elusen sydd mor agos at ei galon.

Eleni rhoddodd Malcolm yr her iddo'i hun o feicio 600 milltir mewn 30 niwrnod yn ystod mis

Ebrill – os byddai'r tywydd yn caniatau! Beth bynnag fydd y swm a gesglir ganddo, mae'n bwriadu ei rannu – 50% i Uned Gofal Ward Alaw a 25% yr un i Ward Conwy ac Adran A&E Ysbyty Gwynedd. Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu mae'n bosib gwneud hynny ar gyfrif www.justgiving.com/fundraising/Malcolm-pitts4. Os bydd tywydd Ebrill wedi bod yn anffafriol, bydd Malcolm yn parhau gyda'i ymdrech ym mis Mai a gallwch ddilyn ei deithiau – i gyd yn lleol ac o fewn ffiniau bro'r Eco ar 'Malcolm Pitts on Strava'.

Dymuna Malcolm ddiolch o galon i bawb a'i cefnogodd yn ei ymdrech flynyddol.



Gwyliau
ARVONIA

- Gwyliau ym Mhrydain ac Ewrop
- Teithiau grŵp
- Cyngherddau a sioeau
- Teithiau diwrnod
- Teithiau drost nos
- Cerbydau moethus

01286-675175

www.arvoniaco.uk

WAVELLS

AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI

DELI A CHIGYDDO O FRI

Bryn ac Angela Williams

LONDON HOUSE LLANRUG

yr wyn lleol mwyaf blasus

selsig cartre

cigoedd parod i'w bwyta

archebion ar gyfer y rhewgist

(01286) 673574

HUW OWEN

PLASTRWR

ADEILADWR LLEOL

23 BLWYDDYN

O BROFIAD

Ffôn - 01286 677668

Symudol - 07940023159

Gladwyn,
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4AG

Ebost - lisa.huw@btinternet.com

Cwôt di-dal

20 www.ecorwyddfa.co.uk

Elusen Dyffryn Peris

Gan obeithio i chi gael Pasg hapus (o dan yr amgylchiadau!) ... erbyn i chi ddarllen hwn mi fydd yna ddeufis wedi hedfan heibio ers i'n herthygl am sefydlu Elusen Dyffryn Peris ymddangos yn yr Eco - wnaethoch chi ei darllen? Gawsoch chi eich symbylu i wireddu breuddwyd?

Mae hi'n fis ers i wefan yr Elusen fod yn weithredol (ac mae'r ochr Saesneg i fyny rŵan) ac mae cyfnod ymgeisio arall o Ebrill ymlaen i chi ymgeisio am arian ar gyfer prosiectau amgylcheddol yn nalgylch yr Eco. Eisoes mae £10,000 yn y gronfa - sef cyfraniad gan Ynni Padarn Peris o gynllun heidro cymunedol ar Afon Goch.

Un cais yn unig a gafwyd yn y mis cyntaf - felly, pan ddown allan

o'r trydydd Cyfnod Clo tywyll yma efallai y cewch chwithau gyflawni un o'ch breuddwydion chi a dod ag ychydig o heulwen i'n bywydau ni yma yn Nyffryn Peris.

Byddwn yn derbyn ceisiadau yn chwarterol ... 1af Ionawr - 31ain Mawrth, 1af Ebrill - 30ain Mehefin, 1af Gorffennaf - 30ain Medi a 1af Hydref - 31ain Rhagfyr. Fe wnawn ein gorau i ymateb i'ch cais o fewn pythefnos i'r dyddiad cau.

Er mwyn bod yn llwyddiannus rhaid i'r ceisiadau gyflawni un o nodau'r Elusen. Dyma'r mathau o brosiectau a gefnogir:

- Lleihau tldi tanwydd,
- Hyrwyddo ynni adnewyddadwy,
- Hybu trafniadaeth gynaliadwy,

Elusen Dyffryn Peris



- Annog busnesau i arbed ynni,
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd,
- Lleihau gwastraff,
- Hybu unigolion i wirfoddoli yn eu cymunedau,
- Hybu ymarfer corff yn y gymuned,
- Helpu dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg i gynnal natur ddwyieithog ein cymuned.

Fe ddylai ymrwymiad i'r iaith Gymraeg fod yn amlwg yn unrhyw brosiect. Gall unigolion neu grwpiau ymgeisio am y grantiau.

Ewch at www.elusendyffrynperis.cymru i ddarllen y Canllawiau ac i lawrlwytho neu lenwi Ffurflen Gais - mae gennym dudalen Facebook hefyd - @ElusenDyffrynPeris

DINORWIG

Newid tymor

Do, fe ddaeth y gwanwyn, a braf cael cefnu ar y gaeaf nad aiff byth o'r cof: gwyntoedd cryfion a gwlyb a llawer o lanestr. Er na chawsom fawr o eira, fe ddaeth hwnnw yn sgil y gwanwyn, ac wedi Pasg heulog ac eithaf cynnes daeth yr eira a'r oerni, a'r eira at ein drysau yma yn Ninorwig. Cyfnewidiol iawn - a rhy gynnar i feddwl am gadw dillad gaeaf eto! Mae llygad pawb yn troi at y gerddi bellach a phopeth yn blaguro. Y briallu, llygad-y-dydd a'r cennin Pedr yn croesawu'r gwanwyn, ond dant y llew hefyd yn rhybudd fod tymor y chwynnu wedi cyrraedd. Braf gweld y plant yn cael dychwelyd i'r cae chwarae, ac er fod torri gwair wedi ei wneud, mae'r ymylon yn llawn danadl poethion ac yn broblem i'r plant ieuengaf os yw eu pêl yn cael ei chicio i'w canol. Mae gwir angen gwella safon y cae yn hytrach na gweld rhai o'r plant yn chwarae ar y ffordd.

Yr Allt Ddu

Erbyn hyn mae'n wybyddus i bawb drwy'r fro fod yr Allt Ddu yn hynod boblogaidd, a phobl wedi heidio yma dros y blynyddoedd diwethaf. Yn blentyn, dim ond bws Joni Hughes, bws Crosville a bysus gwaith y chwarel oedd yn cyrraedd yno. Erbyn hyn daeth newid mawr - er gwell tybed? Mae cynnydd mewn trafniadaeth gan gynnwys pobl a'u cŵn, ac yn anffodus, sbwriel ym mhobman. Pam tybed mai un bin sbwriel yn unig sydd yno? Mae angen mwy. Mae hefyd angen rheoli y rhai hynny sy'n aros dros nos yno - a dim toiled ar eu cyfyl. Yn sicr, mae'r broblem yn gwaethygu, ac mae'n hen bryd i'r rhai sy'n gyfrifol am y safle chwilio am atebion i'r problemau hyn.

Cofeb y Chwarelwyr

Da gweld fod Llanberis am ddilyn yr ardal hon a chael cofeb i'r chwarelwyr. I'r diwedd Mr Ray Bower a'i wraig y mae'r diolch pennaf am gael y

gofeb yn yr Allt Ddu, ac y mae Mrs Betty Bower yn parhau i ofalu fod y gofeb a'r tir o'i chwmpas yn cael ei gadw'n daclus. Os deallaf yn gywir, Cyngor Gwynedd a gweithwyr Inigo Jones, Groeslon sydd yn gyfrifol fod dwy sêl i'w gosod o boptu'r gofeb. Gobeithio y bydd Llanberis yn llwyddiannus gyda'u hymdrech hwythau.

Er Gwybodaeth - derbyniwyd wybodaeth yn nodi NA FYDD llinellau melyn yn cael eu gosod ar y ffordd yn ardal Yr Allt Ddu.

Gwellhad Buan

Cafodd Idris, sy'n bump oed, ac yn byw yn 6 Bro Elidir wellhad llwyr ar ôl y Covid-19. Mae'n hollriach bellach ac yn barod i wneud triciau fel pob plentyn iach unwaith eto. Cofion annwyl at bawb sydd ddim yn dda neu mewn cartref gofal. Brysiwch wella erbyn i gynhesrwydd y gwanwyn ddod a llawenydd i chi.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

Y Storfa, Spar, Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

Mae yna fachgen bach arbennig iawn yn byw yn Nant Peris, hogyn efo calon fawr a thraed bach prysur. Mae Elis Cumberton wedi cwblhau her gerdded er mwyn codi arian ar gyfer Eglwys Sant Peris.



Elis yn cychwyn ei her gerdded



Penderfynodd Elis y byddai'n cerdded 20 milltir dros 10 diwrnod, ac yntau'n ddim ond 4 oed!

Doedd yna ddim am ei ddal yn ôl, ddim hyd yn oed y tywydd oer a'r eira a gawsom y 'gwanwyn' hwn. Bu'n cerdded yn lleol o amgylch llyn Padarn, ond fe fentrodd draw am Ynys Môn hefyd er mwyn cael mynd i gerdded ar Ynys Llanddwyn. Roedd wrth ei fodd yn cael mynd i Landdwyn (yn yr haul diolch byth!) ar ôl dysgu am hanes Dwynwen yn yr ysgol.

Cwblhaodd ei her fawr yn yr eira ar 9fed Ebrill gan orffen yn yr Eglwys a'i groesawu gan y Parchg Allan Wilcox a'i wraig Mrs Helen Wilcox, Warden yr Eglwys, a chyflwyno siec am dros fil o bunnau.

Mae Covid-19 wedi effeithio ar allu'r Eglwys i gynnal unrhyw weithgareddau codi arian dros y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd methu cynnal y ffair Nadolig yn ergyd drom. Dyma pam y penderfynodd Elis y gallai o helpu drwy wneud her gerdded nodedig i godi arian. Er ei fod wedi gorffen yr her, mae Elis



Elis ar Ynys Llanddwyn

yn dweud y gallwch ddal i gyfrannu os hoffech - chwiliwch am dudalen 'Elis yn codi arian i Eglwys Sant Peris' ar Facebook, neu gallwch gyfrannu arian drwy aelodau'r teulu.

Llongyfarchiadau mawr i chdi Elis, da iawn wir, mae pawb yn falch iawn, iawn ohonot ti.



Elis yn cael ei groesawu i Eglwys Sant Peris gan y Parchg Allan Wilcox a'i wraig Mrs Helen Wilcox, Warden yr Eglwys ar ddiwedd ei daith

10 DEG Y DYSGWYR

Cyfle i ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg newydd yr ardal drwy gyfrwng deg cwestiwn yr Eco.



Enw: Yankier Perez

Byw yn: Llanrug

Gwaith a diddordebau: Ar hyn o bryd rwy'n gwneud PhD mewn Economeg Iechyd ym Mhrifysgol Bangor. Rwyf hefyd yn gweithio fel technegydd fferyllfa yn Ysbyty Gwynedd yn achlysurol. Rwy'n mwynhau cerdded a beicio gyda'r teulu, gwylio ffilmiau a choginio bwyd Cwbanaid

1. Roeddwn i eisiau dysgu Cymraeg oherwydd:

Roedd yn ffordd o barchu'r gymuned ble rydw i'n byw. Mae teulu fy ngwraig hefyd yn siarad Cymraeg a sylwais eu bod bob amser yn newid i'r Saesneg pan oeddwn gyda nhw. Rydw i'n falch nad yw hynny'n digwydd bellach.

2. Fel hyn rwy'n dysgu Cymraeg:

Dysgais Gymraeg drwy wyllo llawer o S4C a siarad â theulu, cydweithwyr a ffrindiau. Roedd hi'n anodd iawn ar y dechrau achos mae pawb sy'n siarad Cymraeg hefyd yn siarad Saesneg (ddim yn siŵr am Batagonia, ond o leiaf y bobl dwi'n cwrdd yn ddyddiol yng Nghymru) ac mae rhai pobl yn tueddu i fynd yn rhwystredig, yn enwedig ar y dechrau.

3. Y peth gorau am ddysgu Cymraeg yw:

Gallu cyfathrebu â llawer o bobl yn eu mamiaith. Mae pobl sy'n siarad Cymraeg bob amser yn ddiolchgar iawn ac mae'n adwaith hyfryd pan fyddan nhw'n sylwi fy mod i'n estron (fy acen) ond gallaf gyfathrebu yn Gymraeg. Mae rhai pobl yn dweud bod fy acen Gymreig yn fwy naturiol na fy acen Saesneg.

4. Y peth gwaethaf am ddysgu Cymraeg yw:

Rwyf bob amser yn ceisio bod yn gadarnhaol iawn, byddai'n well gennyf ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol na'r pethau negyddol. Gallaf gyfrif y profiadau negyddol ar un llaw, gallwn siarad am ddyddiau am y rhai cadarnhaol.

5. Dyma fy hoff air neu ddywediad Cymraeg, a pham:

Fy hoff air yw Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogoch. Dyma'r hiraf yn yr iaith, rwy'n credu; a'r enw lle un gair mwyaf yn Ewrop, a'r ail yn y byd. Cymerodd amser i mi ddysgu sut i'w ynganu.

6. Gall siaradwyr iaith gyntaf helpu dysgwyr drwy:

Fod yn amyneddgar. Yn gyffredinol, mae athrawon Cymraeg yn amyneddgar iawn gyda dysgwyr ond mae'r boblogaeth ehangach weithiau'n mynd yn ddiamynedd ac yn newid i'r Saesneg.

7. Fy moment fwyaf balch wrth ddysgu:

Mae llawer i fod yn onest. Mae'n arbennig cwrdd â pherson sy'n siarad Cymraeg a gweld yr adwaith pan sylweddolant fy mod yn dod o Giwba a gallaf gyfathrebu â nhw yn eu mamiaith - mae'n amhrisiadwy.

8. Fy helynt mwyaf wrth ddysgu:

Darllen ac ysgrifennu. Rydw i'n gallu cyfathrebu'n eithaf da, ond pan ddaw'n fater o ysgrifennu a darllen rwy'n cael trafferth. Mae'n her anodd.

9. Roeddwn i'n gyrru fy hun i barhau i ddysgu drwy:

Fy nheulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr yn y fferyllfa yn Ysbyty Gwynedd - roedden nhw'n dysgu geiriau ac ymadroddion newydd i mi bob dydd. Gwelsant y cynnydd ac roeddent bob amser yn fy annog i ddal ati.

10. Dyma beth mae'r Gymraeg yn ei olygu i mi:

Mae'n amhosib disgrifio. Agorodd yr iaith bersbectif newydd mewn bywyd i mi yn ogystal â rhoi llawer o ffrindiau a phrofiadau newydd i mi. Yr wyf yn siŵr bod llawer o rai eraill i ddod. Rwy'n falch iawn o allu siarad yr iaith a chredaf y dylai pawb sy'n byw yng Nghymru roi cynnig arni.

LLANBERIS

Codi arian at Hosbis Dewi Sant

Bydd Gareth Roberts o Fenter Fachwen a Bet Huws yn cerdded Llwybr y Pererinion o Lanberis i Aberdaron yn ystod Wythnos Cymru Garedig / Dying Matters in Wales, sef Mai 10-16. Byddant yn codi arian tuag at Hosbis Dewi Sant, ac os hoffech gyfrannu gallwch wneud hynny drwy wefan yr Hosbis: stdavidshospice.enthuse.com/pf/bet-huws-gareth-roberts-732fa-dbad7



Eglwys Sant Padarn

Mae eglwys Sant Padarn bellach wedi ail agor ar gyfer gwasanaethau ar y Sul. Cynhelir gwasanaeth bob bore Sul am 11:00am. Yn anffodus, nid yw'n agored yn ystod yr wythnos ar hyn o bryd.

Addurno'r ardd

Fe gafodd yr ardd gymunedol, ger Meddygfa Llanberis, ei haddurno ar gyfer y Pasg gyda bunting, pom-poms ac addurniadau Pasg. Roedd y cyfan wedi eu gweu a'u crosio gan grŵp crosio Llanberis. Bu'r merched hefyd yn brysur yn tacluso'r ardd ac mae yn le hyfryd i'r gymuned fynd yno i eistedd. Cafodd yr ardd ei haddurno yn gyntaf ar gyfer y Nadolig, ac eto at y Pasg; beth nesa tybed?



Arddangos hen luniau o'r Orsaf

Ydych chi'n cofio'r hen orsaf drenau yn y pentref? Gallwch fynd draw i siop Llanberis Art & Craft i weld

arddangosfa o hen luniau a hanes yr hen orsaf. Diolch yn fawr i'r nifer o bobl leol sydd wedi menthyg eu lluniau er mwyn eu harddangos.

Capel Coch

Hyd yma, nid ydym wedi ail ddechrau oedfaon yn y Capel. Cawn weld a fydd modd gwneud hynny cyn bo hir. Mae Gronyn, ein taflen wythnosol, yn dal i gael ei chyhoeddi a'i dosbarthu bob Sul, a cheir ynddi fraslun o oedfa ynghyd â'r neges a'r newyddion arferol. Mae gennym, ar y cyd ag eglwys eraill Gofalaeth Fro'r Llechen Las, oedfa ffôn am 10:00am ac oedfa Zoom am 5:00pm bob Sul. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni yn yr oedfaon hyn os nad oes gennych oedfa arall i fynd iddi. Mae'r Ysgol Sul trwy gyfrwng Zoom am 11:15am hefyd, a diolchwn i Susan Williams am ei holl waith yn trefnu a pharatoi ar gyfer yr Ysgol Sul. Mae'r Gweinidog hefyd yn arwain oedfaon ar sianel Youtube Capel Tanycoed, Llanrug yn rheolaidd. Dyma sut i ymuno â'r oedfaon hyn:

Oedfa Ffôn am 10.00 o'r gloch : Ffoniwch 0333 0164 757. Yna pan ofynnir am y 'Conference Room Number', deialwch 54265432 a phwyso'r botwm # ar ei ôl. Yna pan ofynnir am y 'PIN' deialwch 1210 a phwyso'r botwm # ar ei ôl.

Oedfa'r Ofalaeth am 5.00 o'r gloch: Anfonwch ebost at y Gweinidog, John Pritchard i gael y cod neu'r ddolen i'r oedfa Zoom (john.cilfynydd@btinternet.com).

Oedfaon Youtube: Ewch i sianel Youtube 'Capel Tanycoed' unrhyw bryd i gael yr oedfa a ddarperir gan Gapel Tanycoed, Llanrug. Mae'r Gweinidog yn arwain yr oedfa hon bob pythefnos o leiaf. Mae holl oedfaon y flwyddyn ddiwethaf i'w gweld yno.

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am y yr oedfaon hyn ffoniwch y Gweinidog ar 01286 872390.



Casglu sbwriel

Er na fedr grŵp gwirfoddol Pentref Taclus Llanberis fynd allan mewn criw i godi sbwriel, mae unigolion wedi parhau gyda'r

gwaith o amgylch y pentref. Yn dilyn cytundeb a chydweithio diweddar rhwng Pentref Taclus, Raw Adventure a Chymdeithasu Eryri bu'r gwirfoddolwyr lleol allan

yn casglu naw bag bin mawr o sbwriel. Diddorol hefyd oedd cael hyd i ddarn o hen bapur newydd o 1969 a hen gan yfed Vimto! Mae'r gwaith pwysig yma'n gwneud

gwahaniaeth mawr i'r pentref. Os oes unrhyw un angen menthyg yr offer codi sbwriel cysylltwch â'r grŵp trwy Facebook @pentrefaclusllanberistidyvillage

Cais am Ohebydd

Ni fu ymateb, hyd yma, i'r cais am Ohebydd i dderbyn newyddion am ddigwyddiadau yn y pentref. Mae'n bentref bywiog gyda nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ac mae pawb yn falch o gael gwybod pa weithgareddau sy'n digwydd. Cofiwch fod posib i fwy nag un holi am y newyddion ar y cyd - fel bu Ann a Liz yn ei wneud yn y gorffennol. Gobeithir bydd ymateb erbyn y rhifyn nesaf - dyddiad derbyn cynnwys rhifyn mis Mehefin yw 14eg Mai - gallwch yrru'r newyddion i ecorwyddfa@gmail.com. Diolch o galon i chi.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â Bethan a Gwyn yn eu profedigaeth o golli mam Bethan, mam yng

nghyfraith a nain falch Aron ac Alex.

Er cof

Dymuna Rhian, Emyr a Katy a theulu'r ddiweddar Eiriona, Glyn Euron, Penisarwaun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain, chwaer a ffrind annwyl iawn.

Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn wasanaeth cynnes a theimladwy'r Parch. Marcus Wyn Robinson a chefnogaeth a threfniadau gofalus Meinir o gwmni Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaun. Bu'r cyfan yn gysur a chynhaliueth mewn cyfnod anodd.

Cydnabyddir, yn ddiolchgar iawn, y rhoddion hael er cof am Eiriona fydd yn cael eu rhannu

rhwng Uned Dydd Alaw, Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Waunfawr mewn cydnabyddiaeth o'r gofal arbennig a gafodd ganddynt.

Cofion

Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref gan ddymuno adferiad iechyd buan. Rydym yn anfon ein cofion at Pat Larsen sy'n gwella yn Ysbyty Eryri, Caernarfon wedi codwm yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Mrs Blodwen Mowll, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau ac anrhegion hyfryd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar 31ain Mawrth.



Ysgol Penisarwaun

Dychwelyd i'r ysgol

Braf oedd cael croesawu disgyblion yr Adran Iau yn ôl ganol mis Mawrth. Mae'r hen blant os wrth eu boddau bod yn ôl a chael cymdeithasu wyneb yn wyneb gyda'i gilydd.

Wythnos Genedlaethol y Gweilch

Bu disgyblion yr Adran Iau yn ymddiddori yn nychweliad Gweilch y Pysgod i Ganolfan Glaslyn yn ddiweddar. Buom yn gwyllo'r nyth ar gamera byw a balch iawn oedd y disgyblion o

weld Mrs G yn dychwelyd i'r nyth ganol yr wythnos genedlaethol. Cafwyd pleser mawr yn dysgu am y gweilch drwy gydol yr wythnos a diolch i ganolfan Gweilch "Bywyd Gwyllt Glaslyn" am anfon gweithgareddau dyddiol i'r ysgol yn ystod y cyfnod. Edrychwn ymlaen yn awr i weld yr wyau yn deor ar y nyth.

Ymddeoliad

Hoffem fel ysgol ddymuno ymddeoliad hapus iawn i Anti Liz (Liz Jones) sydd yn ymddeol

o'i swydd fel ysgrifenyddes a chlerc yr ysgol. Bu Anti Liz yn weithgar iawn yn yr Ysgol Gymuned ac yn Ysgol Tan y Coed dros y blynyddoedd gan roddi bron i 35 mlynedd o wasanaeth. Ar ran staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgol, hoffem ddiolch o galon i chwi Anti Liz am eich ymroddiad, eich gwaith caled, eich cyfeillgarwch a'ch caredigrwydd tuag at bawb dros y blynyddoedd. Dymunwn adferiad iechyd buan i chwi ac ymddeoliad hapus iawn.

Myfyrwraig

Mae Miss Elen Jones, myfyrwraig o Brifysgol Bangor, wedi ymuno efo'r dosbarth Cyfnod Sylfaen dros yr wythnosau diwethaf, diolch iddi am ei gwaith caled a'i chymorth yn y dosbarth. Bydd Miss Jones yn symud i'r Adran Iau ar ôl gwyliau'r Pasg. Edrychwn ymlaen i gydweithio â hi a dymunwn y gorau iddi ar ei phrofiad ysgol olaf cyn iddi gymhwyso ddiwedd y flwyddyn.

Arian y Loteri Genedlaethol i helpu cymunedau Cymru i addasu ac adfer

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl a chymunedau drwy Covid-19. Mae grantiau wedi cael eu hehangu i helpu cymunedau ledled Cymru i edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cynnal sesiwn gymorth rithiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer grwpiau cymunedol ac elusennau ar 26 Mai. Bydd y sesiwn yn rhoi mwy o wybodaeth i gymunedau ledled Cymru am wneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol ac yn atgyfnerthu'r blaenoriaethau ariannu newydd. Maen nhw'n arbennig o awyddus i siarad â grwpiau cymunedol nad ydynt wedi gwneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol o'r blaen.

Dyweddodd Ruth Bates, Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, "Dydy ein rôl ni fel ariannwr gweithgaredd cymunedol erioed wedi bod mor bwysig. Rydym yma i gefnogi grwpiau cymunedol ac elusennau i gael mynediad at arian Loteri Genedlaethol. Rydym yn

canolbwyntio'n arbennig ar gefnogi grwpiau i addasu, adfer a ffynnu. Mae ein timau ariannu i gyd yn gweithio gartref ac yn barod i siarad â chi am eich syniadau i gefnogi cymunedau drwy'r cyfnod digynsail hwn, a thu hwnt i hynny.

"Rydym am ariannu prosiectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau, a gwyddom mai'r prosiectau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sydd wedi'u datblygu gan y bobl a fydd yn elwa ohonynt. Rydym hefyd yn deall bod hwn yn gyfnod heriol i sefydliadau'r trydydd sector, ac felly rydym yn cefnogi grwpiau'n rhagweithiol drwy gynnig cymorth datblygu sefydliadol."

Mae grantiau, a wnaed yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ar gael i gefnogi sefydliadau i addasu, adfer a ffynnu drwy raglenni Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a Pawb a'i Le.

Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn dyfarnu hyd at £10,000 ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cymunedol, gan gynnwys prosiectau sy'n ymateb i bandemig Covid-19.

Mae Pawb a'i Le yn dyfarnu hyd at £500,000 i gymunedau gydweithio i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ariannu datblygiad sefydliadol fel rhan o'r prosiect ac mae Gwiriwr Cryfderau wedi'i ddatblygu i helpu cwsmeriaid i nodi cryfderau eu cymuned er mwyn adeiladu arnynt.

Ers mis Ebrill 2020, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu dros £20 miliwn i elusennau a chymunedau ledled Cymru sy'n newid bywydau ac yn cynnig gobaith i lawer o'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig. Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn bob wythnos ar gyfer achosion da ledled y DU.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r sesiwn rithiol ar ddydd Mercher, 26ain Mai, cysylltwch â fflur.davies@cronfagymunedolyg.org.uk. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ariannu: cronfagymunedolyg.org.uk/cymru

Garddio



Wrth ysgrifennu hwn ym mis Ebrill mae'r Wyddfa'n wyn, y cenllysg yn drybowndian hyd y llwybr ac roedd hi'n farrug ben bore heddiw. Ond er gwaetha'r dechrau oer a'r eira ym mis Ebrill mae'r haf ar ei ffordd! Fel mae bylbiau'r gwanwyn yn darfod mae'r borderi'n dechrau tyfu o ddifri. Gallwch ddechrau plannu hadau yn syth i'r ardd, os nad yw'n bwrw eira, ac o ganol y mis ymlaen gallwch blannu'r blodau blwyddol.

Gellir cymryd toriadau oddi ar goed meddal. Mi fydd angen torri'r lawnt yn rheolaidd rŵan.

Tasgau

1. Gwylwch rhag nosweithiau oer, barugog. Mi fydd angen amddiffyn planhigion nad ydynt wedi arfer â bod allan.
2. Mae angen priddo'r tatws wrth iddyn nhw dyfu. Os oes rhai dros ben, mae'n hen bryd eu plannu. Os yw'r dail wedi tyfu drwy'r pridd a'i bod yn barugo, taenwch ddŵr cynnes drostynt yn gynnar yn y bore ac mi ddylien nhw fod yn iawn.
3. Plannwch y blodau blwyddol yn ail hanner y mis. Cofiwch eu gadael allan yn ystod y dydd ac wedyn dros nos am ryw wythnos, cyn mentro eu plannu allan yn yr ardd neu'r tybiau/bocsys. Gallwch daenu fleece drostynt os ydych wedi mentro eu plannu ac y daw hi'n gyfnod oer iawn.
4. Ystyriwch ddulliau o gasglu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr. Mae dŵr glaw yn fwy bendithiol i blanhigion ac mae'n rhad! Mae sawl casgen ddŵr acw, wedi eu cysylltu i'r beipen sy'n dod lawr o'r lander! Safio dŵr – yn enwedig os ydych chi ar fesurydd dŵr, ac mae'n well i'r amgylchedd.
5. Dylai'r hof fod yn brysur iawn y mis hwn. Mae'n talu ar ei ganfed i'w ddefnyddio'n aml rhag i'r chwyn gael gafael.
6. Agorwch ddrws a ffenestri'r tŷ gwydr ar ddiwrnod cynnes. Os yw'n rhy boeth taenwch ddŵr ar y llawr i gadw'r aer yn llaith, bydd y ciwcymerau wrth eu bodd ac mae'n ffordd dda o gadw'r 'red spider mite' i lawr.
7. Torrwch y lawnt bob wythnos ond gochelwch rhag ei dorri'n rhy isel os yw hi'n cynhesu ac yn sychu neu fe all y gwair losgi.
8. Cyn i chi dorri gwrychoedd, archwiliwch nhw yn ofalus rhag ofn bod adar yn nythu ynddyn nhw.
9. Gallwch godi'r cennin Pedr a bylbiau eraill y gwanwyn a rhannu clystyrau mawr ohonyn nhw. Peidiwch â thocio'r dail – mae'r bylbiau angen y maeth. Da o beth yw eu bwydo efo gwrtaith hylifol, drwy'r can dŵr, i sicrhau blodau hyfryd ar gyfer y gwanwyn nesaf. Bydd yr azaeleas, rhododendron a'r tiwlips allan ym mis Mai ac yn sblash o liw cyn i bopeth arall flodeuo. Os yw eich pridd yn

fawnog neu'n acidic bydd yr azaelea a'r rhododendron wrth eu bodd.

Mae'r tymor plannu yn ei anterth. Gallwch barhau i blannu bron bob llysieuyn:

Tatws: Does gen i ddim llawer o dir i blannu llysiau ond mae 'Estima', 'Cara' a 'Desiree' yn datws diweddar dibynnol. Rwyf am blannu ychydig o datws Pink Fir Apple yn fy raised bed gan eu bod yn hynod flasus, yn anodd eu prynu yn y siopau ac yn cadw'n dda. Plannwyd tair taten Sharpe's Express mewn mawn yn y tŷ gwydr ar 21ain o Fawrth. Rwyf wrthi'n eu priddo, tan fydd y twb yn llawn. Byddan nhw'n barod i'w bwyta erbyn diwedd mis Mai neu ddechrau Mehefin gobeithio. Byddaf hefyd yn plannu rhyw dair neu bedair yn y raised bed pan yw'n cynhesu dipyn. Mae'r pethau rydach chi'n eu tyfu eich hun bob amser yn blasu'n well.

Moron: Eleni rwyf wedi arbrofi efo bob math o foron amryliw megis Purple Haze F1, F1 Purple Skin a Rainbow F1 – edrych ymlaen at weld sut fyddan nhw. Pan ydach chi'n berwi rhai piws mae'r dŵr yn y sosban yn troi'n biws – er mawr ddifyrwrch i'r plant! Ond os am foronen ddibynnol hawdd i'w thyfu mae 'Nantes'

gystal â dim. Dydy hi ddim yn foronen rhy fawr, does dim canol rhy fawr iddi, mae'r blas yn wych ac mae'n cadw'n dda. Dylwn nodi hefyd mai 'caraints' faswn i'n ei ddweud ar lafar...

Nionod: 'Stuttgarter' a 'Kelsae' yw'r dewis. Fe gadwodd y rhain tan fis Ebrill eleni. Mae'r blas yn dda a dydyn nhw ddim yn tyfu'n rhy fawr. Mi fyddaf hefyd yn hau Ishukura bob ryw bythefnos o ddiwedd Ebrill tan ddiwedd Gorffennaf er mwyn sicrhau cnwd o nionod salad (spring onions) dros gyfnod yr haf.

Ffa: Ar ôl cael fy siomi gyda'r 'Sutton Dwarf' llynedd 'Aquadulce' blannwyd eleni, sy'n hen ffefryn.

Pys: Gallwch blannu pys cynnar unrhyw amser, hyd yn oed yn hwyr yn y tymor! Yr hen ffefrynnau yw 'Kelvedon Wonder' ac 'Onward'.

Ffa Ffrengig: Os ydych yn brin o le, fel finnau, mae 'Cobra' yn dringo'n uchel.

Cennin: 'Musselburgh' yw'r dewis. Dydy hi ddim yn tyfu'n rhy fawr ond mae hi'n flasus. Mae hefyd yn cadw'n dda rhag unrhyw bla.

Betys: Mae 'Boltardy' yn ddiguro. Nid yw'n rhedeg i had yn hawdd. Rydw i hefyd am blannu 'Red Titan F1' eleni – gan nad ydynt i fod i hedeg!

Ffa Dringo: 'Enorma' ddewiswyd llynedd.



Eleni rwyf am drio 'Lady Di' sy'n flasus, tyfu'n gryf, rhoi cnwd da a heb lawer o linynt. Mae'n dibynnu'n hollol pa mor wyntog fydd hi acw ddiwedd yr haf ar sut gnwd fydd arni.

Bresych: Dwy hen ffefryn yw 'Primo' a 'Greyhound' ond 'Durham Early' blannwyd i gael dail gwyrdd yn gynnar.

Letys: 'Mixed Leaf Contrasts' eisoes wedi eu plannu yn y tŷ gwydr ond byddaf yn hau rhesi byr drwy gydol yr haf ac yn cynaeafu'r dail ifanc, gallwch eu torri hyd at bedair gwaith. Neu gallwch eu gadael i dyfu'n letys o lawn maint. Byddaf hefyd yn hau 'Rocket Gourmet' yn yr un modd i gael blas dipyn yn gryfach.

Tomatos: Tyfais a chefais gasgliad amrywiol y llynedd yn ystod y Cyfnod Clo ond roedd gormod yn y tŷ gwydr ar draul y planhigion eraill, er cafwyd cnwd da. Eleni rwyf wedi tyfu dau hedyn (o baced llynedd) o 'Sungold' yn y propagator trydan, sydd bellach ar y silff ffenest yn disgwyl cael eu rhoi mewn potiau. Pan fydd hi'n gynhesach byddaf yn prynu planhigion megis 'Money Maker', 'Shirley', 'Ailsa Craig', 'Alicante' neu 'Gardener's Delight' yn y Ganolfan Arddio leol ond dim mwy na dau blanhigyn arall eleni. Gair i gall!

Rhosyn Mynydd

Ysgol Waunfawr



Mrs Hannah Williams




Mrs Sioned Jones

Bu'n braf iawn gweld holl ddisgyblion yr ysgol yn dychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnod hir iawn adref. Mae'r ysgol yn dychwelyd yn araf i'r holl weithgareddau arferol ac mae bwrllwm a brwdfrydedd y disgyblion yn codi ein calonnau.

Yr ydym yn ffarwelio gyda Mrs Sioned Jones a Mrs Hannah Williams am y tro, gan eu bod yn cychwyn ar eu cyfnodau mamolaeth cyn hir. Dymuniadau gorau i'r ddwy ac edrychwn ymlaen at glywed y newyddion

yn yr haf. Yn y cyfamser, yr ydym yn croesawu Mrs Siân Herbert a Mrs Gwenan Elis Jones yn aelodau llawn amser o staff yr ysgol. Yr ydym hefyd yn croesawu Anti Tesni atom am gyfnod, i gynorthwyo yn y dosbarth Meithrin.

Hoffwn ddiolch yn fawr i aelodau pwyllgor Cyfeillion Ysgol Waunfawr am eu gwaith caled o godi nawdd i'r ysgol drwy raffl y Pasg - casglwyd £376 i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r tymor nesaf.



Disgyblion Dosbarth Yr Wyddfa yn dychwelyd i'r ysgol



Disgyblion Moel Eilio yn dathlu diwrnod y llyfr



Ena Roberts wedi cael llwyddiant yn yr Eisteddfod Rithiol yn ddiweddar



Dathlu Gŵyl Dewi yn rhithiol



Diwrnod Y Llyfr Ar Google Meet



WAUNFAWR

Pêl-droed – Academi Caernarfon
Er nad yw timau'r pentref yn cael cyfle i chwarae gemau cystadleuol ar hyn o bryd, mae'n braf gwybod bod pump o hogiau'r pentref wedi eu dewis i chwarae dros Academi Pêl-droed Caernarfon, ac oherwydd hynny'n cael parhau i chwarae mewn gemau cystadleuol. Y pump yw Gruff a Cai

Jones, Bryn Golau; Alffi Harries, Bryn Eithin; Osian Tomlinson, Stâd Croesywaun ac Osian Llewelyn, Ael y Bryn. Maent hefyd wedi parhau i weithio ar eu ffitrwydd drwy gydol y Cyfnod Clo drwy cael sesiynau ioga, ffitrwydd a sgiliau pêl-droed ar Zoom. Da iawn chi hogiau, a dymuniadau gorau i chi i gyd i'r dyfodol.



Gruff Jones, tim dan 16 Tref Caernarfon



Cai Jones, tim dan 13 oed Tref Caernarfon



Disgyblion yn datlu Gŵyl Ddewi yn yr ysgol



Osian Tomlinson tim dan 16 oed Tref Caernarfon

Newyddion S4C

Un o'r eitemau difyrff ar y newyddion yn ddiweddar oedd eitem ar sut roedd gweithwyr Antur Waunfawr yn ymdopi â'r pandemig. Gwelsom Anwen Fletcher a Ryan yn cael eu cyfsweld, ac yn sôn am effaith y pandemig ar eu bywydau, a'u bod yn edrych ymlaen at symud ymlaen o'r Cyfnod Clo. Gwelsom Menna Jones, Prif Weithredwraig yr Antur yn sôn am yr heriau i'r gwasanaeth, a'r colledion ariannol. Gobeithio y byddwn fel pentrefwyr yn gallu rhoi cefnogaeth ychwanegol i weithgareddau'r Antur pan fyddant yn gallu ail agor y caffï a'r siop.

Diolchiadau

Dymuna Kevin, Olwen, Tomos a Cai, Cartrefle ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain arbennig. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at Ymchwil Alzheimer er cof am Nancy.

Dymuna Garry, Nia, Dafydd, Aled ac Iwan ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd y teulu yn dilyn marwolaeth mam Garry yn ddiweddar.

Yn yr Ysbyty

Rydym yn cofio yn gynnes iawn am Doris Roberts, Olwen Owen ac Ann Thomas sydd i gyd wedi bod yn yr

ysbyty yn ddiweddar. Mae Ela, 15 Stâd Ty Hen hefyd wedi disgyn a thorri ei choes. Gobeithio eich bod i gyd yn teimlo'n well.

Cydymdeimlo

Cafodd nifer o deuluoedd y pentref brofedigaethau yn ystod y mis aeth heibio.

Bu farw tad Dean Clarke, Pant Waen; colodd Menna Griffith, Blaen y Nant ei thad; bu farw Glenys Williams, Tŷ'n Weirglodd, Betws Garmon; bu farw mam Meinir, Clyd y Coed, oedd yn byw yn Nhrawsfynydd a chwaer hynaf Dylan Rhys Jones.

Clywsom hefyd am farwolaeth Eira Wyn, Llwyn Celyn gynt, merch Gwilym John a Sheila Roberts.

Rydym yn cofio atoch i gyd fel teuluoedd ac yn cydymdeimlo yn ddiwyll iawn â chi yn eich colled a'ch hiraeth am eich anwyliad.

Plaid Cymru

A ninnau ar drothwy etholiadau Senedd Cymru, bu'n fraint i ni fel cangen gael hebrwng Sian Gwenllian ein hymgeisydd o amgylch rhai o gartrefi'r ardal er mwyn dosbarthu taflenni. Duncan a Gill Brown oedd yr aelodau oedd yn cefnogi Sian Gwenllian i ddosbarthu taflenni'r tro hwn, a bydd yn ymweld â'r pentref eto o fewn yr wythnosau nesaf er mwyn rhoi cyfle i etholwyr ei chyfarfod a thrafod materion sydd yn bwysig iddynt.

CAEATHRO

Capel

Ar yr 2il Mai, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson am 2.00pm. Gan y bydd Marcus yn ymddeol ddiwedd mis Hydref, bydd gofyn i Aelodau'r Eglwys ystyried pa fath o weinidogaeth a gofal bugeilio yr hoffem ei dderbyn gan y Gyfundeb yn y dyfodol. Bydd y broses yn debygol o fod yn un hir, ac yn unol â'r trefniadau a rheolau arferol, bydd pleidlais ar gyfer pob Aelod a fydd yn bresennol. Bydd cyfle i drafod canlyniad pleidlais yr Aeoldau, yn ogystal ag ystyried y Fantolen a materion eraill, yn ystod y Cyfarfod Blyneddol a fydd yn dilyn y Gwasanaeth am oddeutu 3.00pm. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei

rannu maes o law.

Pen-blwydd arbennig

Carem ddymuno'n dda i Glenda Hughes, Llyn Gele wedi iddi ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhys ac Elin, Ty'n y Coed ar enedigaeth eu merch fach, Begw, yn ddiweddar.

Diolch

Neges gan Bethan Iwan, Carrog, Rhos Bach – diolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a chyfarfodion a dderbyniad ar gyrraedd fy mhen-blwydd yn 60 yn ddiweddar. Rwyf yn gwerthfawrogi pob un ohonynt.

Perchnogion Erw Pwll y Glo

Er na ddaeth y cyfle i ymweld â'r Archifdy yng Nghonwy i chwilio drwy ddogfennau arwerthiant Erw Pwll, eto i gyd, daeth mwy o wybodaeth am y perchnogion o wneud gwaith ymchwil ar y we – gan gynnwys dilyn ambell i sgwarnog digon diddorol.

Daw'r cofnod cynharaf am Robert Thomas yn yr ardal hon yn 1828 pan gaiff ei restru yn Rhôl Bwrdeistref Caernarfon fel 'druggist, High Street'. Ni roddir enw na rhif y tŷ. Yna, ym mis Mai 1832 mae ei enw yn ymddangos eto fel un yn talu deg swllt am sedd yn Eglwys Llanbeblig am hanner olaf y flwyddyn honno. Ac y mae trydydd cyfeiriad ato – ond heb ddyddiad yn anffodus – mewn rhestr o fasnachwyr tref Caernarfon, fel 'Robert Thomas, druggist, Turf Square'. Ond y cofnod pwysicaf yw bod y cymal 'Miss Jones, niece, Erw' yn cael ei ychwanegu. Dyna felly gadarnhau'r cysylltiad teuluol rhwng perchennog Erw Pwll a'r ferch oedd yn cadw tŷ iddo, sef Jane Jones, ei nith.

Roedd y Jane Jones hon wedi ei geni ym Mhentrefoelas, ac o ddilyn achau'r teulu yn y fan honno, daeth mwy o wybodaeth am Robert Thomas. Ni chafodd Pentrefoelas ei sefydlu'n blwyf eglwysig hyd 1810, a chyn hynny roedd yn rhan o blwyf Llanefydd. Ond roedd capel (chapelry) yno gyda chiwrdd yn gofalu am anghenion ysbrydol y trigolion. Clerc y plwyf oedd gŵr o'r enw John Thomas, a bu mor hyf a llenwi tudalen o gofrestr bedydd Capel Pentrefoelas gan restru genedigaethau ei blant ei hun – wyth ohonynt (er bod cofnodion bedydd yn dangos fod ganddo ddeg o blant!). Y seithfed plentyn ar y rhestr genedigaethau oedd Robert Jones Thomas, gafodd ei eni ar y 3ydd o Ebrill 1780. Chwaer iddo, Jane, a aned yn 1768, oedd mam y Jane arall a ddaeth i Bont Rhug i gadw tŷ i'w hewythr. Ac yr oedd Jane, chwaer Robert Thomas, yn fam hefyd i Sarah, mam Morris Owen a ddaeth i berchnogaeth Erw Pwll yn ddiweddarach.

A'r sgwarnog diddorol? John Thomas, tad Robert Thomas a hen daid Morris Owen. Ar wahân i fod yn Glerc y Plwyf, roedd hefyd yn cadw siop ym Mhentrefoelas ac yn fardd gwlad ac emynydd. Er mai eglwyswr oedd, roedd ganddo gydymdeimlad â'r Ymneilltuwyr, ac yn ôl traddodiad, cyfansoddodd ei emyn enwocaf – 'Crist fel Pren Afalau', ar ôl cerdded dros y mynydd i'r Bala i wrando'r Parch John Griffiths, (gweinidog Capel Pendref, Caernarfon) yn pregethu. Roedd yn cyd-oesi â Dafydd Ddu Eryri, a oedd yn byw yn Llanrug pan fu John Thomas farw yn 1818, ac ysgrifennodd hwnnw englynion coffa iddo. Mae englyn o waith John Thomas ar garreg fedd Twm o'r Nant.

Ond beth am Morris Owen, gor-nai Robert Thomas y 'druggist'? O chwilio mwy i hanes ei fywyd, ei waith a'i ddiddordebau, y syndod yw na cheir unrhyw gofnod amdano yn Y Bywgraffiadur Cymreig. Roedd yn gyfreithiwr wrth ei alwedigaeth, ond hefyd yn fardd, yn llenor, yn casglu llawysgrifau a llyfrau, yn hanesydd, ac yn feirniad eisteddfodol, gan gynnwys prif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn wir, pan aeth cynnwys Erw Pwll ar werth mewn ocsiwn yn dilyn marwolaeth Morris Owen, roedd Thomas Shankland, Llyfrgellydd y Brifysgol ym Mangor, yno yn prynu. Ac yn ôl adroddiadau, roedd digon o lyfrau yno 'i godi clawdd'.

Ychydig a wyddom am blentyndod Morris



Hysbyseb arwerthiant 1890, sy'n cynnwys hawliau pysgota ar y Saint.

Owen. Fe'i bedyddiwyd yn Eglwys Pentrefoelas ddiwedd Rhagfyr 1839. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Dinbych, cyn cwbllhau ei addysg yn Ysgol Eben Fardd yng Nghlynnog ddiwedd Rhagfyr 1857. Flwyddyn yn ddiweddarach, ac yntau'n ddim ond deunaw oed, enillodd yn Eisteddfod 'Fawr' Llangollen ar yr englyn a'r cywydd. Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, ei fwriad oedd bod yn amaethwr, ond erbyn 1861, ac yntau'n un ar hugain oed, roedd yn gweithio fel clerc i gyfreithiwr o'r enw Lloyd Royle yn Llanfyllin. Roedd yn dal yno ddeng mlynedd yn ddiweddarach, ond yn 1874 llwyddodd yn ei arholiadau i ddod yn gyfreithiwr a symudodd i Bwllheli at bartneriaeth Owen Owen. Yr oedd yng Nghaernarfon erbyn 1881 gyda chyfreithiwr o'r enw R. D. Williams. Tra yno aeth i bartneriaeth gyda Trevor Roberts, gan ymddeol yn 1913.

Tra yn Llanfyllin, sefydlwyd Cymdeithas Gymreigyddol Powys yn 1861, a'r Morris Owen ifanc oedd yr ysgrifennydd cyntaf. Bu'n gohebu gyda beirdd, llenorion a cherddorion ledled Cymru fel ysgrifennydd y gymdeithas, ac mae'n amlwg iddo gadw llawer o'r ohebiaeth. Flynyddoedd yn ddiweddarach mae'n dyfynnu o lythyrau a dderbyniodd, a hynny mewn erthyglau yn 'Y Geninen', cylchgrawn a sefydlwyd yng Nghaernarfon yn 1893.

Ei enw barddol oedd Isaled, a dan yr enw hwnnw y bu'n beirniadu mewn gwahanol eisteddfodau a chyfarfodydd llenyddol. Prin yw'r adroddiadau amdano yn cystadlu. Enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 1860 ar gyfres o chwe englyn i'r "diweddar Edward Jones, Maes y Plwm", ond roedd yn anfon englynion a thoddeidiau i wahanol gyhoeddiadau Cymraeg yn eithaf rheolaidd. Deuthum ar draws un cyfeiriad ato yn ennill ar gyfansoddi tŷ mewn cylchwyll lenyddol yn Llansannan yn 1874.

Roedd yn beirniadu ar gystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl yn 1884 ac yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain yn 1886 roedd yn feirniad ar y Bryddest, yr Arwrgerdd a'r Fugeilgerdd – gyda Ceiriog yn un o'i gyd-feirniaid. Beirniadwyd gwahoddedigion yr eisteddfod i Gaernarfon yn 1894 am beidio ei ethol ar y pwyllgor trefnu, ond roedd yn parhau'n boblogaidd gyda'r eisteddfod ei hun, ac ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf roedd yn beirniadu'r arholiadau am dderbyn ymgeiswyr i anrhydedd Urdd Ofydd.

Cyhoeddwyd nifer o'i erthyglau ffeithiol a hanesyddol yn 'Y Geninen', gan gynnwys ei atgofion am Eben Fardd, trafodaeth ar ble cafodd Nicander ei eni, hanes penodiad Goronwy Owen i swydd eglwysig yn Virginia, llythyrau Glasynys, ac erthyglau manwl am hanes ei fro enedigol yn ardaloedd Pentrefoelas ac Ysbyty Ifan.

Yn ôl adroddiadau roedd wedi mynd yn feudwyaidd iawn erbyn diwedd ei oes, yn enwedig

yn ystod y tair blynedd rhwng ei ymddeoliad a'i farwolaeth. Bu'n ddi-briod gydol ei oes, ond tybed na chafodd ei siomi yn gynharach mewn bywyd? Yn 1861, ac yntau'n llanc ifanc yn Llanfyllin, enillodd ar y Riangerdd yn Eisteddfod Iforiaid Caerdydd. Caledfryn oedd y beirniad, a chaiff y bardd ifanc ganmoliaeth uchel ganddo: "mae rhai darnau prydfarth anghyffredin... ac mae gwrthrychau ei gerdd yn deall athroniaeth cariad yn gampus." Prin fu ei gynnyrch eisteddfodol wedi hyn.

Ychydig o bobl Caernarfon a'r cylch a sylweddolai fod y cyfreithiwr hen ffasiwn a meudwyaidd a gadwai swyddfa yn y dref ac a oedd yn byw "rhywle yn y wlad" yr un person â'r bardd, y llenor a'r beirniad Isaled. Mae E. Morgan Humphreys yn ategu hynny mewn adroddiad am yr arwerthiant yn Erw Pwll. "Yr oedd Isaled wedi marw ers blynyddoedd: Morris Owen yn unig a fu farw fis Chwefror. Y mae'n amheus gennyf a oedd yno hanner dwsin o lyfrau a gyhoeddwyd ar ôl 1870." Ac yr oedd hyn yn cael ei ysgrifennu yn 1916.

Bellach, gwyddom mai Erw Pwll y glo, Pont Rhug, ar y terfyn rhwng plwyfi Llanddeiniolen a Llanrug oedd y "rhywle yn y wlad" ble bu Morris Owen / Isaled yn byw am hanner ei oes, a bardd, llenor a beirniad na chafodd fawr o sylw wedi coffâd byr iddo gan y Cofiadur Eifionydd yn seremoni cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Penbedw yn dilyn ei farwolaeth.

O.N. Roedd yr erthygl uchod wedi ei hysgrifennu cyn i rifyn diwethaf yr "Eco" ddod o'r wasg, a chyd-ddigwyddiad hollol oedd cyfeiriad Huw Price Hughes at ddyddlyfr pysgota Robert Thomas yn ei golofn 'Ar ben arall i'r lein'. Dyna brawf pellach fod Robert Thomas yn byw yn Erw Pwll, a hynny mor gynnar â 1812. Ac ni fydd angen i mi fynd i Archifdy Conwy chwaith. Daeth neges gan Ieuan Williams, Bethel, yn dweud fod catalog arwerthiant Stad yr Erw yn ei feddiant. Cryn dipyn yn llai o waith teithio felly pan fydd yn ddiogel i wneud hynny!

Damwain ar Allt Sam

Daeth cais i law gan Gwilym Williams (Ysgoldy gynt) yn holi am ddamwain a ddigwyddodd tua dechrau'r ganrif ddiwethaf. Yn ôl yr hanes, roedd charabanc neu fws cynnar yn teithio i lawr yr allt ar ei ffordd o Ebenezer. Does wybod beth yn union a ddigwyddodd – brêcs yn methu efallai, ond collwyd rheolaeth ar y cerbyd ac aeth yn erbyn wal ffrynt siop fechan oedd wedi ei lleoli ar yr allt.


Oes unrhyw un â gwybodaeth am ble'n union roedd y siop? Oes rhywun arall wedi clywed am y ddamwain hon ar Allt Sam?

Doedd teulu Gwilym ddim yn byw yn yr ardal hyd ddechrau'r ganrif ddiwethaf, a dyna pam y credir iddi ddigwydd tua'r cyfnod hwnnw. Ond er chwilio drwy bapurau newydd y cyfnod, does dim sôn am y ddamwain, felly gall fod wedi digwydd yn ddiweddarach.

Gwybodaeth os gwelwch yn dda gan drigolion Deiniolen a Chlwt y Bont.

www.chwilota.wordpress.com

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r Eco, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA (Ffon 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com



CROESAIR

Ar draws

- 1 Math o fwyd o'r Eidal (7)
- 5 Arswyd (4)
- 7 Coler neu gadwyn am wddf anifail (5)
- 8 Canmoliaeth (4,2)
- 9 Nerth (4)
- 10 Darogan (7)
- 12 Dewrder (5)
- 14 Rhoi eich gair (3)
- 18 Gair i ddisgrifio rhywun tywyll ei liw (7)
- 19 Cadw neu arbed rhywun rhag niwed (4)
- 21 Rhan ysbrydol unigolyn (5)
- 22 Anghyffredin o dda (6)

I lawr

- 1 Math o gôt fer (6)
- 2 Grawn (5)
- 3 Barddoniaeth grefyddol (4)
- 4 Math o fwyd wedi'i wneud o laeth (6)
- 5 Anifail sy'n cael ei alw yn 'byfflo' yn America (6)
- 6 Uchelwr o radd rhwng dug a iarll (7)
- 11 Cofrestru (7)
- 13 Nesau (6)
- 15 Wythfed (5)
- 16 Gwartheg godro (5)
- 17 Symud yn gyflym (5)
- 20 Gair i ddisgrifio rhywbeth sydd ymhell o wyneb y ddaear (4)

Atebion Croesair Rhifyn Ebrill

Ar draws: 1. Gorsaf 4. Pydru 8. Rasio 9. Bragdy 10. Edliw 11. Canran 12. Tact 14. Esgus 18. Ardal 19. Doctor 20. Adran 21. Wermod

I lawr: 1. Gornest 2. Rasal 3. Addolwr 5. Y Waun 6. Rwdlan 7. Abacws 13. Cadarn 15. Unicorn 17. Colon 18. Afal 19. Dewr

Llên Natur
Fferm
Glanrafon Ddoe
a Heddiw

Mae hen luniau a hen gardiau post yn ffenest wych ar y gorffennol ond i gael y fantais orau ohonyn nhw mae'n rhaid mynd yn ôl i ail-dynnu'r llun, ganrif a mwy efallai yn ddiweddarach. Diolch i Gareth Pritchard a thudalen Facebook Llanrug Ddoe a Heddiw, daeth y llun hwn o Fferm Glanrafon, Llanrug i'r fei. Henry Parry oedd yn amaethu yma, ond fel y dywedodd Gareth - y ceffylau yw sêr y llun.

Gwelwn hanner dwsin o geffylau smart yma. Tynnwyd y llun am 6 o'r gloch y bore yn ystod yr haf, yn 1905. Oedd hwn yn achlysur arbennig, tybed? "Mae gen i atgofion melys iawn o Glanrafon," meddai Menna Williams "cofio mynd yno ar ddiwrnod dynu efo fy nhad, wedyn cofio Major Carter a'i wraig a'u merch yn byw yno, yn siarad yn posh iawn: 'How now, brown cow'. Ond cymdogion triw iawn. Ac wedyn y Pierces, a Mrs Pierce yn chwaer i Arthur Rowlands y plismon dall - gwraig fonhoddig. Cofion gora at y teulu i Emyr, Bob, Gwenan, Rac heb anghofio'r diweddar Alun".

Llyn Hari Parry neu Llyn Hari ydi enw'r pwll yn yr afon sydd i'w weld yn y llun - mae cryw llechi ar ei draws meddai Robin Parry (pysgotwr i mi, ond meddyg i chi, efallai). Gyda llaw, y gair 'cryw' (neu argae), nid 'crawiau', sydd wedi rhoi'r enw Pont Crawiau ar y bont gyfagos meddai Dafydd Whiteside Thomas. Mae'n dal yn bwl adnabyddus a haeddiannol boblogaidd



ymysg pysgotwyr, meddai Robin: "Nifer dda o sewin ac ambell eog wedi dod i law ynddo yn 2020."

Mae diwrnod o waith o flaen y ceffylau, yn amlwg. Diwrnod efallai yn gwasanaethu cesyg y sir - roedd y Stalwyn Sir yn rhan o fywyd yn oes y ceffyl. Ond cesyg ydi'r rhain hyd y mae'n bosib gweld, cesyg yn barod i gael eu gwasanaethu efallai? Cesyg a'u cynffonnau wedi eu clymu neu eu tocio (ar gyfer hynny efallai, neu ar gyfer sioe - Sioe Môn o bosib?) Neu hwyrach paratoi'r ceffylau at rownd lefrith sydd yma? Dyna roedd tad Helen Williams yn ei wneud cyn iddi fynd i'r ysgol pob bore, dipyn yn ddiweddarach na'r llun yma wrth gwrs. "Clywais i o'n dweud ar lawer achlysur bod yna tua 40 o geir a cheffylau yn gwerthu llefrith yng Nghaernarfon pan oedd yn fachgen ifanc". Neu'r cynhaeaf gwair oedd gorchwyl y ceffylau efallai, ag ystyried y tymor honedig a'r dail swmpus ar y rhan fwyaf o'r coed. Ond mae gormod o geffylau yma i un fferm, wrth gwrs. Ceffylau ar contract i ffermwyr eraill, o bosib? Yn sicr, mae'r rhain yn geffylau o frîd.

Mae oes y ceffyl gwaith wedi hen fynd heibio, ac eto, efallai bod mwy o geffylau heddiw ym mro'r Eco - yn Waunfawr beth bynnag - nag a fu ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Ond hamddena sydd yn mynd â bryd eu perchnogion, neu gwsmeriaid eu perchnogion, erbyn heddiw.

Do, daeth tro ar fyd a hynny mewn mwy nag un ffordd. Diolch i Robin Parry, a aeth allan yn



unswydd yn yr wythnosau diwethaf i dynnu llun o'r union olygfa heddiw. "Efallai y dyliwn i fod wedi sefyll llaten neu ddwy i'r dde i gael pilar yr adwy yn nes at lein y tŷ" meddai. "Tybiwn fy mod yn sefyll bron yn yr un lle â'r sawl a dynnodd y llun gwreiddiol - teimlad difyr yn pontio'r blynyddoedd..."

Mae'n anodd credu mai'r un olygfa yn union yw'r un yn llun Robin...

"Dros ganrif o dyfiant coed yn cuddio'r tŷ bellach" meddai. "Mae'r adwy'n dal yno - tu ôl i'r gŵr efo siaced olau - roeddwn yn trio cymharu'r cerrig heddiw! Mae Ffoes y Dail yn mynd o dan y llwybr - mewn peipan erbyn heddiw. Mae'r ddau ddyn a'r ceffylau ar y chwith yn sefyll ar y llwybr/morglawdd sydd yno - ond dan eithin erbyn hyn. Mae'r llwybr yn amlwg yn mynd rhwng y tŷ a'r afon wrth y coed tywyll - i gyd dan dyfiant rŵan ond mae giât yno o hyd".

Mae hyn yn batrwm o newid yn gyffredinol dros y ganrif aeth heibio. Ffermwyr erystalwm yn cael budd o bob congl o'u tir tra bod ffermwyr heddiw yn cael mwy o fudd o'u tir gorau, a'r cyrion salach yn mynd yn wyllt. Dyna welwn yma... 'Drain ac ysgall mall a'i medd - a mieri lle bu mawredd', meddai rhywun. Fuasai'n well gen i feddwl mai'r gnochell, y fronfraith a'r wenci sydd piau'r cyrion hyn bellach, a hynny er lles pawb.

Mae croeso i ddarllenwyr ychwanegu o'u profiad at y stori hon, neu ei gywiro. Cysylltwch â llennatur@yahoo.co.uk neu ffoniwch 01286 650068

Ar ben arall i'r lein



Mae'n brysur go iawn o gwmpas y lle 'ma. Mae'n anodd cadw popeth mewn trefn, a gyda'r gwaith gweinyddol yn cynyddu, dwi'n ei chael yn ofnadwy o anodd i fynd allan i wneud gwaith cynnal ar y dyfroedd. Ond wrth gwrs yn yr oes yma mae'n rhaid cadw'r gwaith papur mewn trefn neu mi fydd rhyw asiantaeth neu fraich o'r Llywodraeth yn disgyn ar ein cefnau. Yn anffodus, dyma fy nghyfrifoldeb i. Er fy mod yn ysu i gael mynd allan, mae'r gymdeithas yn ffodus dros ben fod nifer o'r aelodau yn cymryd cyfrifoldeb am y gwaith angenrheidiol o gadw'r glannau mewn trefn. Mi gyfeiriaais fis diwethaf at y gwaith sy'n mynd ymlaen. Fel dilyniant i hyn, mae gwaith ardderchog wedi bod yn mynd ymlaen i atgyweirio'r ddwy bont rhwng Pen Llyn a Pwll Fôn. Diolch o galon i John a Brinley am ymgymryd â'r gwaith a hefyd i'r criw fu'n cario'r coed dros y caeau i allu cwblhau'r gwaith. Edrychwch ar dudalennau Facebook SGLL am luniau o'r criw gweithgar!

Gwaith ardderchog arall sydd hefyd yn mynd ymlaen yw tacluso a chlirio tir sy'n amgylchynu'r ddeorfa. Diolch i'r peiriant-feistr Tony am wneud y gwaith a chael defnydd o'r peiriannau angenrheidiol. Mae o wedi bod wrthi hefyd dros benwythnos y Pasg yn torri'r maes parcio yn Crawia a hefyd y glanfeydd cychod ym Mhen Llyn a Llanberis. Mae'r lle'n werth ei weld. Diolch i bawb am eu hymdrechion.

Dwy joban sydd angen eu cwblhau rwan yw gorffen codi'r jeti ar Lyn Nantlle ac atgyweirio'r lanfa ar Lyn Cwellyn. Gobeithio bydd y rhain wedi eu cwblhau o fewn rhyw fis i chwe wythnos.

Cyn i mi droi at y 'sgota, mae'n rhaid cyfeirio at ein llety hunan gynhaliol, sef Melin y Cim, Pontllyfni. Wedi'r Cyfnod Clo mawr mae'r lle dan ei sang, a fwy na heb yn hollol lawn hyd at ddiwedd Hydref. Bydd hyn o gymorth mawr i ddal dau benllinyr ynghyd ac i ni allu cynllunio gyda hyder at y dyfodol. Yr unig rwystr ar y funud ydi'r oedi o ran y penderfyniadau ynglŷn â'n cynlluniau ar gyfer safle hen Westy'r Newborough ym Mhen

Llyn. Cyn tawelu ar hyn, rhaid diolch i Gyngor Gwynedd am eu cymorth ardderchog dros y Cyfnod Clo.

Diolch i Dafydd Whiteside am ehangu tipyn ar hanes Robert Thomas, Erw Pwll y Gro yn ei golofn Chwilota yn rhifyn Ebrill o'r Eco. Cyd-ddigwyddiad hollol oedd i minnau yn yr un rhifyn gyfeirio at yr un person a'r dyddiadur manwl yr oedd wedi ei gadw o bysgota dyfroedd y fro. Daeth i mi dipyn mwy o wybodaeth wrth bori yn y dyddiaduron; ac efallai y gwnaiff y wybodaeth hon lenwi ychydig o fylchau am dano. Yn 1778, mae cyfeiriad at Robert Thomas yn byw yn Stryd Bangor, Caernarfon a'i fod yn rhedeg busnes fel Druggist yn Pendis, Caernarfon. Mi aeth wedyn i fyw at ei nith Miss Joyce yn Erw Pwll y Gro. Roedd yn ôl pob golwg yn eithaf cefnog gan fod awgrym ei fod yn benthyca arian i rai i brynu eiddo. Ond ei ddyddiaduron sydd yn bwysig i ni fel pysgotwyr. Dyma gyfieithiad o ryw frawddeg neu ddwy ohonynt:

Mawrth 1809 - Dechrau pysgota yn Sir Gaernarfon. Gwelais fod y Corff Main a tharddiad glas ynddi o glymiad Bowlker y mwyaf llwyddiannus

11 Mai - Pysgota'r Marddwr ger melin Gerrig, Rhyd Ddu, cefais frithyll hyfryd a chyw eog ar bluen hacl ddu corff paun. Yr un diwrnod ar Lyn Cwellyn cefais laddfa gyda'r dun a chorff du.

5 Hydref 1819 - Y trydydd diwrnod o ddechrau ar bluen, bachais bump eog a dal dau ohonynt. Un yn Llyn Engan am 7.00 y bore, un yn y twll lle collais un ac fe aeth â'm pluen. O dan Byrnes fe ddaliais un â'r bluen yma yn ei geg, hyn am hanner awr wedi saith. Bachais un arall yn y twll o dan y Sarn ym Mhont Rug. Mi es adref wedyn ac aros yno tan bump yn y prynhawn, yna am hanner awr wedi pump bachais un arall yn Llyn Engan - ond fe'm torrodd.

Trwy'r dyddiaduron, y bluen fwyaf llwyddiannus am eog oedd Aderyn y Bwn a chorff coch tywyll (corff rhwd mwyaf tebyg). Mae'n amhosib cael plu'r aderyn yma heddiw.



Mae'n hen amser i mi droi at y 'sgota. Er i'r tywydd fod ar adegau'n ffafriol dros ben, gyda'r tymheredd yn fwy tebyg i fis Mai am ddyddiau, heddiw (sef 6ed Ebrill) mae'n bwrw eira'n drwm a'r tymheredd i lawr bron i'r rhewbwynt. Fodd bynnag, cyn yr oerni 'ma, mi oedd y 'sgota yn o foddhaol gyda brithyll brown arbennig yn dod o'r Finiog. Fe gafodd Stuart Woodward, o'r Ceunant, un bendigedig rhwng dau a thri phwys: anodd dweud y pwysau gyda sicrwydd gan fod Stuart yn rhoi pob un yn ôl yn yr afon. Un o'r dyddiau y mae hir ddisgwyl amdano yw 1af Ebrill pan fo Llyn y Dywarchen yn agor: mae'r stocio cyntaf wedi ei ddileu eleni oherwydd yr ansicrwydd gyda'r Clo mawr. Ond dyddiad arall y mae disgwyl amdano yw wythnos gyntaf Mai, pan fydd y stoc gyntaf yn mynd i mewn. Efallai bydd rhai'n disgwyl am hyn i gael helpa reit hawdd, ond i'r rhai sydd o ddifri mae brithyll yr enfys sydd wedi gor-aeafu yn drysor werth ei gael. Un o'r 'sgotwrs penderfynol yw Goronwy Roberts, Llanrug. Ar 2il Ebrill, fe gafodd un o'r rhain am 4 pwys a sglein arno fel arian byw. 'Sgwn i a wnaeth fentro allan heddiw yng nghanol yr eira. Ia, cofiwch mai pysgodyn yn wreiddiol o Ogledd America yw brithyll yr Enfys ac mae'r Americanwyr wrth eu bodd yn ei sgota ar dywydd eithafol o oer.

Ond be sydd wedi rhoi'r mwyaf o bleser yw gweld fod torgoch wedi eu dal ar Padarn - ac yn eu mysg un o'r rhai a gafodd eu stocio fel

rhan o gynllun adfywio'r Llyn. Dr Robin Parry di'r boi fel dwi'n deall. Ond dwi'n deall fod torgochiaid eraill yn cael eu dal ac yn cael eu rhannu o gwmpas Llanberis, mae'n amlwg fod yr holl waith o gael y torgochiaid yn ôl yn golygu dim i rai fel a ganlyn:-

Mae'n siom fawr i'r Gymdeithas sut mae rhai o Lanberis yn ymddwyn tuag at y Gymdeithas a'n hamcanion. Mae'r holl waith sydd wedi bod ac yn dal i fynd ymlaen i sicrhau fod ein dyfroedd mewn perchnogaeth leol yn golygu dim iddynt. Eisiau popeth am ddim. I ddiogelu'r hawliau yma, mae'n rhaid cael llif incwm er mwyn cadw'r glannau, cynnal y cychod, sicrhau fod yswiriant yn ei le i'n gwarchod mewn adegau o argyfwng - llygredd yw un esiampl. Cofiwch be ddigwyddodd gyda phroblemau gwaith carthffosiaeth Llanberis. Y gost i'n cynrychiolwyr i ymladd yr awdurdodau yn yr achos yma oedd oddeutu £100,000. Heb ein hymdrechion a heb ddim cost o gwbl i drigolion Llanberis, ni fuasai Llyn Padarn heddiw yn dda i ddim i neb: dim pysgota, dim chwaraeon dŵr, mewn difri dim byd. Ond cofiwch un peth, chwi sy'n mynnu camddefnyddio'r Llyn: mae yna ffordd o fynd â Wil i'w wely, ond peth diflas ofnadwy fuasai gorfod troi at y llysoedd i sicrhau hyn.

Ardderchog yw'r ffaith ein bod wedi derbyn llif da o aelodau newydd eleni. Mae nifer o'r criw yma wedi manteisio ar docyn defnydd cwch. Bydd pleser mawr o'ch blaenau.

Mae rhai wedi tynnu fy sylw y buasant yn falch o ddechrau pysgota, ond eu bod heb syniad sut i fynd o gwmpas y grefft. Mae digon o wybodaeth ar gael dros y we, YouTube yw un ffynhonnell ddefnyddiol. Yn anffodus, mae'r sefyllfa Covid-19 'ma yn rhwystr mawr i ni fel aelodau i roi rhyw awr i rywun newydd ar lan yr afon. Fodd bynnag, mi fuasai o gymorth i gael gwybod pwy sydd â diddordeb o roi cynnig ar bysgota. Os bydd y galw'n ddigonol cawn edrych ar drefnu sesiynau hyfforddi yn dilyn codi'r Cyfnod Clo.

Wel, dyna ni am y tro.

Huw Price Hughes

Cymru yn cychwyn eu taith i Qatar

Mis Mawrth fe ddechreuodd tîm pêl-droed Cymru eu taith i gystadleuaeth Cwpan y Byd yn Qatar yn 2022. Cynhelir y gystadleuaeth rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 ac mae gan Gymru dipyn o daith o'u blaenau mewn mwy nac un ffordd! Yng ngrŵp E mae Cymru, ble mae Gwlad Belg, Gweriniaeth Tsiec, Belarus ac Estonia hefyd yn brwydro am le yn Qatar. Cychwynnodd y daith gyda gemau yn erbyn Gwlad Belg a'r Weriniaeth Tsiec, gyda Chymru hefyd yn chwarae gêm gyfeillgar yn erbyn Mexico yn ystod y toriad rhyngwladol.

Gwlad Belg yn dial

Y gêm gyntaf oedd yn wynebu Cymru oedd Gwlad Belg oddi cartref. Y gêm anoddaf o'r grŵp byddai llawer yn tybio. Doedd y tîm cartref heb golli gêm gystadleuol adref ers 2010. Roedd tasg anferth felly o flaen Cymru. Yn anffodus fe gafwyd ergyd i Gymru o fewn y munudau cychwynol. Gyda'i ymddangosiad cyntaf yn ôl ers 2019 bu rhaid tynnu Joe Allen oddi ar y cae o ganlyniad i anaf. Croesi bysedd na fydd yn rhy ddifrifol gyda'r Ewros ar y gorwel.

Er yr ergyd fawr i Gymru y tîm oddi cartref ddaeth o hyd i gefn y rhwyd gyntaf o fewn 10 munud. Rhaid dweud roedd hi'n gôl anhygoel gan Harry Wilson. Gyda Chymru yn chwarae mewn melyn roedd yn union fel gwyllo Brazil, cafodd y bêl ei phasio o un chwaraewr i'r llall cyn diwedd y nghefn y rhwyd gan fynd heibio Thibaut Courtois. Yn syml, roedd hi'n gampwaith.

Oedd Cymru am gael y gorau o Wlad Belg unwaith eto? Yn anffodus fe gawsom yr ateb i hynny yn ddigon buan gyda Kevin De Bruyne yn ei gwneud hi'n gyfartal ar ôl 20 munud o chwarae. Yn bendant, roedd Gwlad Belg ar dân rwan ac fe aethant ar y blaen 6 munud yn ddiweddarach gyda gôl gan Hazard. Na, nid Eden Hazard ond ei frawd bach Thorgan Hazard – teulu talentog iawn! Heblaw am y gôl roedd hi wedi bod yn hanner cyntaf digon distaw i Gymru.

Dechreuodd Cymru'r ail hanner yn gryfach ac roeddent yn gwrthio mwy a mwy am y gôl gyfartal ond roedd Gwlad Belg yn delio gydag unrhyw fygythiad yn gyfforddus. Gyda chwarter awr i fynd, fe seliodd y tîm cartref y fuddugoliaeth gan ennill cic o'r smoty. Fe geisiodd Mephram glirio'r bêl allan o'r cwrw cosbi ond ni sylwodd ar Dries

Mertens y tu ôl iddo felly fe ddalodd yn y broses ac fe bwyntiodd y dyfarnwr at y smoty yn syth. Fe darodd Lukaku'r bêl i mewn i'r rhwyd heb unrhyw drafferth. Y sgôr terfynol felly Gwlad Belg yn ennill o 3 gôl i 1. Fe wnaeth chwaraewyr Gwlad Belg grybwyll ar ôl y gêm eu bod wedi cael eu cyfle i ddial arnodd ers y noson fythgofiadwy yn Lille yn 2016.

Y Brenin Gunter

Yng nghanol y gemau cystadleuol yn erbyn Gwlad Belg a'r Weriniaeth Tsiec fe chwaraeodd Cymru yn erbyn Mexico mewn gêm gyfeillgar. Roedd Cymru yn wynebu tîm oedd yn 9fed yn y byd! Er mai gêm gyfeillgar oedd hi roedd llawer o bwyslais arni gan mai yn y gêm yma roedd Chris Gunter am ennill ei 100fed cap i Gymru. Y dyn cyntaf i gyrraedd y garreg filltir yma. Mae'n ymuno â Jess Fishlock, Loren Dykes a Sophie Ingle sydd wedi derbyn dros 100 o gapiau i dîm y merched. Ar gyfer yr achlysur arbennig hwn, cafodd Chris Gunter ei enwi hefyd yn gapten ar y tîm. Mae'n siom ofnadwy na chafodd y cefnogwyr fod yno yn gweld Gunter yn ennill ei 100fed cap ond gobeithio y cawn ddychwelyd i'r stadiymau yn ddigon buan a'i weld yn ennill cap 101!

Fe benderfynodd Rob Page fynd am dîm hollol wahanol i'r un a welsom yn erbyn Gwlad Belg gan newid y tîm yn llwyr. Doedd dim un chwaraewr a ddechreuodd y gêm yn erbyn Gwlad Belg yn dechrau yn erbyn Mexico. Yn amlwg roedd gan Rob Page un llygad ar y gêm oedd i ddilyn yn erbyn y Weriniaeth Tsiec. Braf felly oedd gweld y bechgyn ifanc yn cael cyfle i ddisgleirio a chyfle euraidd iddyn nhw frwydro am eu lle ar yr awyren i'r Ewros yn yr haf. Braf hefyd oedd gweld Wayne Hennessey yn dychwelyd i'r gôl ar ôl anaf.

Kieffer Moore sgoriodd unig gôl y gêm a hynny o fewn y 10 munud cyntaf. Ni ddaeth llawer o gyfleoedd wedyn i Gymru ac er bod Mexico yn hawlio'r meddiant, roeddent hwythau yn ei chael hi'n



anodd i gael y bêl i gefn y rhwyd. Fe wnaeth Wayne Hennessey ambell i arbediad gwych gan gadw llechen lân i Gymru. Addas iawn felly fod Chris Gunter wedi llwyddo i gael llechen lân ar ei 100fed cap. Er bod Cymru wedi rhoi tîm ifanc ar y cae roedd hi'n berfformiad digon aeddfed a hyderus. Doedd Mexico ddim wedi colli ers 22 gêm ac y tro diwethaf iddyn nhw golli oedd yn erbyn Yr Ariannin yn 2019, felly roedd Cymru wedi gwneud yn andros o dda i dorri'r rhediad yna.

“Rhaid curo'r Weriniaeth Tsiec”

Roedd tipyn o bwysau ar y gêm nesaf. Roedd y Weriniaeth Tsiec wedi ennill eu gêm gyntaf yn erbyn Estonia o 6 gôl i 2 ac wedi llwyddo i gael gêm gyfartal yn erbyn Gwlad Belg. Os byddai Cymru yn colli mi fyddent yn mynd 7 pwynt tu ôl i'r Weriniaeth Tsiec, gêm felly oedd yn rhaid ei hennill. Yn bendant, roedd hon am fod yn gêm anodd yn erbyn tîm da iawn. Er i'r tîm â chwaraeodd yn erbyn Mexico chwarae'n dda, fe benderfynodd Rob Page fynd gyda thîm tebyg iawn i'r un â chwaraeodd yn erbyn Gwlad Belg. Yr unig newid i'r 11 oedd bod Joe Morrell yn cychwyn yn lle Joe Allen. Roedd y Weriniaeth Tsiec yn mynd amdani o'r chwiban cyntaf. Er bod Tomas Soucek wedi bod ar dân yn eu gemau blaenorol digon distaw oedd o yn erbyn Cymru ond roedd Jakub Jankto yn gwneud yn iawn am hynny. Roedd Jankto yn creu niwsans i Gymru pob cyfle roedd o'n gael ac erbyn diwedd rhaid dweud mi o'n i braidd yn 'fed up' o glywed ei enw gan y sylwebwyr!

Byddai Kieffer Moore wedi bod yn wych ar y cae yn ystod yr hanner cyntaf. Roedd Cymru yn chwarae pêl-droed fyddai yn ei siwtio fo i'r dim. Fyddai Cymru wedi sgorio yn yr hanner cyntaf os byddai Moore ar

y cae? Pwy a wŷr. Fe ddechreuodd yr ail hanner gyda cherdyn coch yn cael ei ddangos i ymosodwr y Weriniaeth Tsiec Patrik Schick, ond os rhywbeth fe wnaeth hynny achosi i'r ymwelwyr fod yn fwy pendant nad oedden nhw yn fodlon gadael heb y 3 phwynt. Yn bendant fe wnaethon nhw bethau yn anodd i Gymru.

Gyda chwarter awr o'r gêm ar ôl cafwyd cerdyn coch arall, y tro yma i'r tîm oedd yn chwarae mewn coch. Connor Roberts oedd yr un a gafodd ei enw yn llyfr y dyfarnwr am iddo dderbyn ei ail gerdyn melyn. Roedd y ddau dîm felly lawr i 10 dyn ac roedd pethau'n mynd yn dynnach ac yn dynnach. Yn sicr, mi fyddai'r Weriniaeth Tsiec wedi bod yn hapusach gyda phwynt na Chymru ond fe ddaeth y gôl! Daniel James yn sgorio i Gymru gyda 80 munud o'r gêm wedi mynd heibio. Y chwaraewr lleiaf ar y cae yn sgorio peniad! Roedd rhaid i Gymru ddal yn dynn ar y fantais gan fod buddugoliaeth dal ddim yn bendant. Ym munudau olaf y gêm fe wnaeth Joe Rodon bloc eithriadol i achub croen Cymru ac i achub y 3 phwynt. Fe ddaeth y chwiban olaf ac fe anadlwyd ochenaid o ryddhad ar draws Cymru dwi'n siwr!

Gyda'r fuddugoliaeth yna i Gymru maent nawr yn y trydydd safle yn y grŵp gyda 3 phwynt ac mae Belarus hefyd ar 3 phwynt. Estonia sydd ar y gwaelod ar ôl colli eu 2 gêm gyntaf. Mae Gwlad Belg ar y brîg gyda 7 pwynt a'r Weriniaeth Tsiec efo 4 pwynt yn ail. Mae'n bwysig cofio fod Gwlad Belg a'r Weriniaeth Tsiec wedi chwarae un gêm yn fwy na Chymru felly mae'r grŵp dal yn gwbl agored. Mae un peth yn bendant, mae am fod yn dipyn o siwrne i gyrraedd Qatar!

Mared Rhys

ChwaraeonECO

COLOFN CHWARAEON

Dyfnder

Ar un olwg mae safonau ein timau cenedlaethol dynion yn dderbyniol iawn ar hyn o bryd. Y tîm rygbi yn chwarae rygbi atyniadol ond yn methu o fewn munudau drwy gam-ddisgyblaeth i gipio'r Gamp Lawn. Ein tîm pêl-droed cymharol ifanc yn dal i naddu canlyniadau ac yn sicr yn ennyn gobaith am ddyfodol llewyrchus yn y tymhorau nesaf.

Buasai rhywun yn meddwl fod sefyllfa iach yma yng Nghymru ond chwalwyd y ddelfryd mewn un penwythnos ddechrau Ebrill. Ym myd rygbi – er bod y sêr rhyngwladol wedi dychwelyd – collodd y Gleision, Gweilch a'r Dreigiau yng nghystadlaethau Ewrop. Ym mhob un o'r gemau roeddent ar y blaen wedi awr o chwarae. Yna diffyg disgyblaeth a cholli'r tair gêm. Anghofiwn am ddelfryd a hanes

y 9-3 a chyfaddef fod y Scarlets wedi eu chwalu gan Sale. Ein timau rhanbarthol yn dal i gynnwys chwaraewyr tramor ar arian mawr. Nifer o'n chwaraewyr ifanc cynhenid yn cynhesu'r fainc. Ai problem hyfforddi sydd yma? Gyda dim ond pedwar tîm rhanbarthol proffesiynol, mae rhai yn gofyn pam na allwn ddatblygu templed y Crysau Duon ble mae'r timau rhanbarthol yn chwarae yr un dull a'r tîm cenedlaethol.

Ym myd y bêl-droed cawn yr un sefyllfa. Yng nghyfnod allweddol y tymor, Abertawe, Caerdydd, Wrecsam a Chasnewydd yn anghyson eu perfformiadau. Dyma'r gemau sy'n cyfrif. Y gemau ail-chwarae yw'r prif obaith bellach. Caerdydd â gwaharddiad delio yn y broses drosglwyddo. Abertawe a Wrecsam yn dioddef oherwydd anallu i sgorio goliau. Edrych ymlaen at y tymor nesaf yw hi o hyd. Y boddi yn ymyl y lan eto.

Holi a Gofyn

Yn amlwg ni fydd fawr o newyddion chwaraeon lleol am dipyn o amser eto. Gobeithio eich bod wedi cynefino bellach gydag erthyglau Mared a rhyw bytion gen i. Serch hynny, rwy'n ymwybodol mai erthyglau lleol yw bara menynd pob papur bro. Felly rwyf am gydio mewn syniad sy'n deillio o Ddyffryn Nantlle. Fe fydd clwb Nantlle Vale – Freddie Pye, Orig Williams ayb. – yn dathlu penblwydd arbennig eleni ac maent wedi penderfynu cyhoeddi llyfryn. Gofynnwyd i nifer o gyn-chwaraewyr roddi un atgof o gêm, digwyddiad, trip, ayb. Cafwyd ymateb da.

Fy mwriad felly yw yn ddi-rybudd gysylltu gyda nifer o bobl chwaraeon yr ardal – o wahanol gampau a swyddogaeth – a gofyn iddynt roddi un atgof. Gobeithio y cawn drawsddoriad o brofiadau i gadw'r cyswllt lleol. Diolch am eich ymateb o flaen llaw.

Richard Lloyd Jones

Nofwyr lleol yn goresgyn heriau

Oherwydd y coronafeirws roedd rhaid i Glwb Nofio Caernarfon a Nofio Gwynedd ohirio gweithgareddau nofio tu mewn am fisoedd, fel mwyafrif o glybiau nofio dros Gymru. Trwy gydol yr amseroedd heriol, canolbwyntiodd y clybiau ar ddatblygu dulliau amgen o ymarfer gan newid i weithgareddau ar y tir a gweithgareddau rhithiol, yn cynnwys fideos a chyflwyniadau ar wahanol bynciau. Yn ogystal,

cafwyd dosbarth goginio rhithiol ble roedd rhaid i bob nofiwr yn eu tro greu rysâit ac arwain y sesiwn.

Dechreuodd 2020 yn dda gydag aelodau Chlwb Nofio Caernarfon yn mynychu gwersyll sgiliau yn La Santa, Lanzarote ym mis Chwefror 2020, ynghyd â Chlwb Nofio Porthmadog, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli (PBP). Fel rhan o'r gwersyll roedd y nofwyr 10 i 14 oed yn ymarfer eu sgiliau yn y pwll 50m awyr agored ddwywaith y dydd. Cawsant hefyd gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai athletwyr a mwynhau gweithgareddau megis badminton, pêl-droed, pêl foli traeth, padl fyrddio, caiacio, pêl-fasged, beicio mynydd ac yoga! Yn ystod yr un cyfnod, mynychodd nofwyr elît Nofio Gwynedd a Nofio Clwyd wersyll ymarfer gaeaf ym Malaga.

Mae swyddogion a gwirfoddolwyr y Clwb wedi gweithio'n ddiflino gyda Nofio Cymru a'r canolfannau hamdden i roi mesuriadau mewn lle i sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda gofynion a chanllawiau Covid-19 i sicrhau ffordd esmwyth yn ôl i nofio.

Gwelodd y Clwb gynnydd



mewn nofio dŵr agored dros yr haf diolch i ymdrechion Dave Parry, Prif Hyfforddwr Caernarfon a H2Open coaching. Derbyniodd wobwr Nofio Cymru am ei gyfraniad at nofio dŵr agored yn 2019. Dywed;

“Rwy'n falch iawn o'n nofwyr sydd wedi wynebu'r sialensiau hyfforddiant nofio dŵr agored. O 6 i 17 mlwydd oed, mae'r nofwyr oll wedi arddangos gwytnwch, cryfder ac ymroddiad i'r clwb.”

Mae gan Glwb Nofio Caernarfon dros 100 o nofwyr, gyda nifer ohonynt hefyd yn mynychu Nofio Gwynedd gan gystadlu

ar lefelau sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae un aelod o fro'r Eco wedi bod yn llwyddiannus iawn yn 2020, sef Dion Edwards sydd wedi ei dderbyn i Academi Sgiliau Cenedlaethol Nofio Cymru. Mae Dion, o Lanrug, eisoes wedi cynrychioli Tîm Gogledd Orllewin Cymru ar lefel rhyng-sirol. Llongyfarchiadau mawr iddo.

